



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk



Yr Asiantaeth Safonau Bwyd Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Cymru 2022–2023

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Cymru 2022–2023

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau fersiwn 3 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Yn yr achosion hynny lle'r ydym wedi nodi gwybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost i financial.accounting@food.gov.uk.

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa
Ei Fawrhydi.

Cynnwys

| | |
|--------------------------------|---|
| Rhagair y Prif Weithredwr..... | 2 |
| Rhagair y Cadeirydd..... | 3 |

| | |
|------------------------------|----------|
| Adroddiad perfformiad | 5 |
|------------------------------|----------|

| | |
|--------------------------------|---|
| Trosolwg o berfformiad..... | 6 |
| Dadansoddiad perfformiad | 6 |

Saesneg yn unig o hyn ymlaen

| | |
|------------------------------|-----------|
| Adroddiad atebolrwydd | 95 |
|------------------------------|-----------|

| | |
|---|-----|
| Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | 96 |
| Adroddiad Tâl a Staff..... | 116 |
| Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio | 144 |
| Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru..... | 145 |

| | |
|-------------------|------------|
| Y cyfrifon | 151 |
|-------------------|------------|

| | |
|--|-----|
| Datganiadau Ariannol | 152 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau Adrannol..... | 156 |
| Atodiad A: Cyfeiriad Cyfrifon..... | 172 |

Rhagair y Prif Weithredwr



Rwy'n falch o osod gerbron Senedd Cymru a Senedd San Steffan, a chyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon, Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â pherfformiad a gweithgareddau yn 2022/23 ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n nodi cyflawniadau'r ASB dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys ein gwaith o ymateb i fwy na 2,000 o ddigwyddiadau bwyd, a'n rôl wrth arolygu busnesau cig a llaeth. Ar draws y meysydd gwyddoniaeth, diwygio arferion rheoleiddio a dadansoddi risg, mae'r ASB yn cyflawni ei chenhadaeth o sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo.

Roedd pwysau annisgwyl yn golygu y bu hyd yn oed fwy o alw ar staff ac adnoddau'r ASB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi datblygiad Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM) y llywodraeth, sef trefn newydd ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu mewnforio ac sy'n dod i mewn i Brydain Fawr. Buom hefyd yn gweithio'n galed i gyflawni Bil Cyfraith yr UE a Ddargeddwir (Diwygio a Dirymu) hyd at y terfyn amser cychwynnol ac i gefnogi'r Bil Bridio Manwl.

Dros y flwyddyn, gwnaethom barhau i weithio gydag awdurdodau lleol wrth iddynt glirio'r swmp o arolygiadau o fusnesau bwyd a oedd wedi croni yn ystod pandemig COVID-19. Diolch i waith caled timau bwyd yr awdurdodau lleol, mae ymyriadau bellach yn gyfredol ar gyfer y busnesau hynny sy'n peri'r risg uchaf, a gwnaed cynnydd sylweddol hefyd gyda busnesau risg is. Roedd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu dod â'r Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol i ben, a lansiwyd yn 2021 i gefnogi adferiad a sicrhau bod modd dychwelyd i 'fusnes fel arfer' yn dilyn blwyddyn o ymateb i'r pandemig.

Gan ystyried y cyd-destun hwn, mae hyder defnyddwyr mewn diogelwch a diliysrwydd bwyd wedi parhau'n uchel. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod 91% o'r ymatebwyr yn hyderus bod eu bwyd yn ddiogel i'w fwyta, a bod 86% yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir. Fodd bynnag, mae ein hymchwil hefyd yn dangos mai prisiau bwyd yw'r pryder mwyaf cyffredin yn ymwneud â bwyd ymhliith ymatebwyr.

Hoffwn ddiolch i staff yr ASB, cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, a'r busnesau bwyd rydym yn gweithio gyda nhw am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn ddilys.

Emily Miles

Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rhagair y Cadeirydd



Hoffwn ganimol Tîm Gweithredol yr ASB am ei holl waith dros y flwyddyn ddiwethaf i gynnal safonau bwyd a diogelu iechyd y cyhoedd. Diolch hefyd i bawb a fu'n ymwneud â pharato'i'r adroddiad blynnyddol a'r cyfrifon yn ofalus sy'n galluogi eraill i graffu ar ein gwaith.

Mae Bwrdd yr ASB wedi bod yn monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn ac rydym yn hyderus bod yr ASB yn parhau i wneud gwaith da o ran cynnal safonau bwyd uchel. Mae'r gwaith gwerthfawr y mae'r ASB yn ei wneud i ragweld ac ymateb i risgau newydd i'w weld yn y gwaith a wnaed i gefnogi polisiau'r llywodraeth fel y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau a'r Bil Bridio Manwl yn ystod y flwyddyn adrodd. Bu

cefnogaeth gref i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd wrth iddynt adfer ar ôl effaith y pandemig, ac wrth i'r Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol ddod i ben.

Rwy'n croesawu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar ddiwygio rheoleiddiol. Wrth i'r system fwyd addasu i ddatblygiadau mewn technoleg, modelau busnes newydd a newidiadau mewn arferion defnyddwyr, rhaid i ddulliau'r ASB ac awdurdodau lleol o reoleiddio busnesau newid. Mae Bwrdd yr ASB wedi nodi'n glir bod angen diwygio er mwyn creu system reoleiddio fodern sy'n wydn yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r angen am adnoddau ychwanegol i gefnogi hyn.

Mae'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn enghraifft wych o'r diwygiadau sy'n mynd rhagddynt i ddatblygu set o ddulliau rheoleiddio craffach sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sy'n ei gwneud yn haws i fusnesau wneud y peth iawn a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf. Rwyf hefyd yn croesawu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sy'n ein galluogi i wneud cynnydd da o ran datblygu'r model safonau bwyd newydd. Nod hyn yw gwneud y system yn fwy effeithiol o ran defnyddio data a gwybodaeth i nodi a thargedu busnesau nad ydynt yn cydymffurfio, a galluogi awdurdodau lleol i dargedu eu hadnoddau'n well i wella cydymffurfiaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig yr ydym yn gyfrifol amdano bellach ers ymadael â'r UE yn parhau i awdurdodi cynhyrchion sy'n dod i'r farchnad, ond mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen trawsnewid y gwasanaeth er mwyn gwella arloesedd. Gellir gwneud rhywfaint o hyn drwy adolygu Cyfraith yr UE a ddargedewir, ond bydd newid mwy sylfaenol yn cymryd amser a bydd angen creu deddfwriaeth newydd i ategu'r newid.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi hyder ym mherfformiad yr ASB, nid yn unig o ran ei hymateb i rai materion heriol yn ystod y flwyddyn, ond hefyd o ran ei hymrwymiad i gyflawni diwygiadau hanfodol. Ar yr un pryd, rwy'n falch iawn bod yr ASB yn parhau i gyflawni ein strategaeth o sicrhau bwyd y gall defnyddwyr ymddiried ynddo drwy wneud y gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda.


A handwritten signature in black ink that reads "Susan Jebb".

Yr Athro Susan Jebb

Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

4 Adroddiad perfformiad

Adroddiad perfformiad



Trosolwg o berfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn egluro rôl a diben yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae hefyd yn trafod amcanion yr ASB, ei strwythur sefydliadol, ei pherfformiad ac effaith risgiau allweddol a'r modd o'u rheoli.

Dadansoddiad perfformiad

Gair am yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn 2000, yn dilyn sawl achos amlwg iawn o glefydau a gludir gan fwyd. Amcan statudol yr ASB, a sefydlwyd fel adran annibynnol o'r llywodraeth, yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae ein gwaith ni, a gwaith Safonau Bwyd yr Alban (FSS), hefyd yn cefnogi economi'r DU drwy leihau baich economaidd clefydau a gludir gan fwyd a sicrhau bod gan fwyd y DU enw da am ddiogelwch a diliysrwydd yn y DU a thramor.

Ein cenhadaeth yw 'bwyd y gallwch ymddiried ynddo'. Mae ein [strategaeth ar gyfer 2022–2027](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r genhadaeth honno.

Beth yw trefn y sefydliad?

Gwaith yr ASB, fel y'i nodir yn [Neddf Safonau Bwyd 1999](#), yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.


Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o lunio polisi bwyd wedi'i ddatganoli, ac rydym yn cynnal perthynas waith gref â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rydym yn gweithredu'n annibynnol ar weinidogion ym mhob gweinyddiaeth, ac rydym yn cael ein llywodraethu gan fwrdd annibynnol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag FSS; corff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am bolisi bwyd ac am weithredu polisi bwyd yn yr Alban. Rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried gwahanol amgylchiadau neu ddata sy'n benodol i bob cenedl yn y dulliau a ddefnyddiwn a'r cyngor a roddwn.

Mae cyfanswm o 1,571 o bobl (ar 31 Mawrth 2023) yn gweithio i'r ASB ar draws y tair gwlad. Maent yn cynnwys dadansoddwyr, ymchwilwyr, arolygwyr, arbenigwyr gorfodi, gweithwyr polisi proffesiynol, milfeddygon a staff rheng flaen, sy'n gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid cyflawni gweithrediadau i arolygu lladd-dai a safleoedd cynhyrchu cynradd eraill, gan sicrhau bod ein bwyd yn ddiogel.

Mae'r holl graffiau a'r data yn yr adroddiad perfformiad yn cynrychioli maes cyfrifoldeb gyfan yr ASB, gan ddefnyddio dull cyfunol, oni nodir yn wahanol.

Cenhadaeth, gweledigaeth, blaenoriaethau strategol a perfformiad

Er mwyn diffinio llwyddiant, pennodd yr ASB genhadaeth, a rennir rhwng ein gweledigaeth (sy'n cynnwys tri nod), ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2022/23, ein hamcanion a'n cyflawniadau.





Ein cenhadaeth yw **bwyd y gallwch ymddiried ynnydo**

Mae'r genhadaeth hon wedi bod yn asgwrn cefn i'n gwaith ers blynnyddoedd maith, ac mae'n ganolog i'n [Strategaeth ar gyfer 2022/27](#). Wrth i'r system fwyd esblygu'n gyson, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein strategaeth i gyflawni'r genhadaeth hon yn esblygu gyda hi.

Mae cyfrifoldebau'r ASB wedi cynyddu ers i'r DU ymadael â'r UE. Mae technolegau newydd, modelau busnes ac arferion newidiol defnyddwyr yn golygu bod yr ASB wedi gorfol addasu ei dull o gyflawni ei rhwymedigaethau statudol a'i chenhadaeth. Mae cynnydd wedi bod hefyd ym mhryderon y cyhoedd mewn perthynas ag iechyd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd bwyd.

Wrth sôn am fwyd y gallwch ymddiried ynnydo, rydym yn golygu system fwyd lle mae'r canlynol yn wir:



Mae bwyd yn ddiogel – Mae bwyd yn hanfodol i bawb, bob dydd. Mae gan bob un ohonom yr hawl i ddisgwyl na fydd y bwyd rydym yn ei fwyta yn ein gwneud yn sâl. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn blaenoriaethu cadw lefel clefydau a gludir gan fwyd yn isel. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd i osod safonau i helpu'r diwydiant i gynhyrchu bwyd diogel; trwy ein gwaith arolygu uniongyrchol yn y diwydiannau cig, llaeth a gwin, ein rhagleni gwyliadwriaeth ac ataliol a'n gwaith ar y cyd ag awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau o fusnesau bwyd.



Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label – Dylai defnyddwyr fod yn hyderus bod eu bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Dyna pam y byddwn yn sicrhau bod bwyd yn ddilys ac wedi'i ddisgrifio'n gywir. Yn ogystal, i ddefnyddwyr â Gorsensitifrwydd i fwyd, mae labelu cywir yn cael effaith fawr ar iechyd.



Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy – Mae iechyd a chynaliadwyedd yn flaenoriaethau cynyddol i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ac i'r defnyddwyr rydym yn diogelu eu buddiannau. Mae cyfraniad y system fwyd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae angen i ni chwarae ein rhan wrth gefnogi partneriaid yn y llywodraeth ac eraill yn y system fwyd ehangach i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr gael mynediad at ddeiet iachach a mwy cynaliadwy.

Ein blaenoriaethau strategol

Er mwyn parhau i ddarparu bwyd y gallwch ymddiried ynnydo yn 2022/23, gwnaethom osod tair blaenoriaeth strategol.

Gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

Datblygu'r system rheoleiddio bwyd

Datblygu ein galluogrwydd a'n gallu ein hunain

O fewn y blaenoriaethau strategol hyn, gwnaethom nodi wyth amcan. Rydym wedi monitro ein cynnydd trwy gydol y flwyddyn i benderfynu a ydym wedi cyflawni yn erbyn yr amcanion a osodwyd ar gyfer 2022/23, ac mae crynodeb lefel uchel wedi'i ddarparu isod.

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion

Allwedd statws:

C Wedi cyflawni.

GA Gwaith wedi'i ailflaenoriaethu; wedi cyflawni gwaith newydd y cytunwyd arno.

Rh Wedi cyflawni'n rhannol (heb gyflawni rhai elfennau).

H Heb gyflawni.

Gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

1

Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio i safon uchel yn y diwydiannau cig, llaeth a gwin, a swyddogaethau gweithredol eraill, i ddiogelu defnyddwyr rhag digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a throseddoldeb.

Rh

2

Gosod y safonau ar gyfer dull rheoleiddio modern, effeithlon ac effeithiol, a **chefnogi awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau ieichyd porthladdoedd**, i sicrhau darpariaeth yn erbyn y safonau hynny.

GA

3

Adeiladu a gwella ein gallu ym meysydd gwyddoniaeth, tystiolaeth a **gwyliadwriaeth** er mwyn mynd i'r afael â'r risgau a'r heriau presennol sy'n wynebu defnyddwyr a nodi'r rheiny sy'n dod i'r amlwg yn y tymor canolig-hir.

C

4

Gweithio gyda llywodraethau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r DU, Safonau Bwyd yr Alban a Llywodraeth yr Alban, partneriaid rheoleiddiol a rhyngwladol i sicrhau bod trefniadau rheoleiddio'r DU yn parhau i ddarparu amddiffyniad cryf i ddefnyddwy, wrth iddynt esblygu wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Rh

Datblygu'r system rheoleiddio bwyd

5

Cyflwyno proses dadansoddi risg effeithlon, effeithiol a blaengar, dysgu gwersi o'r flwyddyn gyntaf o weithredu, cyflawni gwelliannau tymor byr, a sefydlu rhaglen waith i ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau rheoleiddio yn y dyfodol.

C

6

Mae ein rhaglen **Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnes (ABC)** yn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael bwyd y gallant ymddiried ynddo. Mewn sector bwyd sy'n newid yn gyflym, mae'n rhaid i ni fod yn graffach wrth reoleiddio, a hynny er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

C

7

Nod ein **rhaglen Trawsnewid Gweithredol*** yw moderneiddio'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol ar gyfer cig, llaeth a gwin er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a hynny wrth gynnal lefelau diogelwch bwyd, ieichyd a lles anifeiliaid, a hyder defnyddwyr.

GA

Datblygu ein galluogrwydd a'n gallu ein hunain

8

Datblygu galluogrwydd, systemau a phrosesau'r ASB i gyflawni ein strategaeth newydd.

GA

* Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn penderfyniad yr ASB i newid y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol (OTP) i Dîm Moderneiddio Gweithrediadau, cyfunodd rhan o'r OTP flaenorol â'r Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (ABC). Fel y cyfryw, diweddarwyd cwmpas y Rhaglen ABC i gymryd cyfrifoldeb am ddiwygio trawsnewidiol yn y tymor hwy ar gyfer Rheolaethau Swyddogol yn y sectorau cig, gwin a llaeth.

Ein blwyddyn mewn rhifau

A oedd gan y cyhoedd fwyd y gallant ymddiried yn ddiwrnod?

Un cyfranogwr yn unig yw'r ASB mewn system fwyd gymhleth, lle mae llawer o gyrrff yn gyfrifol am sicrhau 'bwyd y gallt ymddiried yn ddiwrnod', gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fusnesau, awdurdodau lleol a'r cyhoedd. Gall fod yn anodd dirnad effaith gwaith yr ASB ar y system fwyd ymhlieth y newidiadau ehangach yn y diwydiant bwyd a pherthynas esblygol pobl â'r bwyd y maen nhw'n ei fwyta. Ar ben hynny, bydd yn cymryd amser i ddeall canlyniadau llawer o'n gwaith moderneiddio yn llawn. Er gwaethaf hynny, mae rhai elfennau mesuradwy y gallwn eu monitro i bennu a yw'r ASB wedi cyflawni ei chenhadaeth.

Clefydau a gludir gan fwyd:

Nifer yr achosion a gadarnhawyd gan labordai yn y DU fesul 100,000 o'r boblogaeth¹

98.6

Campylobacter

14.2

Salmonela

1.8

E. coli sy'n
cynhyrchu shigatocsin
monocytogenes

0.3

Listeria
monocytogenes

Newidiadau ers 2021:

-2.9

+5.4²

+0.9

+0.0

Hyder yn yr ASB

Mae **91%** o'r ymatebwyr wedi clywed am yr ASB ar 31 Mawrth 2023 (90% ar 31 Mawrth 2022). O'r rhai sydd â rhywfaint o wybodaeth am yr ASB, mae **75%** yn ymddiried yn yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label (dim newid ers 31 Mawrth 2022)



Cynhyrchion rheoleiddiedig



Cyflwynwyd **438** o geisiadau i'n gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig (sy'n uwch na'r 310 o geisiadau ar 31 Mawrth 2022). Roedd hefyd wedi cwblhau **34** o geisiadau ar 31 Mawrth 2023.

Gweithgareddau samplu'r ASB

Profwyd **11,868** o samplau, yr oedd **673** ohonynt wedi methu â chydymffurfio (mae'r ardaloedd samplu'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly nid yw'n bosib cymharu'n uniongyrchol â 2022).



¹ Mae'r graffig yn cyflwyno'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o achosion a gadarnhawyd gan labordai yn y DU yn 2022 o bob ffynhonnell, nid yn unig o drosglwyddiadau a gludir gan fwyd. I gael mwy o wybodaeth, gweler Amcan 3.

² Er bod Salmonela wedi cynyddu ers y llynedd, mae cyfraddau'n dal i fod yn unol â'r lefelau cyn COVID-19 a chyfraddau tymor hwy.

Ymchwil a thystiolaeth



Roedd **£20.6 miliwn** neu **13.9%** o wariant yr ASB ar wyddoniaeth, tystiolaeth ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi risg, cyflawni ein rhagleni ymchwil, dadansoddi i gefnogi rhagleni newid, sicrwydd gwyddoniaeth a gwyliadwriaeth, a galluogrwydd cenedlaethol (wedi codi o £16.6m neu 12.7% o wariant yr ASB yn 2021/22).

Cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd cig

Sgoriodd **98.7%** o weithredwyr busnesau bwyd cig ganlyniadau archwilio da neu foddaol ar y cyfan ar 31 Mawrth 2023 (ychydig yn is na'r 98.9% a gafodd sgôr dda neu foddaol ar y cyfan ar 31 Mawrth 2022).



Cwblhawyd **97%** o archwiliadau cig llawn yn Ch4 2022/23 (wedi cynyddu o 82% yn Ch4 2021/22).

Perfformiad awdurdodau lleol

Ymyriadau a gynhalwyd yn y sefydliadau risg uchaf ar gyfer hylendid bwyd ym mis Ebrill 2023:



Cyflawnwyd 99.5% o ymyriadau mewn sefydliadau categori A.



Cyflawnwyd 99.0% o ymyriadau mewn sefydliadau categori B.

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)



Llwyddodd **96.9%** o fusnesau i gael sgôr o 3 neu well ar 31 Mawrth 2023 (dim newid ers 31 Mawrth 2022).

Troseddau bwyd

Cyflawnwyd 85 o darfiadau (wedi cynyddu o 67 yn 2021/22 – mae tarfiadau'n cofnodi'r effaith y mae'r Uned yn ei chael mewn perthynas â mynd i'r afael â gweithgarwch troseddol a thwylodrus, fel gweithredu gwarant chwilio).



Digwyddiadau bwyd



Ymchwiliwyd i **2,038**, o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogiad amgylcheddol (gostyngiad o 2,336 yn 2021/22).

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

Sgôr ymgysylltu o 69% ar arolwg pobl y gwasanaeth sifil (wedi cynyddu o 68% yn arolwg 2021). Mae ymgysylltu'n mesur ymrwymiad gweithwyr i nodau a gwerthoedd sefydliadol, a chymhelliant i gyfrannu at lwyddiant sefydliadol.



Gweithgareddau a pherfformiad 2022/23

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cynnydd wrth geisio cyflawni ein hamcanion yn ystod 2022/23.

Gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

Beth yw ystyr 'gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd'?

Mae'r cyfrifoldebau sydd gan yr ASB yn cynnwys archwilio ac arolygu yn y diwydiannau cig, llaeth a gwin, diogelu defnyddwyr rhag troseddau bwyd, a gosod safonau ar gyfer rheoleiddio bwyd, gan gynnwys wrth allforio a mewnforio. Rydym yn gweithio ar draws tair gwlad – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – ac rydym yn gweithio'n agos gyda Safonau Bwyd yr Alban i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'r busnesau rydym yn gweithio gyda nhw a'r defnyddwyr rydym yn eu diogelu.

Dyma'r amcanion y byddwn yn canolbwytio arnynt yn yr adran hon:

1

Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio i ddiogelu defnyddwyr rhag digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a throseddoldeb.

2

Gosod y safonau ar gyfer dull rheoleiddio modern, effeithlon ac effeithiol, a chefnogi awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd.

3

Adeiladu a gwella ein gallu ym meysydd gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwyliadwriaeth.

4

Gweithio ar draws y DU a chyda rhanddeiliaid rhyngwladol i sicrhau bod trefniadau rheoleiddio'r DU yn parhau i ddarparu amddiffyniad cryf i ddefnyddwyr wrth iddynt esblygu wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

1

Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio

Cyflwyniad

Mae'r ASB yn uniongyrchol gyfrifol am arolygu, archwilio a sicrhau busnesau sy'n cynhyrchu cig, gwin a chynnyrch llaeth yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cynnal rheolaethau swyddogol mewn lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela, ac rydym yn archwilio ac yn arolygu ffatrioedd torri cig, cynhyrchwyr gwin a sefydliadau cynhyrchu llaeth ar ffermydd. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal rheolaethau swyddogol o ran diogelwch bwyd mewn sefydliadau cig ffres cymeradwy (er enghraift, lladd-dai a ffatrioedd torri) ac mewn perthynas â hylendid cynhyrchu llaeth, wyau a chynhyrchu cynradd ar ran yr ASB. Mae'r ASB yn cynnal rheolaethau ar bysgod cregyn ar y cyd ag awdurdodau lleol. Mae rheoleiddio'r meysydd hyn yn effeithiol yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau.

Mae Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig yn cynnal arolygiadau i sicrhau bod busnesau yn y diwydiant cig yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid er mwyn diogelu defnyddwyr a chefnogi masnach ryngwladol. Mae Archwiliwyr Allforio yn rhoi sicrwydd i drydydd gwledydd fod busnesau sy'n ymwneud ag allforio iddynt yn bodloni eu gofynion a'u safonau. Mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn gweithio i fynd i'r afael â thwyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwya'i cyflenwi bwyd. Mae gwaith yr NFCU yn hanfodol i helpu i ddiogelu defnyddwyr ac enw da allforion y DU, ac i helpu i leihau baich troseddau bwyd ar economi'r DU.

Rydym yn gweithredu uned ymateb i ddigwyddiadau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd ar agor drwy'r dydd, bob dydd, ac sy'n ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â bwyd a/neu fwyd anifeiliaid, a halogiad amgylcheddol.

Y pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

A

Cyflawni ein cyfrifoldebau dros Reolaethau Swyddogol – Sicrhau bod digon o'n staff gweithredol wedi'u gwasgaru'n effeithiol er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio o fewn y diwydiannau cig, llaeth a gwin, ac ymateb i ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol.

B

Adnoddau Milfeddygol Swyddogol – Ymrwymo i gyflogi hyd at 25% o Milfeddygon Swyddogol erbyn diwedd y contract presennol â'n partner darparu gwasanaethau.

C

Ymgysylltu â staff gweithrediadau – Cefnogi gwydnwch ac ysbyrd yr holl staff Gweithrediadau, a datblygu diwylliant o ddysgu a datblygu i gefnogi, datblygu a darparu gwydnwch strategol.

D

Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a throseddoldeb – Sicrhau bod gennym y gallu a'r galluogrwydd i ganfod, ymateb i ac atal digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, a mynd i'r afael â throseddau bwyd.

E

Gwell adroddiadau ar ddata a pherfformiad – Datblygu gwell adroddiadau ar ddata a pherfformiad gan danategu ein gwybodaeth reoli er mwyn gallu mynd ati'n well i ddarparu gwasanaethau/gwasgaru staff/sicrhau bod adnoddau digonol.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goresgyn

A

Cyflawni ein cyfrifoldebau dros Reolaethau Swyddogol


Cydymffuriaeth gweithredwyr busnesau bwyd cig

Gwnaeth y tîm Archwilio Milfeddygol gwblhau 631 o archwiliadau llawn a 284 o archwiliadau rhannol mewn sefydliadau cig a gymeradwywyd gan yr ASB yn ystod 2022/23; cynnydd o gymharu â 2021/22 pan wnaed 576 o archwiliadau llawn a 265 o archwiliadau rhannol. O'r rhain, roedd 13 o blaid y tîm archwilio allforion trydydd gwledydd. Roedd hyn yn unol â'r ffigurau cyn COVID-19 a'r ffaith bod ein targedau'n cael eu bodloni'n gyson.



Ein targed yw cwblhau 90% o'r archwiliadau llawn sy'n ofynnol ym mhob chwarter. Roedd hyn yn heriol, tan Ch2 2022/23, oherwydd yr ôl-groniad a gynhyrchwyd gan bandemig COVID-19. Ers hynny, mae'r tîm wedi cyflawni a rhagori'n gyson ar y targed o 90%, gan gyrraedd 97% yn Ch4, y sgôr uchaf erioed.


Ffigur 1: Cwblhau archwiliad llawn yn erbyn ein targedau chwarterol ar gyfer Cymru a Lloegr




Llenwyd holl swyddi gwag y tîm archwilio milfeddygol yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus. Roedd y tîm yn gweithredu ar gapasiti o 80% am y rhan fwyaf o 2022/23 ac yn dal i lwyddo i gyflawni'r canlynol:

- Darparu cymorth ar gyfer ymweliadau'r timau archwilio trydydd gwledydd.
- Cymryd rhan weithredol ym mhortffolios technegol yr ASB i gydlynu a gweithredu rheolaethau ar y briodiad o achosion mwyaf erioed o Ffliw Adar.
- Paratoi ar gyfer ymateb yr ASB i frigiad o achosion posib o Glwy Africanaidd y Moch.

Ffigur 2: Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yn ôl sgôr cydymffurfio yn y tair gwlad (da a boddhaol ar y cyfan)



Ffigur 3: Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yn ôl sgôr cydymffurfio yn y tair gwlad (angen gwella ac angen gwella ar frys)



Roedd y cynnydd bach yng nghanran y busnesau â chanlyniadau archwilio **da** yn uniongyrchol gymaradwy â'r gostyngiad bach yng nghanran y rhai â chanlyniadau **boddhaol ar y cyfan**. Gwnaeth nifer y sefydliadau â sgoriau **angen gwella** ac **angen gwella ar frys** aros rhwng 10 ac 20 (yn fras, 1-2% o'r safleoedd a gymeradwyir gan yr ASB), gyda thuueddiad graddol ar i lawr ers 2019. Canlyniadau archwilio yw un o'r ffactorau allweddol a ddefnyddir i asesu perfformiad gweithredwyr busnesau bwyd.

Rhoddodd yr ASB flaenoriaeth i sefydliadau a oedd yn perfformio'n wael ac a oedd yn peri risg uwch, a gwnaethom flaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny. Arweiniodd y cynnydd parhaus mewn canlyniadau archwilio da at lai o ymwelliadau archwilio yn y sefydliadau hynny.

Lles anifeiliaid

Gwnaeth y tîm Lles Anifeiliaid barhau i gefnogi Gweithrediadau'r ASB gyda chamau cyflawni a gorfodi yn ogystal â chysylltu â Defra a Llywodraeth Cymru ynghylch gweithgareddau polisi.

Roedd yr uchafbwyntiau penodol yn cynnwys:

- **Cwblhau a chyflwyno'r arolwg sector llad anifeiliaid adnewyddedig.** Canolbwytiodd yr arolwg ar drwybwn, dulliau lladd (drwy stynio a heb stynio), cynhyrchu da byw, a dosbarthu cynnyrch fel cyflenwadau domestig ac allforion. Mae'r arolwg yn cefnogi datblygiad strategaethau a pholisiau ehangach y llywodraeth. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y bu gostyngiad cyffredinol bach yn y lefelau lladd heb stynio ers yr arolwg blaenorol yn 2018. Mae'r arolwg yn symud i gylch chwe-misol, gyda'r arolwg nesaf yn cael ei gynnwl yn ystod gwanwyn 2024.
- **Gweithredu storfa ddigidol newydd** ar gyfer storio dystiolaeth gorfodi. Gwnaeth hyn hwyluso trosglwyddiadau data gwell rhwng asiantaethau'r llywodraeth gan ddefnyddio storfeydd diogel a rennir, gan sicrhau bod awdurdodau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am orfodi'n gallu cael mynediad at dystiolaeth yn ddi-oed.
- **Gwelliannau i ganllawiau technegol a hyfforddiant,** i wella'n barhaus yr hyn a wnawn, sut yr ydym yn ei wneud ac i ddarparu cyngor i weithredwyr lladd-dai a'u cynrychiolwyr.
- **Llywodraethu a rheoli'r cynllun gweithredu lles anifeiliaid traws-asiantaethol** a oedd, gyda mewnbwn asiantaethau eraill o'r llywodraeth, yn gwerthuso effeithiolrwydd mesurau a luniwyd i wella safonau lles anifeiliaid, gan sicrhau bod gweithgareddau'r ASB yn cyd-fynd â rhagleni lles anifeiliaid strategol eraill y llywodraeth.

Gwelwyd gostyngiad o 6% ers 2021/22 yn nifer cyfunedig yr achosion o ddiffyg cydymffurfio o ran lles anifeiliaid ar ffermydd, wrth eu cludo ac adeg eu lladd, gan ddangos gwelliannau i'r safonau cydymffurfio o ran lles anifeiliaid.

B Adnoddau Milfeddygol Swyddogol


Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaeth adolygiad gan y Cyfarwyddwr Pobl ac Adnoddau a Gweithrediadau'r ASB argymhell y dylai'r ASB oedi ei phrosiect i gyflogi rhai Milfeddygon Swyddogol yn uniongyrchol i gynnal Rheolaethau Swyddogol mewn lladd-dai. Er bod cyflogi Milfeddygon Swyddogol yn uniongyrchol yn parhau i fod yn uchelgais, cytunwyd bod yr hinsawdd economaidd yn gwneud hyn yn anfforddiadwy ar hyn o bryd.

C Ymgysylltu â staff gweithrediadau

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a ddaeth i'r amlwg yn arolwg diwylliant 2021, aeth y gyfarwyddiaeth Gweithrediadau ati i gynyddu digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb rhanbarthol, gwneud gwell defnydd o gyfathrebu mewnol a'r cyfryngau cymdeithasol, a datblygu gweledigaeth newydd sy'n cyd-fynd â strategaeth 5 mlynedd yr ASB. Yn yr arolwg, nodwyd bod llawer o staff rheng flaen yn y gyfarwyddiaeth Gweithrediadau wedi mynegi anfodlonrwydd lleol penodol. O ganlyniad, yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022, cyflawnodd cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r ASB sgôr ymgysylltu gyffredinol o 62% yn 2022, sef cynnydd o 1% o gymharu â 2021. Cyflawnwyd hyn mewn blwyddyn heriol i'n pobl yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig. Yn wir, roedd hyn yn mynd yn groes i dueddiadau

ehangach y Gwasanaeth Sifil a'r ASB ac roedd yn ffactor allweddol a gyfrannodd at y cynnydd o 1% yn sgôr ymgysylltu gyffredinol yr ASB.

Ffigur 4: Canlyniadau Gweithrediadau'r ASB yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022*




D

Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a throseddoldeb

Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid


Mae'r ASB yn cael hysbysiadau am ddigwyddiadau bwyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd, sefydliadau'r llywodraeth, y diwydiant, gweithgarwch gwyliadwriaeth ryngwladol a defnyddwyr. Mae tîm Digwyddiadau'r ASB yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, diogelwch, alergenau, labelu a, phan fo'n berthnasol, drosedd a diogelwch cenedlaethol.

Ffigur 5: Yr hysbysiadau am ddigwyddiadau a ddaeth i law'r ASB hyd at 31 Mawrth 2023



Roedd cyfanswm o 2,038 o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid ac achosion o halogi amgylcheddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y bu'r ASB yn ymchwilio iddynt yn ystod 2022/23, sef gostyngiad o 13% o gymharu â 2021/22. Yn 2022/23, roedd nifer o frigiadau o achosion sylweddol a digwyddiadau cymhleth, gan gynnwys yr ymateb i'r gwrthdar o Wcráin, a barodd nifer o fisoeedd ac a gymerodd adnoddau sylweddol ar draws yr ASB. Yn wir, bu'n rhaid i'n staff gydwethio i ddatrys yr achosion hyn, gan ychwanegu at raddfa a hirhoedledd y cyfanswm.

Ffurig 6: Nifer y rhybuddion bwyd a gyhoeddwyd gan yr ASB hyd at 31 Mawrth 2023



Cyhoeddwyd 143 o rybuddion (gostyngiad o 5% o 150 yn 2021/22). Roedd hyn yn cynnwys 82 Rhybudd Alergedd, 61 Hysbysiad Galw Cynnrych yn Ôl a 0 Rhybudd Bwyd er Gweithredu.

Mae nifer yr hysbysiadau am ddigwyddiadau a dderbyniwyd a'r rhybuddion a gyhoeddwyd yn fesur o faint o ddigwyddiadau y mae'r ASB wedi cael gwybod amdanynt ac nid ydynt o reidrwydd yn arwydd o newid ym mhroffil diogelwch bwyd y DU.

Mae'r tîm Derbyn a Rheoli (RAM) yn monitro signalau am dystiolaeth o risgau sy'n effeithio ar y DU, gyda'r nod cyffredinol o ganfod ac atal digwyddiadau. Mae "signalau" yn cael eu prosesu'n ddyddiol i wirio am faterion a allai effeithio ar y DU. Yn ystod 2022/23, prosesodd swyddogaeth y tîm RAM **11,421** o signalau. O ganlyniad i hyn, cychwynnodd yr ASB:


- **38** o atgyfeiriadau ar gyfer digwyddiadau/cynhyrchion newydd
- **104** o atgyfeiriadau i awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill ymchwilio iddynt
- **841** o signalau a gafodd eu hatgyfeirio hefyd er gwybodaeth
- **12** o signalau parhaus lle mae dystiolaeth o risg yn dod i'r amlwg

Achosion allweddol o ddigwyddiadau bwyd yn ystod 2022/23

Mae perygl bwyd yn rhywbeth a allai wneud bwyd yn annigol neu'n anaddas i'w fwyt. Mae tri phrif fath o beryglon diogelwch bwyd:



Dyma oedd y mathau mwyaf cyffredin o beryglon yn ymwneud â digwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt:



Mae'r ASB hefyd yn casglu data ar ffynhonnell digwyddiadau bwyd, a dyma beth oedd y ffynonellau hyn:



Halogiad
microbiolegol



Gwallau ar labeli bwyd a
deunydd pecynnau



Cynhwysion
anawdurdodedig

Micro-organebau pathogenig oedd y math mwyaf cyffredin o berygl gyda nifer fawr o achosion o Ffliw Adar yn 2022/23. Gwnaethom ddefnyddio Dilyniannu Genomig Cyfan, gan weithio ar y cyd ag Asiantaeth Diogelwch lechyd y DU i sicrhau mwy o hygyrchedd data i wneud yn siŵr ein bod yn blaenoriaethu gwaith mewn ffordd sy'n diogelu defnyddwyr i'r eithaf.

Digwyddiadau alergenau

Mae'r ASB yn gyfrifol am labelu alergenau a darparu canllawiau i ddefnyddwyr sydd â Gorsensitifrydd i fwyd (sy'n cynnwys alergedd bwyd, clefyd seliag, ac anoddefiad bwyd), ac rydym yn gweithio'n agos gyda busnesau bwyd i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, pan ddarganfyddir problem gydag alergenau heb eu datgan neu wedi'u labelu'n anghywir, cyhoeddir rhybudd brys. Cyhoeddodd yr ASB 82 o rybuddion i hysbysu defnyddwyr ynghylch risgiau o ran alergenau.

Troseddau bwyd


Mae gwaith yr NFCU yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ymddiried bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, sef un o amcanion yr ASB. Mae'n gwneud hyn trwy nodi achosion o dwyll bwyd difrifol, a thrwy ymchwilio i'r achosion hyn, tarfu arnynt a'u hatal. Mae gan yr NFCU bedwar cwestiwn perfformiad allweddol, a osodir gan Fwrdd yr ASB. Isod ceir manylion am y cynnydd sylweddol a wnaethom yn 2022/23 yn erbyn y cwestiynau perfformiad hyn.



Pa mor gynhwysfawr yw dealltwriaeth yr NFCU o'r bygythiad a gyflwynir gan droseddau bwyd?

Mae'r NFCU yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o bartneriaid ac yn gosod ei blaenoriaethau ar gyfer casglu gwybodaeth mewn [Strategaeth Reoli](#), wedi'i llywio gan [Asesiad Strategol Troseddau Bwyd](#). Yn ystod 2022/23, gwnaethom adnewyddu ein Strategaeth Reoli, yn dilyn adolygiad ar sail cudd-wybodaeth. Gwnaeth hyn ein galluogi ni i wybod ble i hoelio'n sylw yn ein gwaith yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o'r dirwedd troseddau bwyd, yn dilyn saib yn yr Asesiad Strategol.

Ffigur 7: Adroddiadau ar sail gwylbodaeth a gafwyd am droseddau bwyd yn ôl blaenoriaethau Strategaeth Reoli 2022/23



Cofnodwyd 1,518 o adroddiadau (-68 ers 2021/22)

yr oeddent yn cynnwys:

39%

Cig coch (porc/cig eidion/cig oen/cymysg)

9%

Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

7%

Bwydydd peryglus

5%

Pysgod cregyn

40%

Y tu allan i Strategaeth Reoli'r NFCU

Rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus o fygythiadau troseddau bwyd trwy gynnal ein hymwybyddiaeth o'r risgau presennol a nodwyd ar yr un pryd â bod yn effro i fygythiadau troseddau bwyd sy'n dod i'r amlwg. Yn 2022/23, roedd 60% o'r wybodaeth a gofnodwyd yn dod o dan o leiaf un flaenoriaeth yn y Strategaeth Reoli, gan ddangos bod y blaenoriaethau yn ein gweithgarwch casglu gwylbodaeth yn briodol. Gwnaeth yr ASB hefyd weithio gyda phartneriaid academaidd allanol i fesur effeithiau economaidd troseddau bwyd yn well.



Pa mor effeithiol yw ymateb yr NFCU i'r bygythiad a gyflwynir gan droseddau bwyd?

Rydym yn defnyddio'r dull gweithredu '4P' fel y mae'n cael ei alw yn Saesneg, sef Erlid (Pursue), Diogelu (Protect), Paratoi (Prepare) ac Atal (Prevent). Mae hwn yn ddull sefydledig yn y DU ar gyfer gorfodi'r gyfraith, ac fe'i defnyddir i gynllunio a chyflawni canlyniadau gweithredol. O fewn y llinyn Erlid, rydym yn cynnal ymchwiliadau gyda'r nod o adeiladu achosion tuag at ganlyniadau cyflawni troseddol. Yn sgil ymchwiliadau i dwyll a throseddau bwyd difrifol a gynhaliwyd yn 2022/23, cyflwynwyd pedair ffeil droseddol gymhleth. Mae tair ffeil wedi arwain at osod cyhuddiadau troseddol ac mae tri achos gwahanol yn aros am wrandawiad. Rhagwelir y bydd y bedwaredd ffeil yn arwain at godi taliadau ychwanegol.

Ffigur 8: Y '4P'



Paratoi – sicrhau bod y gal-luoedd angenrheidiol ar gael i fynd i'r afael â throseddau bwyd



Diogelu – lleihau pa mor agored yw busnesau a defnyddwyr i fygythiadau o ran troseddau bwyd



Erlid – erlyn troseddwyr ac atafaelu elw troseddau bwyd




Atal – atal unigolion/busnesau rhag cyflawni troseddau bwyd

Mae ‘Tarfiaidau’ a ‘Chanlyniadau’ yn cofnodi’r effaith a gawn mewn perthynas â mynd i’r afael â gweithgarwch troseddol a thwylodrus. Cyflawnir ‘tarfiaidau’ pan fyddwn wedi cael effaith uniongyrchol ar droseddau bwyd. Rydym yn cofrestru’r rhain gyda’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac mae’n rhaid i’r effaith a gânt fodloni lefel benodol. Enghraifft o darfu fyddai gweithredu gwarant chwilio. Cofnodir ‘canlyniadau’ pan fydd effaith anuniongyrchol ar droseddau bwyd. Er enghraifft, pan fyddwn yn cyhoeddi cyfathrebiadau strategol i awdurdodau lleol a’r diwydiant er mwyn iddynt ymateb i fygithiad o ran troseddau bwyd.

Rydym wedi ceisio canolbwytio fwyfwy ar ddarparu ymyriadau aflonyddgar, sy’n cael effaith fawr. Mae gweithredu fel hyn wedi cyfrannu at gynnydd mewn tarfiaidau yn ystod 2022/23, fel y gwelir yn Ffigur 9.

Ffigur 9: Tarfiaidau gan yr NFCU a chanlyniadau cenedlaethol a gyflawnwyd yn ôl y flwyddyn ariannol



Yn ogystal â chyflawni tarfiaidau, buom yn gweithio i gynyddu gwydnwch busnesau a defnyddwyr i fygithiadau oherwydd troseddau bwyd. Cwblhawyd ein Hadnodd Hunanasesu Gwydnwch yn erbyn Twyll Bwyd dros 500 o weithiau, gan roi canllawiau a chymorth i fusnesau bwyd ar dwyll bwyd.



Pa mor effeithiol yw'r NFCU o ran gweithio gyda phartneriaid?

Mae erlyniadau a tharfiaidau eraill yn aml yn digwydd o ganlyniad i ddull aml-asiantaeth, gan weithio gydag awdurdodau lleol ac amrediad o bartneriaid gorfodi’r gyfraith. Yn 2022/23, gwnaeth yr NFCU arwain neu gefnogi dros 50 o llynynnau newydd o weithgarwch gorfodi.



Er enghraifft, gwnaeth yr NFCU gynorthwyo Cyngor Dosbarth Chichester wrth iddo fynd i’r afael ag achosion o gynaeafu pysgod cregyn o welyau a oedd wedi’u dosbarthu’n anniogel i’w bwyta gan bobl. O ganlyniad, atafaelwyd a dinistriwyd cynhyrchion a gynaeafwyd yn anghyreithlon, gan gosbi’r busnesau a aeth ati’n anghyreithlon i gael y cynhyrchion hyn. Cafodd yr ymyriad effaith ataliol ar droseddu yn yr ardal.

Mae’r ASB wedi parhau’n rhan o’r gymuned ryngwladol sy’n gweithredu o dan Ymgyrch OPSON. Mae hyn yn mynd i’r afael â gwerthu cynhyrchion bwyd a diod ffug, o safon isel. Yn 2022, o dan OPSON XI, gwnaeth yr ASB ac FSS gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gwblhau cyfanswm o dros 400 o wiriadau ledled y DU. Nododd y gwiriadau hyn nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen i’r awdurdodau lleol weithredu arnynt.

22 Adroddiad perfformiad

Rydym hefyd wedi gweithio i wella galluoedd partneriaid trwy'r berthynas barhaus â Rhwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar dwyll.

Yn Ch4 2022/23, gwnaeth sylw yn y cyfryngau ar ymchwiliad troseddol parhaus ysgogi ymgysylltiad ychwanegol â rhanddeiliaid ynghylch sut y gallwn weithio mewn partneriaeth i gryfhau llinellau amddiffyn yn y system fwyd.



Pa mor effeithiol mae'r NFCU yn rheoli adnoddau?

Yn 2022, gwnaeth yr ASB gomisiynu adolygiad annibynnol o'r NFCU a ddarparodd asesiad cadarnhaol o'n cyfeiriad, ein galluogrwydd a'n defnydd o adnoddau. Gwnaed argymhellion ynghylch sut y gallwn ni gyfleo ein neges yn well, hybu galluogrwydd, gwella effaith a meithrin diwylliant. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr adolygiad.

Rydym hefyd wrthi'n adolygu ein metrigau a'n canllawiau i sicrhau bod modd canolbwytio ar effaith ac effeithiolrwydd. Bydd hyn yn adeiladu ar brosesau pennu tasgau a chydlynus sefydledig sy'n blaenoriaethu twyll bwyd difrifol yn unol â'r Strategaeth Reoli, ac yn ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

Bydd sicrhau pwerau ychwanegol yn gwella ein defnydd effeithiol o adnoddau ymhellach. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Amcan 4F.



Gwell adroddiadau ar ddata a pherfformiad

Yn ystod 2022/23, sefydlodd y gyfarwyddiaeth Gweithrediadau fframwaith perfformiad newydd ynghyd â dangosfwrdd gwell. Sefydlodd y fframwaith drefniadau llywodraethu newydd ac atebolrwydd cryfach ar gyfer olrhain cyflawniadau yn erbyn amcanion corfforaethol y gyfarwyddiaeth Gweithrediadau, a gwnaeth y dangosfwrdd gasglu dangosyddion perfformiad allweddol a gwybodaeth reoli i sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn cynlluniau busnes.

**Gwneud ein gwaith
o ddydd i ddydd yn
eithriadol o dda**

2

**Cefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau
iechyd porthladdoedd**

Mae awdurdodau lleol yn gyflawni gweithgareddau fel arolygiadau, archwiliadau, gwyliadwriaeth a samplu (a elwir yn Rheolaethau Swyddogol) yn y rhan fwyaf o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid. O ran bwyd, mae'r rheolaethau hyn yn ymwneud â hylendid bwyd (ansawdd microbiolegol a halogiad bwyd gan ficro-organebau neu ddeunydd allanol) a safonau bwyd (cyfansoddiad, halogiad cemegol, difwyno (*adulteration*), a labelu bwyd).

Rydym yn gweithio gyda phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, y 334 yn Lloegr, a'r 11 yng Ngogledd Iwerddon, a chyda'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n cynnal Rheolaethau Swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Ngogledd Iwerddon. Mae 89 o awdurdodau lleol hefyd yn cynnal rheolaethau iechyd mewn porthladdoedd wrth y mannau cyrraedd, gyda phedwar awdurdod iechyd porthladdoedd.

O dan Adran 11 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, mae gan yr ASB y swyddogaeth o fonitro perfformiad yr awdurdodau gorfodi hyn, gan gynnwys gosod safonau ar eu cyfer.

Y pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

A

Cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni yn erbyn y Cynllun Adfer, gan gynnwys rheoli perfformiad, arolygon cynnydd a diwedd blwyddyn, monitro ac adrodd.

B

Moderneiddio'r defnydd o ddata ddata a chudd-wybodaeth wrth gynnal a monitro rheolaethau swyddogol yn effeithiol, gosod dangosyddion perfformiad allweddol newydd ar gyfer awdurdodau lleol ac adolygu ein fframwaith monitro perfformiad.

C

Adolygu'r fframwaith rheolaethau mewnforio i sicrhau ei fod yn addas at y diben, gan gynnwys cyflwyno dull safonol o orfodi ar gyfer awdurdodau iechyd porthladdoedd.

D

Darparu adnoddau o ansawdd uchel i hwyluso'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol yn gyson ac yn effeithiol, gan gynnwys canllawiau a hyfforddiant, a rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu ag awdurdodau lleol.

E

Cyflawni ein hymgyrchoedd ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau ynghylch 'Cynyddu'r defnydd o sgoriau'r CSHB', 'Arddangos y CSHB ar-lein' a 'Chofrestru Busnesau Bwyd'.

F

Cymryd camau allweddol tuag at sicrhau y bydd yn orfodol arddangos sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn Lloegr ac y bydd yn rhaid arddangos y CSHB ar-lein yng Ngogledd Iwerddon.


Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goresgyn

A Cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni yn erbyn y Cynllun Adfer

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydymffurfio â [Chynllun Adfer COVID-19 ar gyfer Awdurdodau Lleol](#), a oedd yn nodi canllawiau a chyngor yr ASB ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023. Roedd y Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer ailgychwyn y system weithredu.

Defnyddiwyd data a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn yr arolygon diwedd blwyddyn chwarterol i fonitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi'u nodi yn y Cynllun. Lle nad oedd gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i gyflawni'r Cynllun neu os oedd y data'n dangos bod yr awdurdodau lleol yn tanberfformio, gwnaethom ymgysylltu â nhw i helpu i'w cefnogi a mynd i'r afael â'u problemau.

Ffigur 10: Amlinelliad o'r Cynllun Adfer



A yw'r system yn ei chyfanwydd yn targedu'r risgiau?


Roedd 98% o awdurdodau lleol wedi bodloni gofynion parhaus y Cynllun a'r dyddiadau cerrig milltir allweddol ar gyfer sefydliadau risg uwch a risg ganolig erbyn 31 Mawrth 2023, ac roedd llawer wedi dechrau cwblhau arolygiadau wedi'u rhaglennu o sefydliadau yn y categoriâu risg is. Rhoddodd hyn sicrwydd bod y system yn dechrau cysoni â disgwyliadau'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

O ran hylendid bwyd, y disgwyliad a amlinellwyd yn y Cynllun oedd y byddai awdurdodau lleol yn darparu ymyriadau yn ôl risg, gan ddechrau gyda'r sefydliadau categori A a B blaenoriaeth uwch, gan symud ymlaen at sefydliadau categori C a D nad oeddent yn

cydymffurfio i raddau helaeth, ac yna at sefydliadau categori C a oedd yn cydymffurfio i raddau helaeth neu well. Yn nhermau'r CSHB, mae 'cydymffurfio i raddau helaeth' neu safon uwch o gydymffurfiaeth yn cyfateb i sgôr hylendid bwyd o dri neu uwch. Roedd y Cynllun yn darparu hyblygrwydd ar gyfer sefydliadau risg is.

Roedd y mwyafrif o sefydliadau'n disgyn i'r categorïau risg canolig/isel sef C, D ac E (roedd tua 25 gwaith yn fwy o'r rhain na'r sefydliadau risg uwch). Lle'r oedd adnoddau ar gael, roedd disgwyl i awdurdodau lleol wneud cynnydd yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y Cod Ymarfer mewn sefydliadau risg canolig/is (sefydliadau categori C a D ac E sy'n cydymffurfio i raddau helaeth).


Ffigur 11: Ymyriadau hylendid bwyd wedi'u rhaglennu a gyflawnwyd mewn sefydliadau categori A, B, a C (pob un) ac mewn sefydliadau C a D nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth



Erbyn diwedd 2022/23, roedd nifer yr ymyriadau hylendid a gynhaliwyd mewn sefydliadau categori A (99%), B (99%), C (nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth) (97%) a D (nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth) (96%), yn uchel ac o fewn y lefelau cyflawni disgwyliedig. Roedd nifer yr ymyriadau a gyflawnwyd mewn sefydliadau categori C, D, ac E gyfystyr â 75% o'r nifer a gyflawnwyd cyn y pandemig (2018/19). Roedd cynnydd da wedi'i wneud o ran ymyriadau mewn sefydliadau categori A ar gyfer safonau (88%) erbyn diwedd 2022/23 ac roedd awdurdodau lleol hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran ymyriadau mewn sefydliadau categori B ac C.

Sut mae darpariaeth awdurdodau lleol yn cymharu â blynnyddoedd blaenorol?

Ffigur 12: Pob ymyriad a gyflawnwyd mewn safleoedd manwerthu, bwytau ac arlwywyr



Drwy'r dadansoddiad o ddata'r CSHB ar gyfer manwerthwyr, bwytau ac arlwywyr, bu modd i ni edrych ar ddarpariaeth awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r hyn sy'n agos at ddata byw. Roedd yn galonogol gweld yn yr is-set hon o sefydliadau, fod darpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyson â'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.


A yw'r timau sy'n cynnal Rheolaethau Swyddogol ar fwyd wedi'u staffio'n llawn?

Roedd adnoddau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, ond nododd rhai awdurdodau lleol heriau o ran recriwtio a chadw. Roedd gallu awdurdodau lleol i sicrhau adnoddau yn faes sy'n peri pryer o hyd, ac rydym yn bwriadu ei fonitro'n fanwl. Lle'r oedd swyddi wedi'u llenwi gan staff nad oeddent yn gymwys i gyflawni'r ystod lawn o Reolaethau Swyddogol, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod y swyddogion hyn yn cynnal ymyriadau yn y sefydliadau risg is. Cysylltwyd ag unrhyw awdurdodau lleol a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni'r Cynllun, er mwyn gallu eu cynghori a'u cefnogi.

Sut mae awdurdodau lleol yn rheoli busnesau newydd ac a yw nifer y busnesau bwyd newydd sy'n aros am arolygiad cyntaf yn gostwng?

Yn ogystal â chadw llygad ar y cerrig milltir yn y Cynllun, buom yn monitro data arall a allai ddangos risg yn y system, fel nifer y busnesau heb sgôr (Ffigur 13). Ar ei anterth tua mis Ebrill 2021, roedd 77,036 o fusnesau heb eu harolygu o ran hylendid bwyd. Yn ystod 2022/23, parhaodd nifer y busnesau heb sgôr i ostwng yn raddol, a'r nifer terfynol oedd 39,173.

Ffigur 13: Nifer y busnesau heb sgôr a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn



Mae'n galonogol bod nifer y cofrestriadau newydd a oedd yn aros i gael eu blaenoriaethu o ran hylendid bwyd wedi parhau i ostwng yn ystod 2022/23, o tua 10,000 ym mis Ebrill 2022 i 3,100 ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae hyn yn awgrymu gwelliant wrth reoli risg anhysbys yn y system. Gostyngodd nifer y busnesau newydd a gafodd eu blaenoriaethu fel 'risg uwch' ar gyfer hylendid bwyd ychydig, o 9,200 ym mis Ebrill 2022 i 8,800 ddiwedd mis Mawrth 2023. Er bod y nifer yn parhau'n uchel, nid oedd yn syndod gan fod awdurdodau lleol yn bodloni disgwyliadau eraill yn y Cynllun Adfer ac yn gwneud gwaith blaenoriaeth uchel arall lle'r oedd risg wedi'i nodi yn y system. Oherwydd y gwaith cadarnhaol a wnaed gan awdurdodau lleol a nodwyd yn arolwg Ionawr 2023, roedd dangosyddion yn awgrymu bod y system wedi gwella'n sylweddol, gan ddod â'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yn agos at y lefelau a welwyd cyn y pandemig. Yn seiliedig ar hyn, penderfynodd yr ASB y byddai'r Cynllun Adfer yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

Sut mae'r ASB wedi rheoli perfformiad awdurdodau lleol yn ystod y Cynllun Adfer

Dechreuodd ein gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn dilyn arolwg Hydref 2021. Cyflwynwyd dull gwell o reoli perfformiad awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y Cynllun Adfer yn cael ei gyflawni. Ystyriwyd ac aseswyd yr ymatebion i'r arolygon hylendid bwyd a safonau bwyd a gwybodaeth arall, ac mae'r dull hwn wedi bod yn effeithiol wrth ddewis pa awdurdodau lleol i ymgysylltu â nhw ac wrth sicrhau gwelliannau mewn perfformiad. Lle'r oedd awdurdodau lleol yn tanberfformio, gwnaethom archwilio sut i'w cefnogi. Lle rhoddyd sicrwydd y byddai'r awdurdod lleol yn cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r diffyg, gofynnwyd i'r awdurdod lleol am ddiweddarriadu cynnydd rheolaidd. Os oedd materion y barnwyd eu bod yn hollbwysig a/neu nad oedd gennym hyder yn y sicrwydd a roddwyd gan yr awdurdod lleol neu nad oedd y diffyg wedi cael sylw boddhaol, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu cynllun gweithredu â therfyn amser yn eu cylch. Yn ystod 2022/23, agorwyd achosion newydd ar gyfer hylendid bwyd a/ neu safonau bwyd yn dilyn arolwg pob awdurdod lleol.



Ers i'r rhaglen rheoli perfformiad aildechrau yn 2021, mae ein hymgysylltiad ag awdurdodau lleol wedi arwain at ymchwilio i fwy na 300 o achosion, a'u cau yn dilyn 5 set o wybodaeth gan awdurdodau lleol. Efallai y cafwyd digon o sicrwydd i ddod â gwaith ymgysylltu ag awdurdod lleol i ben yn sgil arolwg blaenorol, ond os byddai arolygon yn y dyfodol yn tynnu sylw at bryder newydd, byddai achos newydd yn cael ei agor. Roedd achosion eraill lle'r oedd gwaith ymgysylltu eisoes ar waith ond nodwyd materion pellach mewn arolygon dilynol.

Rydym yn defnyddio proses uwchgyfeirio sefydledig i ymgysylltu ag unrhyw awdurdod lleol sy'n cael trfferth cyrraedd lefel fodhaol o berfformiad. Cam cyntaf y broses uwchgyfeirio yw llythyr oddi wrth bennaeth Tîm Gwaith Gweithredu Awdurdodau Lleol yr ASB yng Nghymru at Bennaeth Gwasanaeth yr Awdurdod Lleol, i roi sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd. Os na chaiff gwelliant ei sicrhau, caiff pryderon eu huwchgyfeirio'n gynyddol, hyd at gam pedwar pan fydd Prif Swyddog Gweithredol yr ASB yn ysgrifennu at Brif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Lleol i roi gwybod iddynt am fwriad yr ASB i hysbysu Gweinidogion nad oes sicrwydd wedi'i ddarparu. Dim ond un awdurdod lleol a gafodd ei uwchgyfeirio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hynny at gam dau, ac yna cafodd yr achos ei isgyfeirio. Gwnaed hyn yn dilyn gwaith ymgysylltu gan yr ASB a gwaith gan yr awdurdod lleol i gyflawni cynllun gweithredu y cytunwyd arno, gyda monitro parhaus i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal.

B

Moderneiddio'r defnydd o ddata

Bu gwaith ar y gweill i ddatblygu dull newydd o asesu effeithiolrwydd darpariaeth Rheolaethau Swyddogol gan awdurdodau lleol. Sefydlwyd prosiect sydd wrhi'n adolygu'r mecanwaith a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu data i'r ASB a fydd yn monitro'r gwaith o gynnal Rheolaethau Swyddogol yn effeithiol. Mae cyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol hefyd wedi'i datblygu sy'n defnyddio data lefel sefydliad. Bydd y dangosyddion perfformiad hyn yn rhoi asesiad mwy ansoddol sy'n canolbwytio ar ganlyniadau i ni o'r effaith ar gydymffurfiaeth busnesau, yn ogystal â lefel uwch o sicrwydd o ran diogelwch bwyd. Bydd y ddwy ffrwd waith yn cael eu datblygu yn 2023/24, a bydd y broses o gasglu data awdurdodau lleol yn parhau drwy arolygon yr ASB hyd nes y cyflwynir y dull newydd.

Roedd y dull newydd o gasglu data yn helpu i ymwreiddio gwaith a arweinir gan ddeallusrwydd (intelligence) wrth gynnal Rheolaethau Swyddogol. Sefydlwyd Tîm Cydlynau Deallusrwydd Awdurdodau Lleol newydd yn yr Is-adran Cydymffurfiaeth Rheoleiddio ym mis Awst 2022. Blaenoriaeth gyntaf y tîm oedd helpu i roi'r Model Gweithredu Safonau Bwyd newydd ar waith o dan y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (gweler [Amcan 6](#) am ragor o fanylion).

C Adolygiad o'r fframwaith rheolaethau mewnforio

Disodlwyd y gwaith arfaethedig i adolygu'r fframwaith rheolaethau mewnforio gan waith i ddatblygu Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM), a oedd yn cynnwys adolygu fframweithiau presennol. Darllenwch fwy am BTOM o dan [Amcan 4](#).

D Darparu adnoddau o ansawdd uchel

Cyhoeddwyd tua 150 o lythyrau gan ddefnyddio'r [llwyfan Hwyluso Cyfathrebu](#), gan rannu canllawiau a'r newyddion diweddaraf ag awdurdodau lleol. Ers iddo gael ei lansio, mae 3,700 o ddefnyddwyr mewn awdurdodau lleol wedi ymuno â'r llwyfan ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyhoeddiadau allweddol yn cynnwys:

- Diweddarriadau i'r Cynllun Adfer COVID-19.
- Newidiadau labelu a chyfansoddiau mewn ymateb i darfu ar y gadwyn gyflenwi (oherwydd y gwrthdaro yn Wcráin).
- Canllawiau diwygiedig ar safleoedd cymeradwy a fersiwn wedi'i diweddar o'n dogfen Holi ac Ateb am alergenau.
- Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- Diweddarriad ar y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau.

Gwnaeth yr ASB ymgysylltu â holl grwpiau cyswllt bwyd rhanbarthol awdurdodau lleol yn Lloegr, gan fynd i ddwy gyfarfod y flwyddyn o leiaf ar gyfer pob grŵp. Bu ymgysylltiad tebyg â grwpiau cyswllt rhanbarthol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, a chaiff adborth ar y cyfarfodydd hyn ei rannu â chydweithwyr ar draws yr ASB.

Mae cyfarfodydd o bell wedi galluogi'r ASB i gymryd rhan mewn mwy na 150 o gyfarfodydd i hyrwyddo polisiau a blaenoriaethau'r ASB, cael adborth ar unwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi, cael mewnwlediad i'r heriau presennol a dylanwadu ar y ffordd y caiff blaenoriaethau'r ASB eu mabwysiadu ar lefel leol.



Mae adborth o'r cyfarfodydd, gan gynnwys tueddiadau a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg, yn cael ei rannu â chydweithwyr ar draws yr ASB.

Cynhaliodd yr ASB chwe gweminar byw ar-lein i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol am flaenoriaethau allweddol. Roedd y digwyddiadau yn gyfle i awdurdodau lleol ddysgu mwy am gynigion polisi, gofyn cwestiynau a rhoi adborth arnynt.

Gwnaeth y gwaith ymgysylltu cynnar hwn ag awdurdodau lleol ar y prif bolisi ar gyfer y Model Gweithredu Hylendid Bwyd helpu i lywio'r datblygiadau arfaethedig er mwyn sicrhau model wedi'i foderneiddio sy'n sail i gyfres genedlaethol o waith ymgysylltu â phartneriaid cyflawni awdurdodau lleol yn Ch1 2023/24. Daeth ymgynghoriad anffurfiol ehangach gyda'r holl randdeiliaid i ben ar 30 Mehefin 2023.

Darparwyd £275,000 mewn cyllid grant i chwe awdurdod lleol a oedd yn ymwneud â chynnal Gemau'r Gymawlad yn Birmingham. Oherwydd y cyllid hwn, bu modd i awdurdodau lleol ymweld â llawer o leoliadau, gwestai, bwyta i siopau tecawê i wirio cydymffurfiaeth cyn y Gemau, gan ddiogelu'r 1,000,000 o ymwelwyr a ddaeth i'r ddinas.

Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddi gydag awdurdodau lleol i nodi'r hyfforddiant angenrheidiol. Mae gan yr ASB bellach gcontract gyda'r [Sefydliad Safonau Masnach Siartredig](#) ar gyfer darparu hyfforddiant bwyd a bwyd anifeiliaid, sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cymwyseddau ac yn cefnogi cynrychiolwyr i fodloni'r cymwyseddau priodol. Dyma'r cyrsiau a ddarparwyd yn Lloegr:

- **Ychwanegion bwyd anifeiliaid** – gweminar byw a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023.
- **Labelu bwyd anifeiliaid** – gweminar byw a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023.
- **Sgiliau gorfodi bwyd a chasglu tystiolaeth** – gweminarau byw a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023.
- **Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid** – gweminar byw a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023.

Sicrhawyd bod recordiadau o'r modiwlau ar gyfer pob cwrs a gyflwynwyd ar gael i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd â chyfeiriad e-bost y llywodraeth, er mwyn iddynt ddilyn y modiwlau wrth eu pwysau. Aeth y modiwlau hyn yn fyw ym mis Ebrill 2023 a chawsant eu cynnal ar y [Regulators Companion](#). Dyma'r cyrsiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru:

- **Cyrsiau hyfforddi Cyfraith Bwyd Cyffredinol** (hylendid a safonau).
- **Cyrsiau hyfforddi Puro Pysgod Cregyn.**
- **Bwyd wedi'i Fewnforio: Gweminar Deddfwriaeth a Gorfodi.**
- **Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol.**

Dyma'r cyrsiau a ddarparwyd yng Ngogledd Iwerddon:

- **Seminar Cymeradwyaethau Gogledd Iwerddon** – digwyddiad wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ym mis Mai 2022.
- **Hyfforddiant ar warantau chwilio a chwilio anheddu preifat** – Digwyddiad wyneb yn wyneb (x4) a gynhelir drwy gydol mis Awst a mis Tachwedd 2022.
- **Hyfforddiant ymgynghoriad anffurfiol** – Wedi'i gyflwyno ar-lein ym mis Mehefin 2022.
- **Hyfforddiant ar ddigwyddiadau bwyd** – E-ddysgu/Rhithwir – mis Tachwedd 2022.
- **Rhoi gwybod am ddigwyddiadau** – E-ddysgu/Rhithwir – mis Chwefror 2023.


Cofrestru Busnesau Bwyd (RAFB)

Mae Rafb yn wasanaeth ar-lein a grëwyd gan yr ASB i gefnogi busnesau i gofrestru gyda'u hawdurdodau lleol. Ers ei lansio yn 2018, mae Rafb wedi prosesu mwy na 181,000 o gofrestriadau busnesau bwyd ac mae 81% o awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon bellach yn gysylltiedig â'r gwasanaeth. At hyn, manteisiodd 10% o'r awdurdodau lleol cysylltiedig ar alluogrwydd integreiddio'r gwasanaeth Rafb, gan ddileu'r gofyniad i awdurdodau lleol fewnbynnu data cofrestru â llaw i'w System Gwybodaeth Reoli. Yn 2022, gwnaethom barhau i wella gwasanaeth Rafb er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol sy'n helpu awdurdodau lleol i frysbennu arolygiadau, sy'n swyddogaeth gynyddol bwysig, yn sgil y pandemig. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at gynydd cyffredinol ym maint ac ansawdd y data a ddaw i law yn ystod y broses gofrestru.


Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Mae'r [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd](#) yn cael ei weithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn darparu gwybodaeth glir am safonau hylendid busnesau bwyd ar adeg yr arolygiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn berthnasol i fusnesau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwyta, siopau tecawê, archfarchnadoedd ac ysbytai. Yng Nghymru, mae gweithrediadau busnes-i-fusnes, fel gweithgynhyrchwyr, hefyd wedi'u cynnwys. Hyd at 31 Mawrth 2023, roedd [sgoriau hylendid bwyd](#) 470,218 o fusnesau bwyd wedi'u cyhoeddi, sef cynnydd ar y 463,184 o sgoriau a oedd wedi'u cyhoeddi hyd at 31 Mawrth 2022 a'r 436,164 hyd at 31 Mawrth 2021.

Ffigur 14: % y busnesau bwyd â sgôr hylendid bwyd o 3 neu well



Ffigur 15: % y busnesau bwyd â sgôr hylendid bwyd o 2 neu is




E

Cyflawni ein hymgyrchoedd ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau

Ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd o'r CSHB ymhllith defnyddwyr

Rydym yn monitro ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd o'r CSHB ymhllith defnyddwyr drwy'r arolwg defnyddwyr, Bwyd a Chi 2.

Ffigur 16: Ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ymhllith defnyddwyr



Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, roedd canfyddiadau Cylch 3 Bwyd a Chi 2, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022, yn dangos y canlynol:

- roedd **89%** o'r ymatebwyr wedi clywed am y CSHB.
- roedd **88%** o'r ymatebwyr yn adnabod sticer y CSHB.
- roedd **41%** o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd yn y 12 mis cyn llenwi'r arolwg.
- mae **41%** o'r rhai sy'n bwyta allan yn ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynuble i fynd.
- mae **38%** o'r rhai sy'n archebu prydau tecawê yn ystyried y sgôr hylendid wrth benderfynuble i archebu.

Gan mai dim ond mewn dau arolwg cyhoeddodedig y gofynnwyd y cwestiynau hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n rhy gynnar i asesu a fu unrhyw newid o ran adnabyddiaeth neu ddefnydd o'r CSHB ymhllith defnyddwyr dros amser. Mae pandemig COVID-19 hefyd yn debygol o fod wedi effeithio ar ymddygiad defnyddwyr o ran bwyta allan a'u hagweddau tuag at hylendid bwyd. Bydd yr ASB yn parhau i fonitro ymwybyddiaeth a defnydd o'r CSHB ymhllith defnyddwyr ac yn darparu asesiad manylach o'r newidiadau dros amser yn adroddiad y flwyddyn nesaf, pan fydd mwy o ddata ar gael.

F

Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB): Arddangos gorfodol

Uchelgais yr ASB yw cyflwyno is-ddeddfwriaeth i'w gwneud yn orfodol i arddangos sgoriau hylendid yn Lloegr, fel sy'n digwydd yn Nghymru a Gogledd Iwerddon. Yn 2022/23, roedd y cynnig i fod i gael ei gynnwys ym Mhapur Gwyn Gwahaniaethau lechyd y llywodraeth. Ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei ohirio ym mis Gorffennaf 2022, bu'n rhaid oedi'r gwaith ar sicrhau arddangos gorfodol ar gyfer y CSHB yn Lloegr, gan adlewyrchu'r sefyllfa lle nad oedd modd gwneud unrhyw gynnydd pellach gan y byddai angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ystod 2022/23. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r achos i Weinidogion eto ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Roedd y penderfyniad hwn wedi ein galluogi i ailddyrannu adnoddau yn unol â mein prawf ymarfer blaenoriaethu'r ASB.

Mae hefyd yn uchelgais i gyflwyno arddangos gorfodol ar-lein yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn adlewyrchu cais gan Bwyllgor lechyd Gogledd Iwerddon, a chytunwyd arno gan y Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon. Gwnaethom gwblhau ymarfer ymgynghori yn nodi ein cynigion, a chyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad. Gan fod y rheoliadau'n gofyn am waith craffu gan y Cynulliad cyn y gellid mynd rhagddo, nid oedd modd bwrw ymlaen â'r cynigion, ond byddant yn cael eu blaenoriaethu unwaith y bydd Gweithrediaeth weithredol wedi'i sefydlu eto yng Ngogledd Iwerddon.

Drwy gydol 2022/23, gwnaethom barhau i hyrwyddo'r CSHB a gweithio gyda'n partneriaid awdurdodau lleol i gynnal a chryfhau ei effaith. Mae'r CSHB yn gynllun iechyd cyhoeddus llwyddiannus iawn oherwydd ymrwymiad awdurdodau lleol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth barhaus.

**Gwneud ein gwaith
o ddydd i ddydd yn
eithriadol o dda**

3

**Adeiladu a gwella ein galluogrwydd
o ran gwyddoniaeth, tystiolaeth a
gwyliadwriaeth**

Un o swyddogaethau statudol yr ASB yw cynhyrchu tystiolaeth a dadansoddi mewn perthynas â'r meysydd o fewn ein cylch gwaith (a nodir yn adran 8 o [Ddeddf Safonau Bwyd 1999](#)). Rydym yn caffael, adolygu a chyhoeddi gwybodaeth, yn deall risgiau ac yn datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth i lywio ein dull gweithredu ar draws meysydd eraill o'n gwaith, er enghraift targedu gwyliadwriaeth neu gasglu tystiolaeth bellach am risg bwyd newydd neu risg sy'n dod i'r amlwg, neu achos o darfu yn y system fwyd.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith fel cynhyrchydd tystiolaeth yn parhau i ymwneud â diogelwch a dilsrwydd bwyd. Eleni, i gefnogi'r strategaeth newydd, gwnaethom anelu at wella ein sylfaen dystiolaeth bresennol ynghylch bwyd iachach a mwy cynaliadwy. Rhoddwyd sylw arbennig i ymddygiad a phrofiadau defnyddwyr yn y meysydd hyn, yn ogystal â sicrhau bod gennym yr adnoddau angenrheidiol i ymgysylltu â thystiolaeth a gynhyrchir gan eraill ac a rennir â'r ASB.

Y pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

A

Asesu Risg: cyflawni ein portffolio o asesiadau risg a dadansoddiadau o ffactorau diliys eraill (OLF) ar draws meysydd diogelwch bwyd, cynhyrchion rheoleiddiedig a masnach. Datblygu ein prosesau ymhellach gan weithio tuag at gynnig gwasanaeth gwell. Cwblhau'r broses gynefino ar gyfer staff cynhyrchion rheoleiddiedig a dadansoddi risg masnach yr ydym newydd sicrhau cyllid ar eu cyfer. Datblygu cynllun trawsnewid ar gyfer dadansoddi OLF, gan adlewyrchu buddiannau ehangach defnyddwyr.

B

Rhagleni ymchwil a thystiolaeth: yn unol â'r gyllideb, rheoli a darparu portffolio o brosiectau wedi'u blaenoriaethu, i ddarparu'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i gefnogi gwaith dadansoddi risg, ein rhagleni newid, sganio'r gorwel a mewnwelediadau o ran defnyddwyr ac ymddygiad.

C

Galluogrwydd labordai cenedlaethol: cyflawni ein rhagleni labordai, samplu a datblygu dulliau, gan gynnwys gwaith i adeiladu system labordy Rheolaethau Swyddogol cynaliadwy. Eleni, bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu, ei gymeradwyo a'i roi ar waith.

D

Diddordeb ehangach defnyddwyr: cyflawni rhaglen well o fewnwelediad o ran defnyddwyr ac ymddygiadau sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth yr ASB, gan ddarparu tystiolaeth ar ddiddordebau defnyddwyr yn y system fwyd.

E

Clefydau a gludir gan fwyd a'r rhaglen PATH-SAFE: gweithio gyda'n partneriaid, i arwain y gwaith o gyflawni'r rhaglen i ddatblygu dulliau gwyliadwriaeth gwell. Eleni byddwn yn dylunio, yn comisiynu ac yn dechrau cyflawni pob cynllun peilot.

F

Strategaeth werthuso'r ASB: datblygu, cyflawni a chyhoeddi ein strategaeth werthuso.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goresgyn

A Asesu risg

Ers i'r DU ymadael â'r UE, rydym wedi cofnodi tri chylch polisi dadansoddi risg wedi'u cwblhau ar draws meysydd diogelwch bwyd a masnach, wedi'u hategu gan wyddoniaeth a thystiolaeth, sef:

- Asesiad risg i gefnogi prosiect Defra: Rheolaethau ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gaiff eu mewnforio 2022.
- Asesiad effaith ac asesiad risg o reolaethau mewnforio ar gynhyrchion o Japan a roddwyd ar waith yn dilyn digwyddiad niwclear Fukushima.
- Asesiad risg i helpu Defra i ystyried y risg sy'n gysylltiedig â briwgig a pharatoadau cig fel rhan o adolygiad o waharddiadau a chyfyngiadau ar fewnforion i'r UE.

Gwnaethom barhau i ddatblygu ein prosesau sylfaenol a'n ffyrdd o weithio ymhellach, gan lansio rhaglen hyfforddi aseswyr risg newydd ym mis Ionawr 2023 i wella a safoni ein sgiliau sefydlu a thechnegol.

B Rhagleni ymchwil a thystiolaeth

Yn unol ag argymhelliaid yr Adolygiad Galluogrwydd Gwyddoniaeth trawslywodraethol yn 2019, rydym wedi adolygu a diweddar ein Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil, gan adeiladu ar y rhai a gyhoeddwyd yn 2021. Mae ein [Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil diwygiedig](#) bellach yn cynnwys cyfeiriad penodol at fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy, yn unol â strategaeth yr ASB. Gwnaethom hefyd ddarparu mwy o fanylion am bob un o'n gofynion i sicrhau bod ein darpar-bartneriaid yn gallu deall ein hanghenion yn well. Er mwyn cyflawni'r ymchwil sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, rydym wedi parhau i ddatblygu ein Rhagleni Ymchwil a Thystiolaeth. Drwy gyflawni'r gwaith hwn, rydym yn parhau i fod yn ddarparwr tystiolaeth annibynnol y gellir ymddiried yn ddod mewn perthynas â bwyd.



Roedd **£20.6 miliwn** neu **13.9%** o wariant yr ASB ar wyddoniaeth, tystiolaeth ac ymchwil yn 2022/23 (o gymharu â £16.6 miliwn yn 2021/22)

Gwnaethom barhau i feithrin ymgysylltiad allanol er mwyn gallu manteisio mwy ar ein gwariant ac effaith ein hymchwil. Roedd hyn yn cynnwys lansio [cylchlythyr gwyddoniaeth](#) a gyrraeddodd 1,539 o danysgrifwyr (ar 31 Mawrth 2023). Gwnaethom gyhoeddi 129 o adroddiadau a phapurau gwyddonol (sy'n rhagori ar ein targed o 75) i rannu allbynnau ymchwil a wnaed neu a ariannwyd gan yr ASB, gan adlewyrchu'r uchelgais i sicrhau bod ein gwyddoniaeth yn hygyrch.

Gwnaethom ddatblygu cynllun galluogrwydd SERD ar gyfer 2022-25. Roedd yn nodi deg maes blaenoriaeth ar gyfer datblygu ein pobl, ein dulliau, ein prosesau a llywodraethu. Maent yn perthyn i dair thema sef meithrin gallu, adeiladu galluogrwydd a sicrhau effaith. Rydym wedi pennu cyfres o amcanion a nodau i'w cyflawni yn erbyn y rhain, i fonitro ein

cynnydd a sicrhau ein bod yn parhau i wella'r system wyddoniaeth a thystiolaeth yn yr ASB.

C Galluogrywydd labordai cenedlaethol

Mae Labordai Swyddogol yn cynnal profion dadansoddol ar samplau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan alluogi gwiriadau statudol ar fewnforion ar gyfer awdurdodau lleol. Bu gostyngiad cyson yng nghapasiti a galluogrywydd Labordai Swyddogol y Dadansoddwyr Cyhoeddus dros amser, gan arwain at bryderon ynghylch capasiti a galluogrywydd y system. Yn 2019, cyflwynwyd [papur](#) i Fwrdd yr ASB a oedd yn amlinellu cyflwr y system. Ers hynny, mae'r DU wedi ymadael â'r UE, ac wedi wynebu pandemig COVID-19, a wnaeth roi mwy fyfth o bwysau ar y system.

Mae'r system bresennol yn ddibynnol iawn ar weithgarwch samplu awdurdodau lleol, sydd wedi lleihau'n sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, wedi arwain at system sydd wedi dirywio'n sylweddol o ran galluogrywydd a chapasiti cyffredinol, a lle ceir llai o botensial i fuddsoddi yn y dyfodol. Cytunodd Bwrdd yr ASB ar gynllun yr ASB i [ddatblygu galluogrywydd Labordai Cenedlaethol](#) ym mis Medi 2022 ac ers hynny cyflawnwyd y canlynol:

- Dyfarnu tua £500 mil o gyllid i bedwar Labordy Swyddogol y Dadansoddwyr Cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, er mwyn cynyddu galluogrywydd a chapasiti.
- Cynyddu rôl gefnogol Labordai Cyfeirio Cenedlaethol i ddarparu galluogrywydd a chapasiti ychwanegol ar gyfer profion anodd ac arbenigol, ac ar gyfer digwyddiad mawr o ran bwyd neu fwyd anifeiliaid.
- Gweithio gyda'r Rhwydwaith Diliysrwydd Bwyd, Defra a Safonau Bwyd yr Alban i gefnogi fframwaith ar gyfer ymateb cydgysylltiedig gan y [Canolfannau Arbenigedd Diliysrwydd Bwyd](#) pe bai ddigwyddiad yn ymwneud â diliysrwydd.

Trwy weithio gyda'r labordai, mae'r ASB yn darparu amrywiaeth o weithgareddau samplu i gefnogi ein hamcanion. Rydym yn cynnal pedwar math o samplu fel rhan o'n rhaglen waith:

Gwyliadwriaeth dargededig

**£1 miliwn**

Cyfanswm y gwariant

**2,585**

Samplau wedi'u profi

**367**

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Diben: Mae samplu nwyddau penodol ar gyfer peryglon penodol yn rhan o'r gwaith i ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae penderfyniadau ar yr hyn i'w dargedu yn seiliedig ar wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, a'r nod yw dilysu gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai fod risg.

Lwyddiannau: Canfuwyd pysgnau heb eu datgan mewn 27% o 'Sbeisys Africanaidd' a brofwyd yn ystod yr Arolwg Samplu Gwyliadwriaeth Manwerthu, a oedd yn peri risg bosib i iechyd y cyhoedd. Tynnwyd sylw'r awdurdodau lleol perthnasol at y canlyniadau samplau nad oeddent yn cydymffurfio er mwyn iddynt gymryd camau dilynol. Anfonwyd llythyr at bob awdurdod lleol yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniadau a rhannwyd yr wybodaeth hon â'r diwydiant drwy Grŵp Cyswllt y Diwydiant Bwyd a Rhwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd yr ASB.

Samplu i lywio gwyddoniaeth ac ymchwil

**£0.65 miliwn**

Cyfanswm y gwariant

**1,301**

Samplau wedi'u profi

**39**

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Diben: Caiff gwaith samplu ei gynnal, fel arfer ar bwnc penodol, i wella ein gwybodaeth. Er enghraifft, i lywio asesiadau risg neu bolisiâu.

Lwyddiannau: Mae arolygon wedi'u cynnal i lywio gwybodaeth wyddonol yr ASB am risgiau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys arolwg o 40 o gynhyrchion bwyd cathod i ddarparu data ar bresenoldeb mycotocsinau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu hadolygu gan Bwyllgor Cynghori'r ASB ar Fwyd Anifeiliaid i lywio polisi a chyngor i'r diwydiant. Hefyd, bydd arolwg bacteriwm ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn cyw iâr a thwrci a fanwerthir yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.

Monitro rheolaidd

**£1.33 miliwn**

Cyfanswm y gwariant

**6,768**

Samplau wedi'u profi

**51**

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Diben: Monitro cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddio rhagnodedig. Mae'n cynnwys samplu ymrthedd gwrthficrobaidd, samplu pysgod cregyn a samplu radiolegol.

Lwyddiannau: Mae samplu pysgod cregyn a dŵr cysylltiedig wedi ei gwneud yn bosib i ddosbarthu gwelyau, gan sicrhau bod pysgod cregyn yn cael eu prosesu i'r lefel gywir er mwyn bod yn ddiogel i'w bwyta ac, os oes angen, gellir atal cynaeafu er mwyn diogelu defnyddwyr. Mae'r rhaglen monitro radiolegol flynyddol yn gwirio nad yw gollyngiadau ymbelydrol o safleoedd niwclear y DU yn dod i gysylltiad â'n bwyd. Dangosodd yr adroddiad diweddaraf yn 2022, fel mewn blynnyddoedd blaenorol, fod dosau i'r cyhoedd o bob ffynhonnell amlygiad i ymbelydredd artiffisial, gan gynnwys bwyd, ymhell islaw'r terfyn cyfreithiol.

Rheolaethau Swyddogol (samplu gorfodi)

**£0.35 miliwn**

Cyfanswm y gwariant

**1,214**

Samplau wedi'u profi

**216**

Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Diben: Gellir cymryd samplau oherwydd canlyniadau anffafriol o '**Wyliadwriaeth wedi'i Dargedu**' i sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio. Mae hyn hefyd yn cynnwys samplau a ariennir gan NFCU ar gyfer ymchwiliadau ategol neu Ymgyrch OPSON.

Lwyddiannau: Yn ystod Ch3 a Ch4, ariannodd yr ASB 13 o awdurdodau lleol i gymryd 263 o samplau o fannau targed o fewn y gadwyn gyflenwi, gyda risgau hysbys, fel rhan o raglen samplu dan gyfarwyddyd safonau bwyd. Roedd y samplau'n cynnwys diodydd meddal wedi'u mewnforio o gyfanwerthwyr/siopau talu a chludo gyda mewnforwyr a gafodd eu profi o ran cyfansoddiad fel ychwanegion nas caniateir a labelu, a chebabs gan weithgynhyrchwyr a gafodd eu profi o ran cyfansoddiad. Lle ceir canlyniadau nad ydynt yn cydymffurfio, mae awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio. Mae'r gwaith samplu hwn wedi'i dargedu at feysydd risg a nodwyd gan yr ASB trwy sganio'r gorwel, gwyliadwriaeth a deallusrwydd (*intelligence*), gan ei gwneud yn bosib i ganolbwytio adnoddau cyfyngedig i gynnal Rheolaethau Swyddogol.

D Buddiannau ehangach defnyddwyr

Cyhoeddwyd prosiect [Buddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU ynghylch bwyd](#) yn ystod haf 2022 i lywio rhaglen ymchwil ar Fuddiannau Ehangach Defnyddwyr. Ystyriodd yr ymchwil sut y gall profiadau amrywio, beth sy'n bwysig i bwy a phwy sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan heriau presennol yn y system fwyd. Mae'r prif flaenorriaethau i ddefnyddwyr, a lle yr hoffent weld camau gweithredu yn cael eu cymryd ar eu rhan, yn ymwneud â sicrhau bod safonau hylendid a diogelwch yn cael eu cynnal neu eu hatgyfnerthu, fod mynediad teg at fwyd diogel, iach a fforddiadwy, fod gwybodaeth ar gael i wneud penderfyniadau gwybodus yn hawdd ac y gellir ymddiried ynddi. Dechreuwyd yr ymchwil hon er mwyn adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar fuddiannau'r cyhoedd yn y system fwyd, gan ymwneud â'r weledigaeth ehangach a bennwyd ar gyfer yr ASB yn ein strategaeth ar gyfer 2022-27.

Ym mis Mehefin 2022, gofynnodd Bwrdd yr ASB i dîm Dadansoddi'r ASB ehangu ar waith sy'n ymchwilio i ddifyg diogeledd bwyd (*food insecurity*) yn y cartref. Gwnaethom gomisiynu arbenigwyr o ddwy Brifysgol yn y DU i gwmpasu'r dirwedd ymchwil a data ar ddifyg diogeledd bwyd mewn cartrefi yn y DU, gan gwmpasu'r hyn a gynhyrchwyd yn y byd academaidd, y gymdeithas sifil ehangach ac adrannau'r llywodraeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Bydd yr ymchwil hon yn cael ei chyhoeddi ddechrau haf 2023.

Ymddiriedaeth a hyder yn yr ASB a'r system fwyd

Ein cenhadaeth sylfaenol yw bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn ein cenhadaeth a llywio ein penderfyniadau, rydym yn mynd ati'n rheolaidd i gynnal ymchwil gyda defnyddwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Safonau Bwyd yr Alban yn cynnal eu harolygon defnyddwyr eu hunain ar gyfer yr Alban. Mae ymchwil yr ASB yn cynnwys:


- [Bwyd a Chi 2](#) – Ein harolwg blaenllaw, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gyda thua 6,000 o bobl, sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau o ddiddordeb strategol i'r ASB.
- Arolwg Tracio [Mewnwelediadau Defnyddwyr](#) – Ein harolwg tracio misol sy'n monitro pryderon ac ymddygiad defnyddwyr (gan gynnwys fforddiadwyedd ac argaeedd bwyd) ac agweddau tuag at yr ASB a'r system fwyd.

Hyder yn yr ASB

Mae ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r ASB a'u hymddiriedaeth ynddi yn uchel ac wedi aros yn weddol sefydlog ers dechrau tracio yn 2020. Mae canlyniadau [Cylch 5](#) ein harolwg Bwyd a Chi 2 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn nodi'r canlynol:

91% – o'r ymatebwyr wedi **clywed am yr ASB**.

O'r ymatebwyr sy'n gwybod ychydig neu lawer am yr ASB a'i gwaith, mae **75% yn ymddiried yn yr ASB i wneud ei gwaith**, sef sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Ffigur 17: Ymwybyddiaeth, gwybodaeth ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn yr ASB


Ymddiriedaeth yn y system fwyd

Mae pawb yn haeddu mynediad at fwyd diogel, sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ble bynnag y byddant yn byw yn y DU a beth bynnag fo'u hamgylchiadau personol. Am y rheswm hwn, mae materion fel fforddriadwyedd a sicrhau bod gan ddefnyddwyr yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus yn treiddio drwy ein strategaeth gyfan.

Roedd hyder defnyddwyr mewn diogelwch a diliysrwydd bwyd yn uchel ac mae wedi aros yn weddol sefydlog ers dechrau tracio yn 2020. Mae canlyniadau [Cylch 5](#) Bwyd a Chi 2 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn nodi'r canlynol:

91% – o'r ymatebwyr yn **hyderus bod y bwyd y maent yn ei fwyta yn ddiogel i'w fwyta.**

86% – o'r ymatebwyr yn **hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd** (er enghraifft, cynhwysion, gwybodaeth am faeth, gwlaid tarddiad) **yn gywir.**

Ffigur 18: Hyder defnyddwyr o ran diogelwch a diliysrwydd bwyd

Diogeledd bwyd a fforddiadwyedd

Roedd canlyniadau [Cylch 5](#) Bwyd a Chi 2 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn nodi:

- Prisiau bwyd yw'r broblem fwyaf cyffredin sy'n ymwneud â bwyd y mae ymatebwyr yn pryderu yn ei gylch, gyda 66% yn dweud bod hyn yn bryder (pan roddwyd rhestr iddynt o bryderon posib), sef cynnydd o 42% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 10% o'r ymatebwyr yn wynebu lefelau isel o ddiogeledd bwyd ac roedd 10% arall yn wynebu lefelau isel iawn o ddiogeledd bwyd, gyda chyfanswm o 20% o'r ymatebwyr wedi'u dosbarthu fel pobl â diffyg diogeledd bwyd.

Dyma'r lefel uchaf o ddiffyg diogeledd bwyd a nodwyd ers dechrau tracio yn 2020 a'r tro cyntaf i brisiau bwyd ymddangos ymhlieth y tri phrif bryder. Mae'r ASB hefyd yn cynnal Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr misol sy'n arolwg mwy cyfyngedig gyda sampl llai o faint na Bwyd a Chi 2, ac sydd wedi monitro pryderon am fforddiadwyedd bwyd ers mis Ebrill 2020. Mae'r arolwg tracio yn nodi bod pryderon defnyddwyr am fforddiadwyedd bwyd a diffyg diogeledd bwyd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac o gymharu â'r adeg pan ddechreuwyd ei dracio. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yn ein Hadroddiad Safonau Bwyd Blynnyddol, a gyhoeddir yn ystod hydref 2023. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos ym mis Mawrth 2023:

- Roedd 35% o'r cyfranogwyr yn poeni na fyddent yn gallu fforddio bwyd ar gyfer nhw eu hunain neu eu cartref yn ystod y mis nesaf. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r un mis y llynedd (31%, Mawrth 2022) ac o gymharu â phan ddechreuwyd tracio hyn (28%, Ebrill 2020).
- Dywedodd 27% o'r cyfranogwyr eu bod yn cwtogi ar faint prydau bwyd neu'n eu hepgor am nad oedd ganddynt ddigon o arian i brynu bwyd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r un mis y llynedd (22%, Mawrth 2022) ac o gymharu â phan ddechreuwyd tracio hyn (18%, Ebrill 2020).

Monitro ymddygiad diogelwch bwyd defnyddwyr

Mae'r ASB hefyd yn defnyddio Bwyd a Chi 2 i fonitro gwybodaeth ac ymddygiad (hunangofnodedig) defnyddwyr o ran storio, paratoi a choginio bwyd i lywio penderfyniadau polisi'r ASB a gweithgareddau ymgysylltu â defnyddwyr.

Yn 2023, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein hastudiaeth Kitchen Life 2 a archwiliodd ymddygiadau diogelwch bwyd mewn ceginau domestig a busnes go iawn. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau casglu data gan gynnwys camerâu synhwyro symudiadau, arolygon, cyfweliadau, dyddiaduron bwyd a thermomedrau oergell/rhewgell, mae'r astudiaeth hon yn rhoi mwy o fewnwelediad i'r risgiau diogelwch bwyd posib y mae pobl yn eu cymryd yn eu cartrefi ac mewn ceginau busnesau.

E**Clefydau a gludir gan fwyd a'r rhaglen PATH-SAFE**

Clefydau a gludir gan fwyd

Yn 2018, amcangyfrifwyd bod 2.4 miliwn o achosion yn ymwneud â chlefydau a gludir gan fwyd yn y DU ac amcangyfrifwyd bod 16,400 o bobl wedi gorfod mynd i'r ysbyty, gan gyfrannu at amcangyfrif o 180 o farwolaethau.

Mae clefydau a gludir gan fwyd yn costio tua £9.1 biliwn y flwyddyn i gymdeithas y DU³. Un o'n prif amcanion yn yr ASB yw lleihau achosion o salwch a gludir gan fwyd yn y DU. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithgareddau fel monitro cydymffurfiaeth y diwydiant â safonau diogelwch bwyd; nodi a hyrwyddo ymyriadau effeithiol i leihau halogiad bwyd; gwyliadwriaeth, ymateb i ddigwyddiadau o halogi mewn bwyd a brigiadau o achosion cysylltiedig o salwch a gludir gan fwyd, a'u rheoli; a, pharhau i gyfathrebu risgau a strategaethau lleihau risg yn effeithiol i ddefnyddwyr a busnesau.

Datblygu canllawiau i gefnogi defnyddwyr a busnesau

Ein nod yw creu amgylchedd sy'n helpu busnesau i leihau amlygiad defnyddwyr i glefydau a gludir gan fwyd, a helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ddiogelwch bwyd. Eleni, buom yn gweithio i leihau achosion o glefydau a gludir gan fwyd drwy roi ymyriadau ar waith ar draws pathogenau a dargedwyd, yn enwedig Listeria monocytogenes a Campylobacter. Gwnaethom ddatblygu cyngor i ddefnyddwyr ar ffyrdd o sicrhau diogelwch bwyd a lleihau gwastraff bwyd ar yr un pryd. Mae hwn yn broblem allweddol sy'n deillio o'r argyfwng costau byw.

Bu Fframwaith Clefydau a Gludir gan Fwyd yr ASB yn gymorth mawr wrth nodi ein blaenoriaethau ar gyfer lleihau clefydau a gludir gan fwyd, yn unol â difrifoldeb baich pathogenau mawr o safbwyt economaidd ac o safbwyt iechyd y cyhoedd. Roedd y fframwaith yn nodi nodau, a dulliau gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg, i leihau'r risg o glefydau a gludir gan fwyd ac yn amlinellu cynlluniau i leihau'r risg o glefydau a gludir gan fwyd.

Yn dilyn y bridiad o achosion o listeriosis mewn ysbytai yn Lloegr yn 2019, ymrwymodd yr ASB i adolygu ei chanllawiau [Lleihau'r risg y bydd grwpiau agored i niwed yn cael listeriosis](#) er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Comisiynodd yr ASB ymchwil i fesur ymwybyddiaeth o'r canllawiau, cael barn sefydliadau am effeithiolrwydd y canllawiau a chael gwybod i ba raddau mae'r canllawiau'n cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys deall unrhyw ffactorau sy'n eu rhwystro rhag cael eu rhoi ar waith. Mae'r adroddiad [Gweithredu Canllawiau Listeriosis yr ASB](#) yn ymdrin â chanfyddiadau 39 o ymatebwyr o fewn Ymddiriedolaethau'r GIG a 445 o ymatebwyr o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o'r GIG) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Daeth i'r casgliad bod 95% o'r lleoliadau yn ymwybodol o ganllawiau'r ASB ac yn teimlo eu bod yn effeithiol o ran lleihau'r risg y byddai grwpiau sy'n agored i niwed yn cael listeriosis. Rydym bellach yn datblygu cynllun dilynol i wella'r cyngor arferion da yn y canllawiau, a hyrwyddo'r gwaith o'u rhoi ar waith ar draws y sector gofal, gan godi ymwybyddiaeth o ofynion cofrestru ar yr un pryd.



3 [Baich Clefydau a Gludir gan Fwyd yn y DU 2018 | Asiantaeth Safonau Bwyd](#)


Deall gwybodaeth ac ymddygiad defnyddwyr

Mae'r ASB yn casglu data yn rheolaidd drwy ein [harolwg Bwyd a Chi 2](#). Yn 2023, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein [hastudiaeth Kitchen Life 2](#) sy'n defnyddio camerâu sy'n synhwyro symudiadau i arsylwi ar ymddygiadau diogelwch bwyd bywyd go iawn mewn ceginau domestig a cheginau busnesau. Gwnaethom ganolbwytio ar effaith ehangach pandemig COVID-19 ar brofiadau ac ymddygiad defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a diogelwch bwyd, gan gynnwys trwy ymchwil i ystyried a gafodd y pandemig effaith ar [ymddygiad defnyddwyr o ran golchi dwylo](#), adroddiad Ein [Bwyd mewn Pandemig](#), ymchwil ar y profiad byw o ddiffyg diogeledd bwyd yn ystod COVID-19, ac ymchwil ar [ddefnyddwyr a'r system fwyd yn ystod COVID-19](#). Helpodd y prosiectau hyn i lywio penderfyniadau polisi a'n negeseuon a'n cyngor i ddefnyddwyr.

Tueddiadau adrodd am bathogenau gastroberfedol

Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022, cynhaliodd UKHSA a'r ASB ymchwil i fwy na 40 o achosion newydd neu barhaus o haint gastroberfedol a oedd o bosib yn gysylltiedig â chlefydau a gludir gan fwyd. Arweiniodd hyn at sawl ymchwiliad llwyddiannus i frigiadau o achosion a nododd y ffynhonnell fwyd, ac ar ôl hynny rhoddwyd mesurau rheoli ar waith. Mae'r graffiau'n dangos tueddiadau yn yr achosion o'r pedwar prif bathogen gastroberfedol a gadarnhawyd gan labordai yn y DU fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys pob achos o haint a gadarnhawyd gan labordai (mewn rhai achosion efallai y bydd haint wedi'i gaffael trwy ddulliau heblaw am fod wedi'i gludo gan fwyd).





* Daw data o nifer o systemau adrodd byw a reolir gan Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus y DU, a nodir isod⁴ Data dros dro yw'r data a gall newid. Cyfrifir cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (defnyddiwyd amcangyfrifon 2021 ar gyfer 2022 gan nad yw amcangyfrifon 2022 ar gael eto). Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau dros amser, yn enwedig dros y cyfnod pandemig COVID-19 (2020 i ddechrau 2022) oherwydd yr amryfal o ffactorau a effeithiodd ar y broses o adrodd ar bathogenau.

Yn 2022, cynyddodd adroddiadau o Salmonela ond ni wnaethant ddychwelyd yn llawn i'r lefelau a nodwyd cyn y pandemig, tra bod nifer yr achosion o Campylobacter a Listeria monocytogenes a nodwyd yn ystod 2022 yn parhau i fod yn debyg i'r lefelau fel yr oeddent cyn COVID-19. Cynyddodd nifer yr adroddiadau o STEC O157 yn 2022 i'r gyfradd uchaf a gofnodwyd yn y DU ers 2015. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i ddau achos cenedlaethol mawr yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod haf 2022 (un wedi'i gludo gan fwyd ac un person-i-berson). Mae'n debygol bod amryw ffactorau wedi ysgogi'r newidiadau mewn tueddiadau a welwyd yn ystod pandemig COVID-19 a'u bod yn amrywio yn ôl pathogen. Mae hefyd yn debygol bod pandemig COVID-19 a ffactorau dylanwadol eraill yn parhau i effeithio ar y ffordd y caiff gwybodaeth am ganfod a throsglwyddo pathogenau haint gastroberfedol, a'u baich, ei chyfleu i fecanweithiau gwyliadwriaeth genedlaethol yn 2022. Fodd bynnag, nid yw'r gwir graddau nac effaith yn cael eu deall yn llawn ar hyn o bryd. Mae Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus y DU a'r ASB yn cydweithio i ddeall yn well effaith y pandemig COVID-19 ar adrodd ar bathogenau heintiau gastroberfedol. Ar y cyfan, mae'n dal i fod yn aneglur a fydd rhai o'r gwahanol newidiadau cymdeithasol ac ymddygiadol a ddigwyddodd yn parhau yn 2023.

4 Dyma Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus y DU: Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Cyhoeddus yr Alban ac Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.

Comisiynodd yr ASB ei thrydedd astudiaeth clefydau perfedol heintus (IID3) yn 2021, sy'n dilyn [yr ail astudiaeth o glefydau perfedol heintus yn y gymuned \(IID2\)](#), a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2012. Bydd IID3 yn darparu data newydd a fydd yn ein galluogi i ddiweddu amcangyfrifon ar gyfer tangofnodi salwch a gludir gan fwyd a bydd yn llywio ac yn cefnogi datblygiad polisi clefydau a gludir gan fwyd a blaenoriaethu gweithgareddau ymyrryd yn y dyfodol.

Rhaglen Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd (PATH-SAFE)

Mae'r gallu i ganfod ac adnabod pathogenau'n gynnar ac olrhain achosion o glefydau a gludir gan fwyd yn gywir i'w ffynhonnell yn gamau hollbwysig i wella iechyd y cyhoedd a lleihau'r costau economaidd sy'n gysylltiedig â nhw. Mae amryw adrannau'r llywodraeth eisoes yn cynnal gweithgareddau gwyliadwriaeth i nodi'r pathogenau sy'n achosi salwch, i asesu lefelau halogi neu olrhain ffynhonnell a llwybrau trosglwyddo pathogenau clefydau a gludir gan fwyd ac ymrthedd gwrthficrobaidd. Mae'r gweithgareddau hyn yn hanfodol i sicrhau strategaethau rheoli gwell, ond mae datblygiadau diweddar mewn technoleg yn cynnig cyfle i ysgogi newid sylweddol mewn gwyliadwriaeth, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r ASB yn arwain rhaglen sydd â'r nod o fanteisio'n llawn ar y datblygiadau hyn, gan weithio ar y cyd ar draws y llywodraeth. Mae [PATH-SAFE](#) yn rhaglen ymchwil gwerth £19.2 miliwn, sydd â'r nod o ddatblygu rhwydwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol, gan ddefnyddio'r dechnoleg dilyniannu DNA ddiweddaraf, rheoli data a samplu amgylcheddol i wella'r gwaith o ganfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac ymrthedd gwrthficrobaidd trwy bob rhan o'r system fwyd. Mae'r rhaglen yn cynnwys dros 25 o astudiaethau peilot ar draws pedair gwlad y DU, gyda dros 50 o gydweithredwyr ar draws y llywodraeth, y byd academaidd a'r diwydiant.

Dechreuodd y rhaglen yn 2021 ond bu rhywfaint o oedi oherwydd ymateb rheng flaeu cydweithredwyr y rhaglen i bandemig COVID-19, yn ogystal ag oedi mewn prosesau caffael a rhewi reciwtio. Arweiniodd hyn at danwariant sylweddol yn 2021 a 2022, ond llinarwyd yr effaith ac mae'r rhaglen yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgeisiau erbyn mis Mawrth 2024.

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro mewn pedair ffrwd waith (FfW):

FfW1: Sefydlu llwyfan data genomig cenedlaethol wedi'i guradu ar gyfer clefydau a gludir gan fwyd.

FfW2: Datblygu seilwaith peilot ar gyfer samplu aml-leoliad rheolaidd.

FfW3: Deall dichonoldeb defnyddio diagnosteg gludadwy.

FfW4: Datblygu system beilot ar gyfer Gwyliadwriaeth Ymrthedd Gwrthficrobaidd amgylcheddol.

Mae'r prif lwyddiannau hyd yma a'r canlyniadau arfaethedig yn cynnwys:

- Sefydlu rhaglen ymchwil gynhwysfawr (dros 25 o brosiectau a 50 o gydweithwyr).
- Sefydlu Cymunedau â Buddiant i ganiatáu trafodaethau technegol ar draws rhwydweithiau cymunedol.

- Gwella galluogrwydd presennol (er enghraifft, defnyddio technolegau dŵr gwastraff a ddatblygyd mewn ymateb i bandemig COVID-19 i ganfod clefydau a gludir gan fwyd) a datblygu technegau newydd.
- Cyhoeddi papurau ymchwil a adolygyd gan gymheiriad.
- Ei gwneud yn haws i sefydliadau rannu a chael mynediad at ddata er mwyn adnabod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac ymrthedd gwrthficrobaidd yn ddi-oed, gan ddwyn ynghyd nifer o ffynonellau data.
- Gwella dealltwriaeth o briodoli tarddiad a bygythiad heintio o ran clefydau a gludir gan fwyd ac ymrthedd gwrthficrobaidd trwy amgylcheddau amrywiol.
- Cyfrannu at uchelgeisiau trawslywodraethol lechyd Cyfunol (One Health), sy'n mynd ati'n gyfannol i integreiddio iechyd dynol, anifeiliaid a'r amgylchedd, er mwyn lleihau bygythiadau i iechyd y cyhoedd a'r ecosystem.

F Strategaeth werthuso'r ASB

Fel rhan o'i gofynion statudol, roedd yn ofynnol i'r ASB gyhoeddi [Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwerthuso](#) i gefnogi Adolygiad o Wariant 2021, sef y broses a ddefnyddiwyd i neilltuo cyllid i'r ASB ar gyfer y blynnyddoedd ariannol rhwng 2021-22 a 2024-25. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu ym mis Medi 2022. Ers hynny, rydym wedi canolbwytio ar feithrin gallu i werthuso ac wedi ymgorffori arferion da, yn ogystal â chreu cynlluniau i werthuso rhaglenni craidd, fel Gwerthusiad Cynllun Peilot Safonau Bwyd Cymru a'r Gwerthusiad Rheoleiddio Lefel Menter.

Gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda

4

Sicrhau bod cyfundrefn reoleiddio'r DU yn parhau i ddarparu mesurau diogelu cryf i ddefnyddwyr

Mae gennym swyddogaeth statudol i ddatblygu polisiau sy'n cefnogi diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (gan gynnwys Gorsensitfrwydd i fwyd). Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, rydym hefyd yn gyfrifol am safonau cyfansoddiadol a labelu, ac yng Ngogledd Iwerddon rydym yn gyfrifol am safonau maeth a labelu yn ogystal ag iechyd a chynaliadwyedd a gwyliadwriaeth. I gefnogi meysydd polisi adrannau eraill y llywodraeth, rydym yn cynnig cyngor neu fewnbwn i lunwyr polisi lle bydd buddiant defnyddwyr mewn perthynas â bwyd neu lle bydd gennym dystiolaeth neu sgiliau perthnasol, ond adrannau eraill fydd yn "berchen" ar y polisi ac yn cynghori eu gweinidogion yn ei gylch. Fel lluniwr polisi, rydym yn parhau i ganolbwytio'n bennaf ar ein rôl greiddiol, sef sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a'n cylch gwaith maeth yng Ngogledd Iwerddon.

Y pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

- A** **Rheoli gwahaniaethau posib** yn unol ag egwyddorion y Bwrdd y cytunwyd arnynt a chytundebau Fframwaith y DU, er mwyn darparu dull cyson o asesu a rheoli gwahaniaethau ledled y DU.
- B** **Cwblhau tri Fframwaith y DU** y mae'r ASB yn rhan ohonynt, gan gynnwys rheoli gwaith craffu seneddol ar y Fframwaith Safonau a Cyfansoddiad a Labelu Bwyd a gweithredu ymrwymiadau Fframweithiau ar draws yr ASB.
- C** **Cyflawni ymrwymiadau Protocol Gogledd Iwerddon**, cefnogi trafodaethau parhaus rhwng y DU a'r UE a darparu cyngor i sicrhau bod trefniadau Protocol Gogledd Iwerddon yn darparu ar gyfer gofynion diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr.
- D** **Darparu mewnbwn ar drafodaethau ar gytundebau masnach rydd** yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd gan Fwrdd yr ASB, cyfrannu at adroddiadau Adran 42 (Deddf Amaethyddiaeth 2020) y llywodraeth, a chyflawni ymrwymiadau o dan gytundebau masnach presennol a sefydliadau amlochrog fel Sefydliad Masnach y Byd.
- E** **Cyflwyno Adroddiad Blynnyddol 2022 ar Safonau Bwyd** yn unol â'r gwersi a ddysgwyd o adroddiad 2021.
- F** **Gweithio tuag at sicrhau** pwerau ychwanegol i'r NFCU i gryfhau ein harweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â thro seddau bwyd.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goesgyn

A**B**

Fframweithiau'r DU a Gwahaniaethau

Fframweithiau'r DU

Ymdrinnir â chylch gwaith yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan dri fframwaith cyffredin. Maent yn nodi sut mae'r pedair gwlaid yn cydweithio mewn rhai meysydd polisi datganoledig yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r fframweithiau'n ymdrin ag egwyddorion lefel uchel, trefniadau llywodraethu, ymrwymiadau i gydweithio ar ddatblygu polisi, prosesau ar gyfer rheoli gwahaniaethau, gwneud penderfyniadau, prosesau osgoi anghydfod a phrosesau datrys.

Cymerodd yr ASB bob cam angenrheidiol i gwblhau'r tri fframwaith sy'n ymdrin â'i chyfrifoldebau polisi, ond ni ellir cwblhau gwaith craffu seneddol yng Ngogledd Iwerddon ar y fframwaith Safonau Cyfansoddiad a Labelu Bwyd tan i'r Weithrediaeth ail-ffurfio yng Ngogledd Iwerddon. Efallai y bydd angen diwygiadau pellach yng ngoleuni Cytundeb Fframwaith Windsor⁵. Cyfarfu arweinwyr polisi ar draws y pedair gwlaid yn rheolaidd i ddatblygu polisi yn unol â'r ymrwymiadau, a hyd yma, ni fu unrhyw anghydfodau y bu'n rhaid eu huwchgyfeirio'n ffurfiol o dan unrhyw un o'r fframweithiau.

Rheoli gwahaniaethau mewn polisiau ledled y DU

Ystyr gwahaniaethau (*divergence*) yw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n arwain at wahaniaethau ar draws y DU, lle rydym yn gweithio i'r un rheolau ar hyn o bryd. Gall hyn greu anawsterau i fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau gwledydd ac o'r herwydd, nod yr ASB yw osgoi gwahaniaethau pan fo'n bosib, a pharchu cymhwysedd datganoledig (*devolved competence*) ar yr un pryd. Cafodd dull yr ASB o reoli gwahaniaethau ei adolygu a'i adnewyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fe'i rheolwyd yn weithredol gan yr holl arweinwyr polisi wrth iddynt gydweithio ar draws y pedair gwlaid yn unol ag ymrwymiadau'r fframweithiau.

Lansiwyd system rheoli achosion er mwyn sicrhau dull callach o olrhain a rheoli newidiadau dros amser. Mantais hyn oedd ein bod yn mynd ati i olrhain newidiadau a allai arwain at wahaniaethau, gan geisio dulliau cyffredin o ran ymateb i newidiadau lle y bo'n briodol. Roedd modd hefyd asesu a rheoli effeithiau gwahaniaethau ymlaen llaw os penderfynwyd mai gwahaniaethu oedd yr opsiwn mwyaf priodol yn y DU.

5 Cafodd Protocol Gogledd Iwerddon ei ail-negodi a chyhoeddwyd cytundeb newydd (Cytundeb Fframwaith Windsor) ar 27 Chwefror 2023.

C**Protocol Gogledd Iwerddon**

Gweithiodd yr ASB i gyflawni ymrwymiadau o dan Brotocol Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ymdrin â digwyddiadau trawsffiniol a chyflawni gofynion adrodd allweddol o dan drefniadau'r Gweithgor Ymgynghorol ar y Cyd. Un o'r effeithiau allweddol oedd bod Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i reoliadau'r UE a amlinellwyd ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn golygu bod angen i fwyd a bwyd anifeiliaid a roddir ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon fodloni rheolau'r UE. Gan fod y rheolau hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gylch gwaith yr ASB, roedd yr ASB yn gyfrifol am weithredu rheoliadau newydd yr UE a chyflawni eu rhwymedigaethau yng Ngogledd Iwerddon. Effaith allweddol arall oedd bod nwyddau bwyd-amaeth a fasnachwyd o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn destun gofynion rheolaethau lechydol a Ffytoiechydol yr UE ar fannau cyrraedd, a oedd yn golygu bod angen ehangu rhai mannau cyrraedd presennol yng Ngogledd Iwerddon. Yn olaf, roedd gan nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon a fasnachwyd gyda gweddill y DU fynediad dirwystr i farchnad Prydain Fawr. Roedd y llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r nwyddau hyn yn destun unrhyw rwystrau ychwanegol o ran sut y byddent yn cyrraedd porthladdoedd Prydain Fawr ac yn cael eu rhoi ar farchnad Prydain Fawr. Yn ogystal, yn 2022/23 cyfrannodd yr ASB at y trafodaethau bwyd-amaeth â'r UE, a arweiniwyd gan Defra, ar ddyfodol Protocol Gogledd Iwerddon. Arweiniodd y trafodaethau hyn at Fframwaith Windsor. Ein blaenoriaeth oedd diogelu iechyd y cyhoedd a darparu gwell mynediad at wybodaeth gliriach am gynhyrchion bwyd i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

D**Trafodaethau ar gytundebau masnach rydd**

Mae'r trafodaethau ar Gytundebau Masnach Rydd (FTA) yn cael eu harwain gan yr Adran Busnes a Masnach o dan fandadau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y DU, gyda Defra wedyn yn arwain ar drafodaethau ar y bennod lechydol a Ffytoiechydol. Mae'r ASB yn cyfrannu i'r trafodaethau hyn ar faterion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ar lefel dechnegol ac yn cefnogi amcanion ehangach llywodraeth y DU yn y maes lechydol a Ffytoiechydol, gan gynnwys gwella cydweithrediad ar les anifeiliaid ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. Cyfrannodd yr ASB i nifer o drafodaethau parhaus ar lefel dechnegol, gan gynnwys FTAs gyda Mecsico, Canada, India, Cyngor Cydweithrediad y Gwlff, Israel a'r cynnig i'r DU ymuno â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel. Llofnododd y DU ddau FTA newydd gydag Awstralia a Seland Newydd. Fel rhan o'r broses graffu, comisiynwyd yr ASB, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, gan yr Adran Busnes a Masnach i roi cyngor yn unol ag [Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020](#) o ran a oedd y cytundebau'n cynnal mesurau diogelu statudol ar gyfer iechyd pobl. Daethom i'r casgliad fod y cytundebau ag Awstralia a Seland Newydd yn cynnal mesurau rheoli diogelwch bwyd statudol ar gyfer y defnyddiwr. Ar gyfer y cytundeb â Seland Newydd, gwnaethom hefyd asesu a oedd yn cynnal mesurau diogelu statudol ar gyfer maeth. Cynghorwyd ei fod yn gwneud hynny.

Unwaith y byddant wedi'u llofnodi, mae FTAs yn aml yn sefydlu Pwyllgorau lechydol a Ffytoiechydol ar wahân i drafod gweithrediad y bennod yn ymarferol. Cyfrannodd yr ASB fewnbwn technegol i drafodaethau a arweiniwyd gan Defra ar Bwyllgor lechydol a Ffytoiechydol y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad â'r UE dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae FTAs Seland Newydd ac Awstralia hefyd yn sefydlu Pwyllgorau lechydol a Ffytoiechydol y disgwylir iddynt gyfarfod yn ystod 2023. Efallai y gofynnir i'r ASB gyfrannu at y trafodaethau dwyochrog hynny.

Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM)

Sefydlodd yr ASB dîm rhaglen i arwain a chydgysylltu ein mewnbwn i'r BTOM a fydd yn diffinio sut y caiff mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid i'r DU eu rheoli yn y dyfodol. Gweithiodd yr ASB yn agos gydag adrannau eraill y llywodraeth ar ddatblygu'r BTOM drafft, gan ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid a busnesau i geisio eu safbwytiau ar y cynigion. Cyhoeddwyd y drafft ar 5 Ebrill ac roedd ein mewnbwn yn canolbwytio ar gyflawni'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gyda Bwrdd yr ASB, sef bod y lefel diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chynnal (neu ei gwella); bod polisi'n cael ei lywio gan wyddoniaeth, data a thystiolaeth; bod polisi'n ddeinamig, yn newid yn ymatebol er mwyn sicrhau bod rheolaethau bwyd yn targedu lle mae'r risg fwyaf; a bod cynigion yn cyd-fynd â safonau lechydol a Ffytoiechydol byd-eang.

E

Adroddiad Blynnyddol ar Safonau Bwyd

Cyhoeddwyd 'Ein Bwyd: Adolygiad Blynnyddol o Safonau Bwyd leded y DU', ar y cyd â'r FSS ym mis Mehefin 2022. Hwn oedd yr adolygiad gwyddoniaeth a thystiolaeth cyntaf o safonau bwyd ledled y DU. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu cyflwr plât y genedl trwy roi trosolwg o arferion siopa a bwyta pobl: ble mae pobl yn prynu bwyd, ble a beth mae pobl yn ei fwyta, a faint maent yn ei wario ar fwyd. Roedd yn ymdrin â phryderon, diddordebau, a blaenoriaethau defnyddwyr o ran bwyd. Defnyddiodd yr adroddiad ystod eang o dystiolaeth i ystyried y cwestiwn craidd: a yw safonau bwyd yn cael eu cynnal, yn cynyddu, neu'n gostwng ledled y DU? Cafodd yr adroddiad ei osod gerbron y pedair deddfwrfra, gydag adborth cadarnhaol gan randdeiliaid. Bydd adroddiad 2022 yn cael ei osod a'i gyhoeddi yn hydref 2023.

F

Sicrhau pwerau ychwanegol i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)

Mae sicrhau pwerau ychwanegol yn gam pwysig a fydd yn galluogi'r NFCU i wneud gwell defnydd o'i staff gweithredol medrus a lleihau'i dibyniaeth ar yr heddlu ac asiantaethau eraill. Ym mis Ebrill, cafodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 Gydsyniad Brenhinol. Rhoddodd y Ddeddf hon bŵer i Weinidogion gyflwyno pwerau perthnasol a bennir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Cyflawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Deddf Cyflawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i swyddogion yr NFCU. Rydym yn cymryd y camau nesaf tuag at ymreolaeth weithredol, gan weithio i sicrhau'r pwerau ychwanegol hyn drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r ASB wrthi'n drafftio cyfarwyddiadau i baratoi'r Offerynnau Statudol i'w gosod gerbron y Senedd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ASB yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref i fynd ar drywydd deddfwriaeth sylfaenol bellach i greu'r potensial ar gyfer goruchwyliaeth gan Arolgyaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Datblygu'r system rheoleiddio bwyd

Beth mae 'datblygu'r system rheoleiddio bwyd' yn ei olygu?

Mae'r system fwyd yn newid drwy'r amser, lle mae arloesedd a dulliau newydd yn codi'n gyson. Mae'r ffyrdd yr ydym yn prynu ac yn bwyta bwyd yn newid ac yn esblygu'n gyflym. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu bwyd y gallwch ymddiried ynddo, rhaid i ddull yr ASB o reoleiddio ddatblygu ochr yn ochr â'r system fwyd. Yn yr adran hon, rydym yn trafod y prif feysydd lle rydym yn addasu ein dulliau i fanteisio ar dechnoleg newydd, methodolegau newydd a ffyrdd newydd o feddwl.

Dyma'r amcanion y byddwn yn canolbwytio arnynt yn yr adran hon:

5

Cyflwyno proses dadansoddi risg effeithlon, effeithiol a blaengar.

6

Ein nod yn y rhaglen **Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau** yw rheoleiddio mewn ffordd ddoethach i wneud yn siŵr bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

7

*Moderneiddio'r ffordd y caiff rheolaethau swyddogol eu cynnal ar gyfer cig, llaeth a gwin, gan gynnal lefelau diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid a hyder defnyddwyr trwy'r rhaglen **Trawsnewid Gweithredol**.

* Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn penderfyniad yr ASB i droi'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yn Dîm Moderneiddio Gweithrediadau, cafodd rhan o'r hen raglen Trawsnewid Gweithredol ei huno â'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau. O'r herwydd, cafodd cwmpas y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau ei ddiweddar i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddiwygio'r rheolaethau swyddogol yn y tymor hwy i drawsnewid y sector cig, gwin a llaeth.

Fel rhan o ymadawriad y DU â'r UE, gwnaeth yr ASB ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol ym maes dadansoddi risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r ASB yn defnyddio proses drylwyr o ddadansoddi risg i ddarparu cyngor annibynnol ar ddiogelwch bwyd ac argymhellion ar reoli risg i ddefnyddwyr, gweinidogion iechyd, busnesau a phobl eraill. Mae'r ASB yn defnyddio'r broses er mwyn ystyried ceisiadau i gymeradwyo cynhyrchion rheoleiddiedig ar gyfer marchnad y DU, fel bwydydd newydd, ensymau, bwydydd a addaswyd yn enetig, ychwanegion, cyflasynnau a deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd yn y DU. Nod yr ASB yw rhoi sicrwydd bod ein cyngor yn diogelu iechyd y cyhoedd; a bod cyngor rheoli risg yn cael ei lywio gan wyddoniaeth a thystiolaeth, yn ystyried buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, a'i fod yn annibynnol. Mae'r ASB yn dilyn fframweithiau a gydnabyddir yn fydd-eang ar gyfer dadansoddi risgiau, sy'n cynnwys asesu risgiau, rheoli risgiau a chyfathrebu am risgiau. Mae'r broses yn dryloyw ac yn darparu ar gyfer model pedair gwlaid. Fel rheol, mae asesu risg (dadansoddi'r dystiolaeth a sefydlu risg) a rheoli risg (gwneud argymhellion polisi) yn rhannau ar wahân o'r broses dadansoddi risg, a hynny yn unol â safonau rhyngwladol derbyniol. Mae'r ASB yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth hyn ond cânt eu gwahanu'n fewnol, ac mae'r egwyddor o annibyniaeth wrth asesu risg wedi'i hymgorffori yn y broses dadansoddi risg.

Pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi cyflawni ein nodau yn 2022/23:

A

Darparu'r gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig, gan barhau i gwrdd â therfynau amser statudol, a sicrhau gwell profiad i'r cwsmer a lleihau oedi diangen.

B

Cynnal adolygiad allanol o'r gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig, gan gynnwys y rheoliadau Bwydydd Newydd, meinchnodi yn erbyn arferion gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio.

C

Rhoi dull strwythuredig newydd o ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid ar waith er mwyn helpu ymgeiswyr i lywio'r broses ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig, ac i sicrhau bod defnyddwyr a gweithredwyr busnesau bwyd yn gwybod am newid rheoleiddiol.

D

Gwneud argymhellion i weinidogion ynghylch newidiadau mewn deddfwriaeth i ddileu anawsterau sy'n deillio o gyfraith yr UE a ddargedwir a chyflymu'r broses.

E

Datblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn achos organebau sydd wedi bod yn destun golygu genomau (Bridio Manwl).

F


Parhau i wella'r broses dadansoddi risg, gan ganolbwytio ar flaenoriaethu, rheoli llif gwaith a datrys problemau i leihau oedi a chryfhau gweithio mewn partneriaeth mewn cyd-destun tair a phedair gwlaid.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goesgyn

A Darparu'r Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig

Mae llif cyson o geisiadau wedi dod i law, ac ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym 438 o geisiadau ar wahanol gamau o'r gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig. Symudwyd ymlaen â 118 o geisiadau yn 2022/23. Cawsom ystod eang o geisiadau, a oedd yn ein helpu i ddeall y llif o geisiadau posib a ddaw i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd llif y cynhyrchion i'r system yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gydag amrywiadau yn nifer y ceisiadau'n dibynnu ar gylchoedd masnachol a phryd y bydd angen adnewyddu cynhyrchion penodol.

Ffigur 19: Sefyllfa diwedd blwyddyn ers lansio'r gwasanaeth ym mis Ionawr 2021 (Cymru, Lloegr a'r Alban)⁶



Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn fwy effeithiol, gwnaethom ddechrau creu System Rheoli Achosion newydd, a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer ceisiadau newydd a gyflwynir i'r ASB. Bwriedir lansio'r System Rheoli Achosion yn haf 2023 a disgwyllir iddi leihau'n sylweddol nifer y ceisiadau anghyflawn sy'n dod i law. Gwnaethom brofi'r system newydd gyda defnyddwyr allanol a defnyddio eu hadborth i ddatblygu'r system. Gwnaethom adolygu ein canllawiau i ddarpar ymgeiswyr newydd a'u gwella er mwyn lleihau nifer y ceisiadau anghyflawn a gyflwynir i'r gwasanaeth. Yn 2022/23, cytunodd gweinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i awdurdodi 31 o gynhyrchion yn unol â'n hargymhellion a oedd yn cynnwys:



Cynhyrchion organebau a addaswyd yn enetig



Bwydydd newydd



Ychwanegion bwyd anifeiliaid



Cyflasynnau mwg

Cyn rhoi cyngor i weinidogion, aeth pob cais drwy broses ymgynghori cyhoeddus i sicrhau tryloywder wrth i ni lunio polisiau. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriadau sydd i'w weld ar [wefan yr ASB](#). Rhoddwyd gwybod i Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon am yr awdurdodiadau. Roedd ein cynnydd cyson gydag awdurdodiadau wedi ein galluogi i gwblhau 34 o geisiadau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

⁶ Nid oedd blwyddyn 1 y gwasanaeth yn nodweddiadol, gyda 60 o geisiadau wedi'u hetifeddu o system yr UE a nifer mawr o geisiadau ar gyfer cynhyrchion canabidiol i fodloni ein dyddiad cau rheoleiddio, sef 31 Mawrth 2021.

B Adolygiad allanol o'r Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig

Un o'n meysydd blaenoriaeth ar gyfer diwygio, lle bu ymrwymiad cyhoeddus gan y Llywodraeth, oedd adolygu'r Fframwaith Rheoleiddio Bwydydd Newydd (yn seiliedig ar Ddeddfwriaeth yr UE a Ddargedwir ar Fwydydd Newydd). Dechreuodd yr adolygiad allanol o'r Fframwaith Bwydydd Newydd ym mis Ionawr 2023 ac fe'i cwblhawyd ym mis Ebrill 2023. Darparodd werthusiad beirniadol o'r Fframwaith Rheoleiddio Bwydydd Newydd, a nododd sawl model i roi diwygiadau posib ar waith yn y dyfodol. Ystyriodd y dirwedd reoleiddiol genedlaethol a rhyngladol, a'r manteision, cyfyngiadau, risgiau, cyfleoedd, a'r goblygiadau o ran adnoddau ac amser, yn ogystal â'r effaith ar ddiwydiant. Cyhoeddwyd crynodeb gweithredol o'r adroddiad terfynol ar 7 Mehefin 2023. Bydd yr opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad terfynol yn cefnogi ffordd o feddwl fewnol yr ASB ar gyfer y posibilrwydd o ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer bwydydd newydd.

Cynhelir gwerthusiad mewnol o'r opsiynau ar gyfer diwygio yn gynnar yn 2023/24. Ein blaenoriaeth yw canolbwytio ar y diwygiadau hynny y gellir eu cyflawni fel rhan o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

C Dull ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid

Sefydlodd yr ASB fframwaith i ddiffinio ei dull o ymgysylltu'n strategol mewn perthynas â chynhyrchion rheoleiddiedig er mwyn rhoi mwy o eglurder a chysondeb wrth ymgysylltu â'i rhanddeiliaid. Mae gwaith y Tîm Ymgysylltu a Deallusrwydd Rheoleiddiol newydd yn cynnwys ymgysylltu'n effeithiol ac mewn modd rheoledig â rhanddeiliaid a'r rheiny sy'n cyflwyno cais am gynnyrch rheoleiddiedig drwy reolwyr cyfrifon penodedig. Ers mis Ionawr 2023, mae'r tîm wedi darparu cyngor ac offer ymgysylltu er mwyn i'r ASB allu rheoli'i pherthnasoeedd â rhanddeiliaid yn fwy effeithiol. Mae'r tîm wedi cefnogi timau polisi a'r rheiny sy'n gwneud cais am gynnyrch rheoleiddiedig cyn iddynt ei gyflwyno trwy system rheoli achosion yr ASB, a/neu wedi cynnig cyngor pan fo angen ystyried technoleg newydd a'r dystiolaeth a'r data sydd eu hangen er mwyn cyflwyno cais cryf. Mae rheolwyr cyfrifon yn bwynt cyswllt ar gyfer cyfathrebu uniongyrchol, a hynny er mwyn hwyluso a meithrin dulliau ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid yr ASB.

Mae darparu a rheoli gwasanaeth sy'n ymdrin â pherthnasau â rhanddeiliaid yn galluogi'r ASB i ddatblygu a deall anghenion rhanddeiliaid, rhagweld yr angen am ddeunyddiau cymorth, olrhain ei ymgysylltiad a chasglu mewnwelediad i lywio gweithgareddau sganio'r gorwel, arloesi bwyd a/neu ddiwygio rheoleiddiol.

D Cyngori ar ddeddfwriaeth a chyfraith yr UE a ddargedwir (REUL)

Cyflwynwyd Bil REUL (Dirymu a Diwygio) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022. Pwrpas y Bil (fel y'i drafftwyd yn wreiddiol) oedd 'machlud' pob REUL erbyn 31 Rhagfyr 2023, a fyddai i bob pwrpas wedi dileu holl REUL o ddeddfwriaeth y DU oni bai bod camau'n cael eu cymryd i'w cadw drwy osod offerynnau statudol i gadw, diwygio neu ailddatgan. Cynhalwyd ymarfer cwmpasu i nodi REUL sy'n eiddo i'r ASB, gan nodi 114 o ddarnau o REUL heb gynnwys rheoliadau trydyddol a

rheoliadau diwygio eraill sy'n gymwys ledled Prydain Fawr, gan gynnwys 37 a 28 sy'n benodol i Gymru a Lloegr yn y drefn honno. Nodwyd 46 o ddarnau eraill fel rhai sy'n benodol i Ogledd Iwerddon. Gwnaethom sefydlu raglen flaenoriaeth i sicrhau y byddai'r mwyafri helaeth o REUL yn cael ei chadw er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fylchau yn y fframwaith rheoleiddio pan fyddai'r cymal machlud yn cael ei gymhwys. Gwnaethom gwblhau gwaith brysbenau cychwynnol mewn perthynas â REUL oedd yn cynnwys cynnal asesiad o bob darn unigol o ddeddfwriaeth, yn ogystal a chynnal dadansoddiad i sicrhau bod y corff cyfreithiol yn parhau i weithio'n effeithiol yn ei gyfarwydd. Drwy ddadansoddi polisi, gwaith paratoi a drafftio cyfreithiol, gwnaethom weithio gydag adrannau eraill y llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig i gynllunio a chyflwyno raglen o Offerynnau Statudol a fyddai'n cyflawni ein hargymhellion drwy law gweinidogion.

Gwnaethom ystyried y cyfleoedd a gyflwynir gan y Bil i symleiddio'r broses ar gyfer cymeradwyo cynhyrchion rheoleiddiedig, gan osod y sylfaen ar gyfer meddwl yn ehangach am ddiwygiadau. Gwnaed ymdrech sylweddol ledled yr ASB i gyflawni'r raglen waith hon.

E Bridio manwl

Mae Bridio Manwl yn dechneg sy'n caniatáu ychwanegu, dileu neu amnewid darnau o DNA mewn planhigion neu anifeiliaid, gan adlewyrchu, yn aml, newidiadau sy'n digwydd trwy fridio traddodiadol, ond mewn ffordd gyflymach. Mae hyn yn wahanol i broses Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMOs), lle mae'r DNA yn cael ei newid trwy fewnosod genynnau o rywogaeth anghysylltiedig i mewn i rywogaeth arall. Bu'r ASB a Defra yn gweithio mewn partneriaeth ar gyflwyno'r Bil Technolegau Genetig (Bridio Manwl) i San Steffan, gan gael Cydsyniad Brenhinol ar 23 Mawrth 2023. Roedd y Bil yn ceisio cael gwared ar gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir o Organebau Bridio Manwl (PBOs), fel golygu genynnau o'r gofynion rheoleiddio sy'n gymwys i farchnata GMOs neu eu rhyddhau i'r amgylchedd. Gweithiodd yr ASB hefyd i ddatblygu fframwaith cymesur ar gyfer rheoleiddio PBOs. Bydd y fframwaith yn sail ar gyfer awdurdodi PBOs a'u rhoi ar y farchnad fel bwyd a bwyd anifeiliaid yn Lloegr. Mae datblygiadau polisi yn mynd rhagddo ar gyfer:

- **Y broses awdurdodi a gwneud cais** – Datblygu, creu a gweithredu proses gwbl weithredol ar gyfer cael ceisiadau, cwblhau asesiadau, a gwneud argymhellion i weinidogion ar gyfer awdurdodi PBOs i'w defnyddio mewn bwyd a/neu fwyd anifeiliaid.
- **Creu cofrestr gyhoeddus o PBOs awdurdodedig i'w defnyddio mewn** bwyd a bwyd anifeiliaid.
- **Cynigion ar gyfer trefniadau gorfodi** i sicrhau bod bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir drwy ddulliau bridio manwl yn cael eu harchwilio a'u holrhain; a bod y rheoliadau yn cael eu gweinyddu a'u gorfodi.

Gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y raglen waith i gael eu mewnbwn, a hynny ar draws cyfres o weithdai yn ystod haf 2022, i drafod datblygu'r polisi bridio manwl, ac yn fwyaf diweddar, drwy gyfres o weithdai i drafod gwybodaeth i ddefnyddwyr ac olrheiniadwyedd yn Ionawr 2023. Yn y cyfamser, comisiynodd yr ASB ymchwil ddiwedd 2022 [i ddéall canfyddiadau defnyddwyr yngylch PBOs](#). Cyhoeddwyd yr ymchwil hon ym mis Mawrth 2023. Er bod y ddeddf hon ond yn gymwys i Loegr, mae'r Tîm Bridio Manwl wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym mhob un o'r pedair gwlad ar ddatblygu'r drefn newydd.

F**Gwella'r Broses Dadansoddi Risg**


Parhaodd yr ASB i gynnal y broses dadansoddi risg bwyd a bwyd anifeiliaid, ac ymgymmerodd â gwaith i ddatblygu, mireinio a gwella'r broses ymhellach ar ôl iddi fod ar waith am flyyddyn.

Mae gweithrediad parhaus strwythurau trawslywodraethol ar gyfer rhoi sicrwydd ar flaenoriaethu, gwaith sy'n mynd drwy'r system, a datblygu cyngor ar reoli risg wedi cefnogi gwaith dadansoddi risg, gan sicrhau bod y gwaith yn parhau i gael ei gychwyn, ei gomisiynu, a'i symud ymlaen drwy asesiad risg, hyd nes bod y broses wedi'i chwblhau. Mae Ffigur 20 yn rhoi mwy o wybodaeth am waith sydd wedi'i ychwanegu at y gofrestr gyhoeddus o faterion dadansoddi risg ac sydd wedi symud ymlaen drwy'r broses.

Mae'r ffocws y mae ein strwythurau trawslywodraethol wedi parhau i'w roi i ddulliau dadansoddi risg tair a phedair gwlaid wedi cyfrannu at effeithiolwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban ac adrannau allweddol eraill y llywodraeth. Roedd y broses yn gweithredu ar sail pedair gwlaid ac ni ysgogwyd unrhyw ddulliau ffurfiol i ddatrys anghydfod ar unrhyw fater dadansoddi risg unigol yn ystod y cyfnod.

Cafodd dangosyddion perfformiad eu datblygu a'u creu hefyd ar sail pedair gwlaid a chawsant eu cyflwyno i Fwrdd yr ASB bob chwarter, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i fod yn agored drwy roi gwybodaeth i randdeiliaid am waith dadansoddi risg, gan gynnwys unrhyw faterion a allai fod o ddiddordeb arbennig i'r Bwrdd.

Ffigur 20: Materion dadansoddi risg wedi'u hychwanegu at y gofrestr gyhoeddus (Cymru, Lloegr a'r Alban)



Roedd materion dadansoddi risg sy'n cyrraedd y cam asesiad risg yn parhau i gael eu cyhoeddi ar gofrestr gyhoeddus yn unol â pholisi'r ASB o ran bod yn agored. Er bod hyn fel arfer yn digwydd bob chwarter, oherwydd gwiriadau llywodraethu mewnol, gall hyn fod ychydig yn ddiweddarach. Yn 2022/23 cynyddodd nifer y materion a gofnodwyd yn y gofrestr i 22 o 7 yn 2021/22, wrth i asesiadau risg barhau i gael eu comisiynu er mwyn llywio cyngor rheoli risg, a hynny'n unol â'r broses dadansoddi risg. Cynyddodd nifer y materion cyflawn i bump o un yn 2021/22. Cafodd meysydd eu hychwanegu at y gofrestr i allu dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol yn ystod camau olaf y broses, gan gynnwys y dystiolaeth, yr ymgynghoriadau, a'r argymhelliaid terfynol.

Datblygu'r system rheoleiddio bwyd**6****Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau**

Y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yw rhaglen newid rheoleiddiol yr ASB. Mewn sector bwyd sy'n datblygu'n gyflym, rydym yn gwybod bod angen i ni reoleiddio mewn ffordd well i wneud yn siŵr bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Drwy gydol 2022/23, gweithiodd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau tuag at ddatblygu set o ddulliau rheoleiddiol gwell, gan geisio:

- **Ei gwneud yn haws i fusnesau ddarparu bwyd diogel y gellir ymddiried ynddo i ddefnyddwyr.**
- **Targedu adnoddau rheoleiddio** at y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf.
- **Gwella cydymffurfiaeth ar draws y system** trwy weithio gydag eraill a thrwyddynt, gan gynnwys partneriaid rheoleiddio a busnesau dylanwadol.

Adlewyrchwyd hyn yn y tair ffrwd waith.

- 1. Dulliau rheoleiddio ar lefel mentrau** – dylunio a phrofi modelau rheoleiddio newydd ar gyfer set o fusnesau mawr sy'n cydymffurfio â rheoliadau, sy'n chwarae rhan allweddol yn y gadwyn fwyd.
- 2. Sicrwydd gwerthiannau bwyd ar-lein** – archwilio pa fath o ddulliau rheoleiddio oedd fwyaf addas ar gyfer gwahanol fusnesau bwyd ar-lein.
- 3. Rheoleiddio cymesur a thargededig ar gyfer busnesau bwyd** – gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn targedu eu hadnoddau at y busnesau oedd ei angen fwyaf.

Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn penderfyniad yr ASB i droi'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yn Dîm Moderneiddio Gweithrediadau (gweler [Amcan 7](#) am fwy o wybodaeth), cafodd rhan o'r hen Raglen Trawsnewid Gweithredol ei huno â'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau. O'r herwydd, cafodd cwmpas y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau ei ddiweddu i gymryd cyfrifoldeb dros ddiwygio'r rheolaethau swyddogol yn y tymor hwy i drawsnewid y sector cig, gwin a llaeth.

Pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

- A** Ochr yn ochr â phum partner mawr yn y sector manwerthwr a'u Prif Awdurdodau, datblygodd yr ASB fodol(au) peilot i brofi cyfleoedd newydd ar gyfer dulliau rheoleiddio.
- B** Gwnaethom sbarduno newid trwy ddatblygu perthnasoedd adeiladol gydag agregwyr ar-lein i gychwyn a chynnal ymyriadau a oedd yn helpu busnesau bwyd i weithredu'n ddiogel ar-lein.
- C** Gwnaethom barhau â'n gwaith i adolygu'r model presennol ar gyfer awdurdodau lleol o ran cynnal rheolaethau hylendid bwyd a gweithgareddau cysylltiedig.
- D** Ar ôl i'r cynllun peilot ar gyfer y model safonau bwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ddod i ben, gwnaeth yr ASB werthuso a chynnal asesiad o'r gallu i gymhwys o'r model safonau bwyd newydd yn y dyfodol.
- E** Gwnaethom alinio gweithgarwch ar draws gwledydd drwy fwrrw ymlaen â chynnig y cynllun peilot safonau bwyd yng Nghymru.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goresgyn

A Treial ar gyfer manwerthwyr mawr



Yn ystod 2022/23, cwblhaodd yr ASB waith datblygu model rheoleiddio newydd posib ar gyfer set o fusnesau manwerthu mawr (archfarchnadoedd) a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau ac a oedd yn chwarae rôl bwysig yn y gadwyn fwyd

Creodd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau swyddogaeth rheoli perthynas newydd dros dro a oedd yn ymdrin ag ymgysylltu â'r manwerthwyr mawr. Trwyddi, gwnaethom barhau i feithrin ymddiriedaeth gyda'r busnesau hyn i sicrhau bod eu gwybodaeth yn cael ei diogelu drwy gydol y treial profi cysyniad. Bu'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn gweithio gyda phum busnes mawr yn y sector manwerthu (Asda, Morrisons, Sainsburys, Tesco a Waitrose) a'u Prif Awdurdodau.

Disgwylir i'r treial (ar gyfer hylendid bwyd ac yn Lloegr yn unig) bara 12 mis, gan ddechrau yn Chwarter 1 2023/24. Bydd yn cael ei gynnal o dan amodau 'blwch tywod' sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r model rheoleiddio presennol (sy'n parhau i fod ar waith fel arfer). Bydd treialu'r dull newydd yn y modd hwn yn ein galluogi i brofi'r fframwaith sicrwydd heb effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr. Gwnaeth y cyfathrebu gwerthfawr hwn â'r diwydiant a'r perthnasoedd a gafodd eu meithrin eleni gyfoethogi meysydd eraill o waith yn yr ASB. Roedd hyn yn cynnwys y gallu i gynhyrchu mewnwelediadau'n gyflym ar gyfer adolygiad yr ASB o opsiynau i fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd yn y cartref.

B Gwerthu bwyd ar-lein

Llwyfannau ar-lein trydydd parti yw agregwyr ar-lein a ddefnyddir i archebu a dosbarthu bwyd, fel Deliveroo, Just Eat ac Uber Eats. Datblygodd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau ein perthynas waith ag agregwyr gan alluogi'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau i adrodd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol ar faterion a heriau a nodwyd ynghylch y broses cynefino ar gyfer busnesau ar eu platfformau. Gwnaethom gynnydd da o ran cefnogi awdurdodau lleol, i'w gwneud mor hawdd â phosib i fusnesau bwyd ar-lein gyflawni eu rhwymedigaethau diogelwch bwyd drwy gydweithio ag agregwyr ac awdurdodau lleol. Cynhyrchodd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau ddogfen hyfforddi sy'n cael ei defnyddio gan dimau cynefino Deliveroo, Just Eat ac Uber Eats, ac mae'n helpu i dargedu adnoddau a lleihau beichiau ar awdurdodau lleol.



Drwy gydol 2022/23, bu'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn gweithio gyda Deliveroo, Just Eat ac Uber Eats ar eu Siarter Diogelwch Bwyd arfaethedig. Roedd hyn yn nodi ymrwymiad yr agregwyr i ddiogelwch bwyd, a'u parodrwydd i weithio gyda'r ASB i wella safonau diogelwch bwyd.

Ym mis Awst 2022, cytunodd yr ASB i'r prosiect ddatblygu mwy o fanylion am y pedwar prif ymrwymiad yn y Siarter Diogelwch Bwyd. Roedd hyn yn ysgogi newidiadau cadarnhaol mewn sicrwydd ar-lein a helpodd defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am fwyd a brynydd ar-lein.

C**Model gweithredu hylendid bwyd**

Mae timau bwyd awdurdodau lleol yn dilyn y Model Gweithredu Hylendid Bwyd (FHDM) pan fyddant yn rheoleiddio'r busnesau bwyd y maent yn gyfrifol amdanyst. Mae'r term hylendid bwyd yn ymwneud â thrin, paratoi a storio bwyd er mwyn osgoi salwch a gludir gan fwyd (er enghraifft, trwy factoria).

Yn 2022/23, cyflawnodd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau gerrig milltir y cytunwyd arnynt i lunio fframwaith lefel uchel a chynnig polisi manylach ar gyfer yr FHDM. Y nod oedd alinio'r FHDM, cyn belled ag y bo modd, â'r Model Gweithredu Safonau Bwyd diwygiedig. Cyflawnwyd hyn drwy ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol drwy weminarau, a chafodd y Model Gweithredu ei gyd-gynllunio â gweithgor awdurdodau lleol/yr ASB. Rydym wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach ar fanylion y cynnig drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid a phecyn ymgynghori. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi er mwyn llywio sut y bydd yr adolygiad FHDM yn cael ei ddatblygu.

D**Model safonau bwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon**

Mae timau bwyd awdurdodau lleol yn dilyn y Model Gweithredu Safonau Bwyd (FSDM) pan fyddant yn rheoleiddio'r busnesau bwyd y maent yn gyfrifol amdanyst. Mae'r term safonau bwyd yn ymwneud ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad, halogiad cemegol a hysbysebu bwyd.

Ar ôl i'r cynllun peilot ar gyfer y model safonau bwyd newydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ddod i ben, cynhaliodd yr ASB werthusiad terfynol ac asesiad o'r gallu i gymhwysor model. Darparodd y werthusiad dystiolaeth bod y model newydd yn fwy effeithiol o ran nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio a'i fod yn cefnogi ffordd o weithio sy'n cael ei harwain yn fwy gan ddeallusrwydd (*intelligence*) ac sy'n seiliedig ar risg. Dywedodd yr awdurdodau a gymerodd ran fod y model newydd yn hawdd ei ddeall, eu bod yn gwerthfawrogi cynwys deallusrwydd, a'i fod yn arwain at asesiad risg mwy cywir i allu targedu eu hadnoddau.

Cynhalwyd ymgynghoriad a barodd 12 wythnos rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023 ar newidiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (FLCoP), ac yn ei sgil, rhoeddwyd y FSDM newydd ar waith. Rhoddodd hyn gyfle i awdurdodau lleol, busnesau bwyd, undebau llafur a grwpiau yn y diwydiant roi adborth ar y dull newydd. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhalwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Daeth 35 o ymatebion i'r ymgynghoriadau i law. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gefnogol o'r model newydd a sut y byddai rheolaethau safonau bwyd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.



Cymeradwywyd y model newydd arfaethedig yn ffurfiol gan Fwrdd yr ASB yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023. Byddwn yn ceisio cytundeb gweinidogion er mwyn cyhoeddi'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd diwygiedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Lle ceir cytundeb, byddwn yn mynd ati i drosglwyddo awdurdodau lleol yn raddol i'r model newydd.

Wrth i'r model newydd fynd rhagddo, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol wrth iddynt drosglwyddo i'r dull newydd, gan gynnig cymorth ar newidiadau TG angenrheidiol a datblygu hyfforddiant a chanllawiau i sicrhau bod y model newydd yn cael ei gyflwyno'n effeithiol.



Datblygu cynigion ar gyfer cynlluniau peilot model safonau bwyd yng Nghymru

Ni chafodd y model safonau bwyd newydd ei dreialu yng Nghymru ar yr un pryd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond cafodd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am gynydd y cynlluniau peilot.

Yn dilyn mân newidiadau i'r Model Safonau Bwyd a thrafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru, yn Chwarter 4 2022/23 ceisiodd yr ASB gytundeb gweinidogol i gynnal cynllun peilot yng Nghymru, a chafwyd caniatâd i wneud hynny. Mae'r ASB yn bwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r cynlluniau peilot ar waith er mwyn iddynt gychwyn yn gynnar yn Chwarter 2 2023/24.

Datblygu'r system rheoleiddio bwyd**7****Y rhaglen Trawsnewid Gweithredol yn newid i'r rhaglen Moderneiddio Gweithredol**

Datblygodd y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol nifer o amcanion yngylch ymchwilio i dechnoleg newydd a'i chyflwyno i hwyluso dull mwy effeithiol ac effeithlon o gynnal Rheolaethau Swyddogol. Roedd hyn yn cynwys technoleg archwilio o bell a digideiddio gwasanaeth cymeradwyo'r ASB ar gyfer busnesau cig.

Cynhaliwyd gwaith darganfod ar wahaniaethau rheoleiddiol posib gyda'r UE, fel y gellid gweithredu rheolaethau mwy effeithlon ar gig a fwriadwyd yn unig ar gyfer y farchnad ddomestig yn hytrach na'i allforio i'r UE, tra bod yr un safonau diogelwch yn cael eu cynnal. Sefydlodd y gwaith darganfod fod mwyafrif helaeth y diwydiant cig yn dymuno cael un gyfundrefn ar gyfer rheolaethau swyddogol yn hytrach na gweithredu dwy gyfundrefn wahanol; un ar gyfer defnydd domestig ac un ar gyfer allforio. Roedd hyn oherwydd bod llawer o gig, a elwir y 'pumed chwarter', fel offal, yn cyrraedd yr UE yn y pen draw. At hyn, roedd yn annhebygol y byddai'r UE yn derbyn bod gan y DU ddigon o olrheiniadwyedd i sicrhau bod cig y bwriedir ei allforio yn cael ei gadw ar wahân i gig a fwriedir at ddefnydd domestig yn unig. Daethom i'r casgliad felly, o ystyried dibyniaeth y diwydiant cig ar allforio i'r UE, nad nawr oedd yr amser iawn i fwrw ymlaen â'r diwygiad hwn.

Arweiniodd y penderfyniad hwn at gynnal gwaith cwmpasu sylweddol ar y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol, gyda newid trawsnewidiol a oedd yn cynwys newid polisi a deddfwriaeth posib i alinio â gwaith tebyg yn y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau, tra bo mentrau moderneiddio y gellir eu cyflawni o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol yn cael eu datblygu gan Dîm Moderneiddio Gweithredol newydd. Canolbwytiodd y Tîm Moderneiddio Gweithredol ar welliant parhaus, gwell defnydd o dechnoleg, gwella a symleiddio cynhyrchion a phrosesau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, lleihau gorbenion gweinyddol, a'n galluogi i weithio'n agos gyda thimau gwella eraill.

Pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodlon ein hamcan yn 2022/23:

- A** **Cyflwynwyd model grwpio risgiau cychwynnol** a oedd yn llywio'r gwaith o dargedu ymyriadau sicrwydd yn well.
- B** **Rhoddwyd gwasanaethau digidol newydd ar waith**, a arweiniodd at wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau, yn ogystal â phrofiad y defnyddiwr.
- C** **Cyflwynwyd gallu technegol a phrosesau newydd** ar gyfer archwilio o bell.
- D** **Archwiliwyd ymhellach i'r defnydd o ddeallusrwydd artifffisial** i gefnogi gweithgarwch arolygu.
- E** **Cwblhawyd proses ddarganfod lawn** i ddeall yn well risgiau, manteision a goblygiadau "system ddeuol" o reolaethau swyddogol ar gyfer cynhyrchu ac allforio domestig.
- F** **Datblygwyd prawf cysyniad ar gyfer asesu diwylliant diogelwch bwyd** i lywio dulliau dadansoddi risg yn y dyfodol.
- G** **Cynhaliwyd cynlluniau peilot i wella'r offer a'r systemau a ddefnyddir i gasglu data arolygu a gwybodaeth am y gadwyn fwyd.**

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goesgyn

A Cyflwynwyd model grwpio risgiau

Gwnaethom ddatblygu a threialu fersiwn gychwynnol o'r adnodd grwpio ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd, a gynlluniwyd i asesu cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd yn y sector cig o ran risg. Darparodd y cynnal peilot cychwynnol hwn adborth defnyddiol gan y diwydiant, a ddefnyddiwyd i bennu'r gwaith datblygu parhaus. Roedd y diwydiant yn teimlo ei bod yn anodd deall sut roedd eu sgôr yn cael ei chyfrifo, gan fod y broses yn defnyddio deallusrwydd artifisial.

Mae'r gwaith ail-ddylunio hwn yn mynd rhagddo ac yn canolbwntio ar ddatblygu model risg cywir, y gellir ei hesbonio, a fydd yn cael ei ddefnyddio i bennu gweithgarwch gweithredol o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

B Rhoddwyd gwasanaethau digidol newydd ar waith



Rydym wedi darparu gwasanaeth cymeradwyo digidol newydd ar gyfer busnesau yn y sector cig. Roedd y system ddigidol newydd hon yn caniatáu i geisiadau am gymeradwyaeth gael eu gwneud a'u datblygu ar-lein, gan ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr busnesau bwyd a staff yr ASB gyrchu, rhannu a phrosesu gwybodaeth mewn perthynas â cheisiadau am gymeradwyaeth.

Cyflwynwyd y gwasanaeth digidol newydd ym mis Mai 2022, ac roedd yn fwy effeithlon, cywir a diogel o gymharu â'r broses glerigol flaenorol. Mae gwerthusiad yn mynd rhagddo i gael mewnwelediad pellach a deall unrhyw ffyrdd eraill o ddefnyddio'r dechnoleg hon.

Dechreuwyd ar y gwaith o nodi adnodd digidol addas i wella effeithlonrwydd archwiliadau ac arolygiadau drwy gyflwyno gallu digidol i gasglu tystiolaeth mewn safleoedd, cael gafael ar wybodaeth berthnasol a'i dadansoddi er mwyn gwneud penderfyniadau a chynhyrchu a rhannu adroddiadau. Roedd yn heriol dod o hyd i un ateb a fyddai'n gweithio ar draws nifer o brosesau busnesau ansafonol a chanddynt wahanol anghenion. Mae prawf cysniad cychwynnol wrthi'n cael ei ddatblygu.

C Cyflwynwyd gallu technegol a phrosesau newydd ar gyfer archwilio o bell

Roedd technoleg o bell wedi ein galluogi i barhau â'n gwaith archwilio yn ystod COVID-19. Aeth yr ASB ar drywydd y dechnoleg hon i wella'r opsiynau sydd ar gael i gydweithwyr er mwyn iddynt allu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ran cost. Gwnaethom gyflwyno gallu o bell ar gyfer archwiliwyr milfeddygol, gan adael i rywfaint o weithgarwch archwilio gael ei wneud o bell, a hynny trwy gael gafael ar ddogfennau, ffotograffau, fideos a chlipiau sain heb fod ar y safle. Fe'i defnyddiwyd yn bennaf ar gyfer archwiliadau rhannol i fynd ar drywydd unrhyw bryderon a godwyd yn ystod ymweliad cychwynnol. Mae'r dull hwn yn helpu i wneud defnydd gwell o amser archwiliwyr a gweithredwyr busnesau bwyd yn ogystal â lleihau costau teithio ac ôl troed carbon.

Roedd heriau o ran cyflwyno'r dechnoleg newydd, sef nad oedd archwiliwyr a gweithredwyr busnesau bwyd yn barod i ddefnyddio system anghyfarwydd, a phroblemau wrth gysylltu â'r rhyngrwyd mewn rhai sefydliadau. Diweddarwyd y llawlyfr Rheolaethau Swyddogol i ddarparu cyfarwyddiadau ar y gofyniad i ddefnyddio technoleg o bell. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys sut i ddatrys problemau cysylltu, i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddosbarthu'r dechnoleg o bell hon ar draws prosesau gweithredol eraill fel cymeradwyaethau ac archwiliadau.

D

Deallusrwydd artiffisial i gefnogi gweithgarwch arolygu

Cynhaliwyd gwaith cychwynnol i adolygu'r potensial ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial a chamera teledu cylch cyfng (CCTV) o fewn Gweithrediadau Maes a'r diwydiant, yn enwedig mewn perthynas â lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig. Ni ddangosodd trafodaethau rhwng cyflenwyr technoleg a diwydiant awydd cryf i fuddsoddi mewn technoleg o'r fath ar hyn o bryd, a hynny oherwydd costau a diffyg cymhelliant buddsoddi. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, cafodd y gwaith hwn ei ddad-flaenoriaethu. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd technoleg deallusrwydd artiffisial yn chwarae rhan yn y maes rheoleiddio hwn yn y dyfodol, a dylai fod yn rhan o'n glasbrint ar gyfer y dyfodol.

E

Gwaith darganfod ar gyfer "system ddeuol" o Reolaethau Swyddogol

Cynhaliwyd darn pwysig o waith i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid (busnesau, cyrff cynrychioliadol, defnyddwyr ac adrannau'r llywodraeth) i archwilio goblygiadau gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio sy'n berthnasol i fusnesau sydd ond yn cyflenwi cig i farchnad ddomestig Prydain Fawr. Roedd hyn yn cynnwys archwilio sut yr effeithiodd newidiadau yn y gofynion cyfreithiol a osodwyd gan yr UE ar y diwydiant, yn enwedig ar fasnachu. Roedd y gwaith yn dangos bod manteision clir i gyflwyno model rheoleiddio diwygiedig ar gyfer marchnad ddomestig yng Nghymru a Lloegr, fel adnabod risg yn well a defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

Fodd bynnag, tynnodd sylw at risgiau o ran gallu busnesau bwyd i fasnachu'n rhyngwladol, costau uwch i fusnesau yn sgil yr angen am olrheiniadwyedd gwell, a hyder defnyddwyr.

Ym mis Rhagfyr 2022, adolygodd Bwrdd yr ASB bapur [yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Trawsnewid Gweithredol a chyngori ar y dull gweithredu parhaus](#).

Roedd y Bwrdd yn cytuno â'r argymhelliaid i arafu gwaith pellach ar newid deddfwriaethol ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol (a'r gwahaniaethau rheoleiddiol o ganlyniad i hynny) er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu mewn ffordd ystyrlon, ochr yn ochr â newidiadau polisi a deddfwriaethol ehangach. Bydd gweithgarwch parhaus i wneud newidiadau y gellir ei symud ymlaen o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol yn cael ei arwain gan y Tîm Moderneiddio Gweithredol newydd.

F

Datblygwyd prawf cysyniad ar gyfer asesu diwylliant diogelwch bwyd

O dan y rhaglen Trawsnewid Gweithredol, cynlluniwyd darganfyddiad i asesu manteision cyflwyno adnodd hunanasesu ar-lein i weithredwyr busnesau bwyd asesu a oedd eu diwylliant sefydliadol yn gyson ag arferion diogelwch bwyd da. Nodwyd y fenter hon yn dilyn cyfres o drafodaethau gyda rheoleiddwyr diogelwch bwyd yn Awstralia ar hybu diogelwch bwyd a sut y gellid ei ymgorffori ym Model Gweithredu'r Dyfodol gan eu bod wedi gweithredu adnodd tebyg yn llwyddiannus i gefnogi gweithredwyr busnesau bwyd. Mae'r fenter wedi'i gohirio ar ôl i'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol ddod i ben, gan ailflaenoriaethu gwaith o dan Foderneiddio Gweithredol i ganolbwytio ar well defnydd o dechnoleg a data, gwella a symleiddio prosesau gweithredol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a lleihau gorbenion gweinyddol.

G

Dulliau gwell o gasglu data arolygu a gwybodaeth am y gadwyn fwyd

Cynhaliwyd y gwaith darganfod digidol cychwynnol 'Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd, Casglu a Chyfathrebu Canlyniadau Arolygiad' yn ystod 2022/23. Roedd y cynhyrchion a ddefnyddiwyd yn amrywio o bapur a phensil a byrddau gwyn, i offer digidol, ac mewn rhai achosion roedd angen eu trin ddwywaith, a arweiniodd at anghysondebau a chofnodi data anghywir.

Gweithiodd y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol ar brawf cysyniad cychwynnol i ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno dyfeisiau casglu data digidol ar gyfer arolygwyr hylendid cig, i drosglwyddo data o'r dyfeisiau hyn i systemau etifeddol (IRIS2) ac i integreiddio systemau gweithredwyr busnesau bwyd ag IRIS2. IRIS2 yw'r ystorfa ar gyfer data gweithrediadau maes, ac mae'r cais yn eiddo i'r ASB, sydd hefyd yn ei reoli. Mae'r adroddiadau o'r ymarfer cychwynnol hwn yn yr arfaeth, a byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r camau nesaf i'w cynnwys yng nghynllun gwaith y Tîm Moderneiddio Gweithredol ar gyfer 2023/24. **Mae'r gweithgarwch moderneiddio digidol hwn wedi bod yn mynd rhagddo ochr yn ochr â gweithgarwch parhaus i wella er mwyn mynd i'r afael â bylchau presennol a gwella cydymffurfiaeth casglu data o fewn y broses bresennol.**

Datblygu ein galluogrwydd a'n gallu ein hunain

Beth mae 'datblygu ein galluogrwydd a'n gallu ein hunain' yn ei olygu?

Mae gwaith yr ASB yn dibynnu ar bobl dalentog, prosesau a'r seilwaith ategol. Mewn byd sy'n newid yn gyson, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod prosesau hanfodol yn addas i'r diben, yn hyblyg ac yn symw i'w defnyddio. Wrth i gwmpas gofynion ein staff gynyddu, rydym am sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddarparu'r gwaith o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd yn dibynnu ar y sefydliad i'w gyflawni.

Y llynedd, cyhoeddodd yr ASB strategaeth newydd a gafodd ei hymgorffori ar draws yr amcanion corfforaethol i gefnogi cyflawniad strategol. Roedd hyn yn cynnwys llinyn newydd o waith, sef cefnogi iechyd a chynaliadwyedd yn y system fwyd. Cyhoeddodd yr ASB Gynllun Pobl newydd hefyd sy'n disgrifio sut yr ydym yn bwriadu darparu'r cymorth hwnnw. Yn sail i hyn oll, bu esblygiad i ddull gweithredu'r ASB, gan sicrhau bod yr adnoddau a'r sgiliau cywir ar gael i wreiddio a pharhau i gyflawni Cenhadaeth yr ASB.

Dyma'r amcanion y byddwn yn canolbwytio arnynt yn yr adrann hon:

8

Datblygu galluogrwydd, systemau a phrosesau'r ASB i gyflawni ein strategaeth newydd.

Datblygu ein galluogrwydd a'n gallu ein hunain

8

Datblygu galluogrwydd, systemau a phrosesau'r ASB i gyflawni ein strategaeth newydd

Roedd yr amcan hwn yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau a gynhaliwyd gan yr ASB i wella ei gallu, ei systemau a'i phrosesau i gyflawni'r strategaeth. Roedd yn cynnwys datblygu Cynllun Pobl, a oedd yn nodi sut roedd yr ASB yn bwriadu gwella fel cyflogwr a'r manteision. Parhaodd yr ASB i ddatblygu cynllun corfforaethol tair blynedd, a oedd yn cefnogi golwg hirach ar gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth yr ASB. Dechreuodd gwaith hefyd i roi un system newydd ar waith yn lle'r hen systemau Adnoddau Dynol a Chyllid. Yr enw a roddwyd ar y gwaith hwn oedd y rhaglen Connect.

Y pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau ein bod wedi bodloni ein hamcan yn 2022/23:

A

Datblygwyd a chyflawnwyd 'Ein Cynllun Pobl 2023-26', sy'n cefnogi ein pobl i gyflawni Strategaeth yr ASB drwy'r themâu pobl strategol; profiad rhagorol i weithwyr, cynyddu galluogrwydd i'r eithaf ac adeiladu sefydliad sy'n galluogi ei staff.

Dyma rywfaint o'r gwaith a gyflawnwyd fel rhan o'r Cynllun Pobl:



Moderneiddio systemau a phrosesau trwy ein rhaglen Connect.



Parhau i gasglu data i ddeall a gwella dulliau **ymgysylltu â'n staff**.



Cynnal a gwella **Ein Ffyrdd o Weithio (OWOW)** i gefnogi staff o bob lleoliad daearyddol.



Monitro a hyrwyddo **amrywiaeth a chynhwysiant** ar gyfer ein holl staff.

B

Llywio gwaith yr ASB i gefnogi **iechyd a chynaliadwyedd yn y system fwyd**, ar y cyd ag eraill, ac ymgorffori meysydd gwaith newydd.

Llwyddiannau a gyflawnwyd a heriau rydym wedi'u goresgyn

A

Datblygu a chyflawni 'Ein Cynllun Pobl 2023-26'

Cyhoeddwyd y Cynllun Pobl yng ngwanwyn 2023. Roedd y cynllun yn cyd-fynd â'n strategaeth a'n cynllun corfforaethol tair blynedd, gan ddangos sut y byddai'r ASB yn gwella fel cyflogwr, gan sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymateb heriau'r dyfodol. I gefnogi datblygiad y cynllun, gwnaethom ymgynghori'n eang a chynnwys tystiolaeth a gafwyd o ymchwiliad diwylliant 2021, Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, rhwydweithiau staff, gweithgareddau'r ASB tuag at adnewyddu ein gwerthoedd, diwrnodau Ymgysylltu a Datblygu Rhanbarthol ar gyfer Gweithrediadau Maes a gweithdai arweinyddiaeth. Nododd yr ASB dair thema a gafodd eu cynnwys yn y Cynllun Pobl:

- **Profiad rhagorol i weithwyr**, gyda gwerthoedd ASPIRE newydd, adolygiad o gyflog a buddion, ffocws parhaus ar les yn y gwaith ac ymrwymiad i gadw a pharhau i adeiladu ar ein cryfderau diwylliannol.
- **Manteisio i'r eithaf ar alluoedd**, gan feithrin ein cryfderau presennol wrth i ni ddatblygu sgiliau allweddol a chymhwysedd proffesiynol ar gyfer y dyfodol. Sicrhau bod cefndiroedd amrywiol a nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin fel rhywbeth a all helpu i wella prosesau llunio polisiau a darparu gwasanaethau, a sicrhau safon fwy cyson o ddulliau rheoli ar draws y sefydliad.
- **Bod yn sefydliad sy'n galluogi** lle mae ein hystwythder a'n heffaith yn cael eu cefnogi gan seilwaith effeithiol, trefniadau sefydliadol a phrosesau fel ein rhaglen Connect a blaenorriaethu parhaus trwyndl.



Systemau a phrosesau wedi'u moderneiddio

Fel rhan o uchelgais yr ASB i ddatblygu systemau a phrosesau, sefydlwyd y rhaglen Connect. Aethpwyd ati i gyflwyno un system newydd i gefnogi prosesau cyllid, cyflogres ac AD, yn lle'r systemau etifeddol a oedd ar waith. Roedd cam un y rhaglen yn cynnwys tri amcan i'w cyflawni erbyn 31 Hydref 2023.



Disodli'r systemau adnoddau dynol, y gyflogres a chyllid etifeddol gyda system fodern, effeithlon, sy'n byw ar y cwmwl.



Gwella profiad y defnyddiwr ar draws gwasanaethau AD, cyllid a'r gyflogres trwy alluogi hunanwasanaeth, ac awtomeiddio.



Mabwysiadu'r prosesau y mae'r cynnrych newydd yn eu darparu a theilwra'r system i gyd-fynd â ffyrdd presennol yr ASB o weithio fel y nodir yn Strategaeth Cydwlasanaethau'r Llywodraeth.

Penderfynodd yr ASB lansio'r system Adnoddau Dynol, Cyllid a Chyflogres yn ein cam un newydd. Cynhaliwyd ymarfer tendro i ddewis partner cynnrych a gweithredu. Ers croesawu'r partner ym mis Hydref 2022, mae'r ASB wedi adeiladu system yn nodi meisydd ar gyfer moderneiddio ac awtomeiddio ein prosesau, gan gynnal gwahanol fathau o brofion er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio yn unol â'n hanghenion a chreu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. Gwnaethom hefyd brynu meddalwedd a oedd yn galluogi i elfennau o'r profion gael eu hawtomeiddio, a wnaeth ryddhau capaciti ar gyfer profi prosesau sy'n unigryw i'r ASB. Unwaith y caiff ei lansio, ein nod yw defnyddio'r cynnrych hwn yn ehangach i sicrhau'r gwerth gorau am arian.



Ymgysylltu â staff

Ym mis Mawrth 2022, cytunodd ein huwch-dîm rheoli ar dair blaenorriaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r themâu yn ein hymchwiliad diwylliant, y data yn Arolwg Pobl 2021 ac adborth staff yn sgil trafodaethau Tîm Strategaeth yr ASB a gynhaliwyd yn Ch3 2021/22. Dyma'r blaenorriaethau:

- **Lles:** Mae effeithiau COVID-19 ac ymadael â'r UE, ochr yn ochr â blaenoriaethu a llywodraethu aneglur a gorddefnyddio ein cryfderau i ymroi i wneud gwahaniaeth yn golygu bod staff yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu.
- **Triniaeth deg a chynhwysiant:** Ar y cyfan, mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson eto ar gyfer yr holl staff, ac mae staff rheng flaen yn y gyfarwyddiaeth Gweithrediadau Maes yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio gan y sefydliad ehangach.
- **Pa mor weladwy yw'r arweinwyr a chyfeiriad yn y dyfodol:** Roedd sgoriau is yn yr Arolwg Pobl yn dangos bod angen gwella pa mor weladwy yw'r arweinyddiaeth a darparu eglurder o ran ein cyfeiriad yn y dyfodol. Yr hyn sy'n ein cymell yw bod yn glir ynghylch sut mae pawb yn cyfrannu at ein gweledigaeth.

Cytunodd ein huwch-dîm rheoli ar gyfres o gamau gweithredu corfforaethol i ddarparu momentwm o frig y sefydliad i wella ein blaenoriaethau pobl. Roedd y camau gweithredu a nodwyd bron i gyd yn weithgareddau neu brosesau a oedd eisoes yn bodoli ymhliith busnesau, neu a oedd eisoes wedi'u cynllunio, i amlygu'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hyn a'u heffaith ar bobl.

Mynd i'r afael â'n rhwystrau diwylliannol

Nododd ymchwiliad diwylliant 2021 fod gan lawer o staff rheng flaen mewn rolau gweithredol bryderon sy'n unigryw i'w maes busnes. Trwy gydol 2022/23, cymerodd yr ASB sawl cam i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Un maes a nodwyd oedd nad yw'r uwch-arweinwyr yn weladwy i staff Gweithredol. Cymerwyd camau i wella hyn, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn [Amcan 1](#).

Wrth ddatblygu'r Cynllun Pobl, gwnaethom ystyried rhwystrau diwylliannol eraill, fel teimladau o orlethu a mân achosion o ymyleiddio, er mwyn sicrhau bod cynnydd parhaus wrth fynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella.

Gwobrau staff

Mae dathlu cyfraniadau staff ar wahanol lefelau ar draws yr ASB yn allweddol i sicrhau triniaeth deg a chynhwysiant. Gwnaethom gynnal ein seremoni wobrwo staff ar 5 Ebrill 2022. Roedd gwobrau'n cydnabod amrywiaeth o lwyddiannau ar bob lefel yn yr ASB, o'r rhai sy'n mynd yr ail filltir i wneud ein sefydliad yn lle gwell i weithio, i'r gweithwyr rheng flaen sy'n sicrhau bod bwyd i'r genedl, ac i'r rhai sy'n gweithio er budd defnyddwyr a busnesau. Daeth dros 200 o enwebiadau i law ar draws y categorïau cyn y seremoni wobrwo yn Leeds a oedd wedi'i recordio ar gyfer y staff na allai fod yn bresennol. Gwyliodd dros 2,000 o bobl y digwyddiad (boed hynny'n fyw neu ar ôl y digwyddiad).

Diweddar ein gwerthoedd ASPIRE


Mae ein gwerthoedd yn diffinio'n benodol ein nodau o ran ein diwylliant. Maent yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall pwy ydym ni, sut rydym yn ymddwyn a sut rydym yn trin ein gilydd, ac felly maent yn allweddol i'n diwylliant sefydliadol. Gwnaethom adolygu ein gwerthoedd ASPIRE i sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â gweledigaeth ein sefydliad ar gyfer y dyfodol. Yn flaenorol, ein gwerthoedd oedd: Bod yn Atebol, Wedi ein Cefnogi, Proffesiynol, Arloesol, Gwydn, ac wedi ein Grymuso. Ar ôl yr adolygiad, ein gwerthoedd bellach yw Atebol, Cefnogol, Proffesiynol, Cynhwysol, Yn barod ac Yn esblygu. Gwnaethom gynnal gweithdai arweinyddiaeth, cyfarfodydd staff, cyfweliadau â rhanddeiliaid a

gweithgareddau ymgysylltu â staff rheng flaen i nodi'r ffordd orau o ddiweddar u'r gwerthoedd. Nododd ein hymchwil fod pobl yn parhau i gredu'n gryf yn ASPIRE a bod y gwerthoedd wedi'u gwreiddio'n dda gyda staff rheng flaen a staff nad ydynt ar y rheng flaen. Felly, rydym wedi cadw'r [gwerthoedd hynny sy'n sylfaen i'n cryfderau diwylliannol](#) ac rydym wedi diweddar u'r gwerthoedd a'r disgrifyddion ymddygiad yn y meysydd a fydd yn ein galluogi i lunio ein diwylliant yn gyfatebol ar gyfer y dyfodol.

Canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022

Mae'r Arolwg Pobl yn ffordd allweddol o ddangos safbwytiau pobl, ac a yw ein hymyriadau wedi cael yr effaith a fwriadwyd. Cwblhaodd 79% o'n staff yr arolwg yn 2022, sef cynnydd o 2% ers 2021 ac ymateb uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil o 4%. Yn 2022, 60% oedd sgôr ymgysylltu'r ASB, cynnydd o 1% ers 2021.

Ffigur 21: Sgôr ymgysylltu Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil yr ASB yn erbyn Mynegai Ymgysylltiad Gweithwyr y Gwasanaeth Sifil (EEI)



Ar draws y Gwasanaeth Sifil ehangach, bu gostyngiad yn y sgoriau thema ers 2021 yn y rhan fwyaf o adrannau. O'r naw thema graidd, roeddem yn falch bod sgôr tair thema wedi cynyddu, bod pedair wedi aros yn un fath a dim ond dwy thema gafodd sgôr is. 'Amcanion a Phwrpas Sefydliadol' oedd y thema a gafodd y cynnydd mwyaf yn y sgôr, gan gynyddu 3% ers 2021 i 88%, gan adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar amlygrwydd y tîm arweinyddiaeth a chyfeiriad yn y dyfodol. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y sgôr ar gyfer y thema Tâl a Buddiannau, a ostyngodd o 9%, i 31%.





Ein Ffyrrd o Weithio (OWOW)

Mae OWOW yn cyfeirio at bolisi gweithio hyblyg arobryn yr ASB, lle mae staff yn cael yr offer a'r dewis i gydbwys o bywyd cartref a gwaith yn y ffordd orau. Parhaodd yr ASB i adolygu ei chynllun OWOW drwy gydol 2022/23 i sicrhau ei bod yn parhau i gynnig safon aur o ran polisi staff.

Dosbarthiad daearyddol staff

O fis Ebrill 2022, roedd disgwyl i'r holl staff ddychwelyd i'w patrymau gweithio yn unol â'u dewis contract yn dilyn pandemig COVID-19. Atgoffwyd staff nad ydynt ar y rheng flaen fod modd bod yn hyblyg a newid eu contract hyd at ddwywaith mewn 12 mis. Dewisodd y rhan fwyaf o'r staff hyn gcontract gweithio gartref. Atgoffwyd staff unwaith eto am hyblygrwydd OWOW fel rhan o'r cymorth Costau Byw ehangach y soniwyd amdano yn hydref 2022.

Ffigur 22: Aelodau staff fel % fesul rhanbarth yn y DU**Ffigur 23: Dewis contract OWOW ar gyfer holl staff yr ASB fel canran**

* Ystyrir mai'r man gwaith yw swyddfa agosaf yr ASB, gyda gofyniad i weithio yno 40-60% o'r amser. Gellir gweithio gweddill yr amser o leoliadau eraill.

Er mwyn sicrhau bod ein gofod wedi'i deilwra i anghenion newidiol ein staff, gofynnodd yr ASB am gymeradwyaeth gweinidogol i barhau i gael swyddfa yn Llundain y tu hwnt i 2025. Byddai hyn yn cefnogi ein gweithlu presennol yn Llundain ac yn darparu canolbwyt i dimau sy'n gweithio o wahanol lefydd ddod ynghyd ac ymgysylltu ag adrannau allweddol eraill o'r llywodraeth a gweinidogion. Mae ein tîm Ystadau bellach yn gweithio gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i ddod o hyd i opsiynau addas yn ardal Llundain Fwyaf. Yn ogystal, mae ein tîm Ystadau yn adolygu ein gofynion ar draws ein holl swyddfeydd, er mwyn ceisio lleihau ein hól troed, gyda'r nod o sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o leoliadau ac arian.



Amrywiaeth a chynhwysiant

Ar gyfer 2022/23, gosododd yr ASB yr amcanion canlynol ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant:

- Denu a chadw gweithlu amrywiol.
- Hyrwyddo cynhwysiant ar draws ein cymuned arwain a rheoli.
- Datblygu a chefnogi rhwydweithiau staff.

Adolygydd yr amcanion hyn gan gyngor amrywiaeth yr ASB, ac mae'r rhwydweithiau amrywiaeth yn cefnogi cyflawniadau amrywiaeth a chynhwysiant.

Denu a chadw gweithlu amrywiol

Mae Ar Draws Ffiniau (*Beyond Boundaries*) yn rhaglen ddatblygu drawslywodraethol sydd wedi'i dylunio i helpu cyfranogwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r rhwydweithiau sydd eu hangen i gymryd cyfrifoldeb wrth adeiladu gyrfa fodhaol ac effeithiol yn y Gwasanaeth Sifil. Ariannodd yr ASB 20 o leoedd ychwanegol ar gyfer pobl o raddau lefel mynediad ar y rhaglen hon, gyda hanner ohonynt wedi'u neilltuo i bobl â nodweddion gwarchodedig a dangwynrychiolir.

Gwnaethom gomisiynu adolygiad reciwtio cynhwysol ac annibynnol ym mis Ebrill 2022, i asesu ein prosesau, ein polisiau a'n harferion reciwtio. Gwnaeth yr adolygiad gydnabod ein harferion da a'n polisiau, a chynigiodd argymhellion i'n helpu i barhau i wella. Yn seiliedig ar yr argymhellion hyn, comisynnodd yr ASB gwrs hyfforddi rhyngweithiol newydd ar gyfer rheolwyr sy'n reciwtio i wella sgiliau cyfweld a chefnogi ymgeiswyr i roi eu tystiolaeth orau.

Gwnaethom gynnig lle i ddu intern o'r Rhaglen Internaeth Cyfnewid Awtistiaeth, sy'n rhoi cyfreithiol i bobl ag awtistiaeth gael blas ar y gweithle ac ennill sgiliau gwerthfawr, wrth gefnogi darpar gyflogwyr gyda chyngor a mewnwelediad i annog reciwtio a chefnogi pobl ag awtistiaeth. Gwnaethom hefyd gynnig lle i dri intern trwy Raglen Internaeth yr Haf sy'n rhoi cyfreithiol i bobl o gefndiroedd amrywiol brofi gyrfa yn y Gwasanaeth Sifil.

Lansiwyd holiadur ar-lein newydd fel rhan o gyfweliadau ymadael staff ym mis Medi 2022, gan roi data i ni ar resymau staff dros adael a phrofiad gweithwyr. Roedd modd i ni ddadansoddi data'r holiaduron hyn fesul nodwedd warchodedig a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Ym mis Mawrth 2023, enillodd yr ASB yng Nghymru wobr 'Cyflogwr Chwarae Teg Aur+', sef y wobr Aur+ gyntaf erioed a roddwyd i sefydliad gan brif elusen cydraddoldeb rhwng y rhywiau Cymru, Chwarae Teg. Mae Chwarae Teg yn meinchnodi sefydliadau yn erbyn rhai eraill yn eu diwydiant gan nodi ffactorau llwyddiant a meysydd i'w gwella. Mae'r wobr hon yn seiliedig ar asesiad o arferion amrywiaeth a barn staff ar gynhwysiant mewn meysydd fel dysgu a datblygu, a reciwtio a dethol.

Ffigur 24: Cynrychiolaeth y gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig ar 31 Mawrth 2023 (% gwahaniaeth pwyntiau)



I gael golwg lawn ar ystadegau amrywiaeth a chynhwysiant yr ASB, gweler ‘Cyfansoddiad staff’ yn adran Atebolrwydd yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar dudalen 133.

Hyrwyddo cynhwysiant ar draws ein cymuned arwain a rheoli

Lansiodd yr ASB yr ail ran o'i chynllun mentora o chwith, gan alluogi uwch-reolwyr i ddysgu o brofiadau bywyd staff â nodweddion gwarchodedig a dangynrychiolir. Arweiniodd hyn at 23 o bartneriaethau gan gynrychioli amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig. Darparwyd cymorth i 14 o fentoriaid o'r ASB (gan gynnwys staff gradd 7+ sy'n cael eu mentora o chwith ar gefndir economaidd-gymdeithasol) i gymryd rhan mewn rhaglen fentora symudedd cymdeithasol drawslywodraethol o'r enw 'Catapult'.

Gwnaethom ddathlu Diwrnod Rhyngladol Pobl ag Anableddau, gan gynnwys darparu mentora o chwith i'n Dirprwy Gyfarwyddwyr, a gwnaethom godi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu yn y gwaith trwy ddigwyddiadau gyda siaradwyr a digwyddiadau eraill.

Datblygu a chefnogi rhwydweithiau staff

Gwnaethom sefydlu Grŵp Gweithredu ar Anabledd i gynnal gwaith pwrpasol ar gynhwysiant anabledd. Roedd y cynllun gweithredu'n cynnwys reciwtio, cadw staff a chymorth parhaus iddynt, cynhwysiant anabledd a chymorth mewn Gweithrediadau Maes, dysgu, datblygu a dilyniant, cymorth yn y gweithle, technoleg a'r cynnig cymorth digidol, cefnogi dychwelyd i'r swyddfa ac ymwybyddiaeth o welededd ac anabledd.

Gwnaethom gwblhau'r Mynegai Symudedd Cymdeithasol am yr ail flwyddyn, gan wella o fod yn safle 90 yn 2021 i safle 75 allan o 149 yn 2022. Rhoddodd y Mynegai fewnwelediad i ni o'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cwblhau o ran atyniad, allgymorth a dilyniant i sicrhau ein bod yn hygyrch ac yn gynhwysol i unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Gwnaethom gais hefyd am achrediad fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 (Arweinydd), ac rydym yn aros am ganlyniad yr archwiliad. Mae'r Cynllun yn ein galluogi i feddwl yn wahanol am anabledd a chymryd camau i wella sut rydym yn reciwtio, cadw a datblygu pobl ag anableddau.

B

Iechyd a chynaliadwyedd yn y system fwyd

Roedd Strategaeth 2022-27 yn cynnwys nod i gyfrannu at wneud bwyd yn “iachach ac yn fwy cynaliadwy”. Roedd y ffocws ehangach hwn yn adeiladu ar y gwaith presennol yng Ngogledd Iwerddon ar faeth a sut rydym yn ystyried Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau. Rydym wedi parhau i gomisiynu, adolygu a chyhoeddi tystiolaeth ar iechyd a chynaliadwyedd o fewn y system fwyd (i gael mwy o

wybodaeth, gweler y pethau allweddol i'w cyflawni yn Amcan 3). I ymhelaethu ar hyn, cyfrannodd yr ASB at ddu brosiect newydd gan weithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth.

Mae'r **Cynllun Peilot Safonau Bwyd mewn Ysgolion** yn gweithio gydag 18 o ardaloedd awdurdodau lleol i brofi dull newydd o sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol bwyd mewn ysgolion. Cafodd y cynllun peilot, a gyflwynwyd ar y cyd ag Adran Addyssg San Steffan a'i gefnogi gan y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, ei gyhoeddi yn y Papur Gwyn Codi'r Gwastad (2022). Eleni, cwblhawyd cam 1, a bydd y gwersi a ddysgyd o'r cam cyntaf yn llywio camau'r dyfodol.

Mae'r **Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd** yn bartneriaeth rhwng y llywodraeth, gan cynnwys yr ASB a'r gweinyddiaethau datganoledig, a chynrychiolwyr o bob rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd i ysgogi newid cadarnhaol yn y system fwyd drwy well gwybodaeth, tryloywder ac atebolrwydd.



Gogledd Iwerddon: Maeth ac iechyd

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn rhannu cyfrifoldeb am gyflwyno polisi maeth ac iechyd gyda'r Adran Iechyd. Nod cyffredinol ein gwaith yw gwella canlyniadau iechyd trwy gynyddu argaeledd bwyd iachach a gwella dealltwriaeth defnyddwyr o faeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tri phrif amcan:



1. Datblygu polisi iechyd a maeth yng Ngogledd Iwerddon mewn partneriaeth ag adrannau'r llywodraeth, y diwydiant bwyd a rhanddeiliaid eraill

Mae'r ASB wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd ar ddatblygu'r strategaeth newydd ar ordewdra yng Ngogledd Iwerddon a oedd yn ymgorffori dull systemau cyfan o atal gordewdra ac a oedd yn canolbwytio'n gryf ar yr amgylchedd bwyd ac anghydraddoldebau iechyd.

2. Cyflawni camau gweithredu o fewn y rhaglen Bwyta'n Dda, Dewis yn Well (EWCB)

Parhaodd yr ASB i weithio gyda chynhyrchwyr bwyd lleol, manwerthwyr, a'r sector 'y tu allan i'r cartref' ar y rhaglen EWCB. Gwnaethom gefnogi mentrau bach a chanolig i ailformiwliddio a lleihau maint dognau er mwyn cynyddu argaeledd bwydydd a diodydd iachach. Gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth i gyflenwi ein cynllun labelu calorïau gwirfoddol, [Calorie Wise](#). Cefnogir y cynllun gan [MenuCal](#), sef cyfrifiannell calorïau ac offeryn rheoli alergenau ar-lein rhad ac am ddim yr ASB.

Ar ôl oedi ymgysylltu â busnesau bwyd yn sgil pandemig COVID-19, rydym wedi bod yn gweithio gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd i gynnal ail-archwiliadau Calorie Wise ar gyfer busnesau a archwiliwyd dros ddwy flynedd yn ôl. Mae'r holl fusnesau sy'n destun ail-archwiliad wedi cadarnhau eu bod yn dymuno bwrw ymlaen, ac mae chwe busnes wedi llwyddo i gadw eu Gwobr Aur Calorie Wise. Mae trefniadau ar waith i ail-archwilio'r busnesau sy'n weddill.

Ffigur 25: Cyfanswm y defnyddwyr MenuCal fesul chwarter**Ffigur 26: Nifer y mewngofnodion i MenuCal fesul chwarter**

Cynyddodd nifer y bobl a greodd gyfrif MenuCal newydd 37% a chynyddodd nifer y sesiynau mewngofnodi 187%. Byddai angen i ddefnyddiwr fewngofnodi i ychwanegu/diwygio rysáit, er nad yw'r ASB yn casglu data ar ba weithgarwch sy'n digwydd yn ystod sesiynau mewngofnodi. Mae'n bosib bod y cynnydd o ganlyniad i gyflwyno trefniadau gorfodol ar gyfer labelu calorïau yn Lloegr.

3. Gwella mewnwelediad a dealltwriaeth trwy gynnal gwyliadwriaeth o boblogaeth Gogledd Iwerddon mewn perthynas ag iechyd deitetegol a maeth

Parhaodd yr ASB i fonitro dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion Gogledd Iwerddon o labelu maethol trwy [Arolwg Olrhain EWCB](#). Dyma'r prif ganfyddiadau ar gyfer 2022, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023:

- Roedd **91%** o'r ymatebwyr yn gyfarwydd â'r label goleuadau traffig (cynnydd o 4% o gymharu â 2021).
- Dyweddodd **85%** eu bod yn deall beth yw pwrpas labeli goleuadau traffig (cynnydd o 6% o gymharu â 2021).
- Mae **62%** o bobl yn dewis bwydydd â lliwiau golau traffig iachach bob amser/y rhan fwyaf o'r amser (gostyngiad o 2% o gymharu â 2021).

74 Adroddiad perfformiad

Mae pandemig COVID-19, chwyddiant cynyddol a'r rhyfel yn Wcráin wedi arwain at gynnydd sylweddol yng nghostau bwyd, diod ac ynni, ac wedi effeithio ar argaeledd rhai bwydydd. Oherwydd hyn, mae unigolion yng Ngogledd Iwerddon yn wynebu blaenoriaethau cystadleuol wrth benderfynu beth i'w brynu a'i fwyta, sy'n golygu efallai nad iechyd yw'r prif ddylanwad.

Y prif risgiau ac elfennau ansicr

Mae'r ASB yn gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae hyn yn golygu bod ystyriaethau risg bob amser yn brif ystyriaeth i'r adran gyfan.

Mae'r system fwyd yn gymhleth ac yn esblygu'n gyflym gyda datblygiadau fel: technolegau newydd yn ymwneud â chynhyrchu bwyd; logisteg; newid arferion defnyddwyr; a dylanwadau masnachu gan gynnwys gwerthiannau ar-lein. Mae sgil-effeithiau'r pandemig, y rhyfel yn Wcráin, chwyddiant a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd wedi cyfrannu at darfu yn y gadwyn cyflenwi bwyd a niferoedd cynyddol yn profi tlodi bwyd.

Sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo

Cadw pobl yn ddiogel a lleihau/dileu risg bwyd yw un o ddibenion sylfaenol yr ASB. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r ASB:

- Ddeall y dirwedd fwyd gymhleth a'r risgiau a allai godi
- Meddu ar y gallu gwyddonol i wneud asesiadau risg proffesiynol ac amserol
- Meddu ar y gallu polisi i ddarparu cyngor rheoli risg priodol

Er mwyn gwireddu ein cenhadaeth, sef 'bwyd y gallwch ymddiried ynddo', wrth reoli adnoddau cyfyngedig ac ansicrwydd allanol, rydym yn awyddus i gymryd risgiau ystyriol a manteisio ar gyfleoedd ac arloesedd. Mae ein dull o arloesi yn amrywio yn dibynnu ar natur y risg.

Gwnaethom nodi ein dull o reoli risg fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2022/23 ar dudalen 102. Caiff risgiau'r ASB eu nodi, **eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi** ar y lefel briodol ar draws yr ASB.

Cynhaliodd y Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol ein gweithdy risg blynnyddol ym mis Ionawr 2023, a chytunwyd ar lefelau'r parodrwydd i dderbyn risg a'r risgiau sy'n peri'r bygythiad mwyaf i ni o ran cyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus. Mae rheoli risg yn yr ASB yn broses barhaus, sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn lefelau'r parodrwydd i dderbyn risg a gytunwyd gennym. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn adolygu ein risgiau strategol yn chwarterol (ac yn fisol os bydd amgylchiadau eithriadol), gan sicrhau bod lefel y risg a wynebir yn cael ei monitro'n agos yn yr amgylchedd newidiol rydym yn gweithredu ynddo.

Ein gweledigaeth



Mae bwyd yn ddiogel



Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label



Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Cyfeiriad y newid mewn risg



Cynyddu



Sefydlog



Lleihau

Tueddiadau risg tymor hir a phrif weithgareddau lliniaru

Gallu adnabod, blaenoriaethu, asesu a gweithredu ar risg bwyd yn effeithiol er mwyn atal niwed i ddefnyddwyr



Cyd-destun:

Mae'r broses dadansoddi risg yn nodi galluoedd a phrosesau gwasanaeth o un pen i'r llall, lle caiff risg bwyd ei nodi (naill ai drwy broblem polisi sy'n codi neu drwy wyliadwriaeth), ei hasesu a'i lliniaru (ei rheoli a'i chyfathrebu). Mae ymadael â'r UE yn golygu bod yr ASB bellach yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau dadansoddi risg cyfun a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Mae'r broses hon yn sail ar gyfer awdurdodi cynhyrchion rheoleiddiedig.

Mesurau lliniaru:

- Parhau i feithrin capaciti a gallu ein pobl o fewn swyddogaethau Polisi a Gwyddoniaeth. Mae Gwasanaeth Rheoleiddio pwrpasol bellach ar waith.
- Gwelliant parhaus i'r broses dadansoddi risg a'r broses ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig drwy ein hadolygiad blynnyddol i'r Bwrdd, ac mae grŵp gwella mewnol ar waith i lywio'r rhaglen hon.
- Datblygu ac adolygu ein swyddogaeth sganio'r gorwel. Mae ymarfer darganfod gyda'r byd academaidd ar y gweill i gefnogi hyn a'n helpu i ddeall a nodi mwy o elfennau anhysbys.

Cynnal hyder ac ymddiriedaeth defnyddwyr, busnesau, y llywodraeth a/neu randdeiliaid eraill gan gynnal ein gallu i gyflawni ein hamcanion strategol i ddiogelu defnyddwyr



Cyd-destun:

Byddai methu â dylanwadu ac ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid yn peryglu ein haddewid i roi defnyddwyr yn gyntaf ym mhopeth a wnawn. Mae ymddiriedaeth a hyder (defnyddwyr, y cyfryngau, y llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant) yn ganolog i gyflawni ein canlyniadau o ran defnyddwyr.

Mesurau lliniaru:

- Parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu (er enghraifft ein hymgyrchoedd), gwrando, monitro ac ymateb yn gyflym i sgyrsiau ar y gwahanol lwyfannau, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys a allai fod yn gamarweiniol neu'n anghywir.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a helpu i ddeall beth yw ein pwrpas a sut rydym yn cyflawni ein gwaith, gan sefydlu a datblygu perthnasoedd newydd a chyfredol.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth i wneud penderfyniadau, a'n bod yn cael ein hystyried yn agored, yn onest, yn annibynnol ac yn gynhwysol.
- Gweithio gyda defnyddwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant busnesau bwyd i ganfod eu safbwytiau a'u barn ar rinweddau rheoleiddiwr modern rhagorol.

Cynnal perthnasau dylanwadol a gwybodus ar draws y llywodraeth ac yn rhyngwladol i hyrwyddo mesurau diogelu defnyddwyr, nawr ac yn y dyfodol



Cyd-destun:

Mae'n hanfodol ein bod yn gallu dylanwadu'n effeithiol ar y llywodraeth yng Nghymru, San Steffan a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag yn rhyngwladol, i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei ddeall, ei gefnogi a'n bod yn gallu cyflawni newid sydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae perthynas newydd y DU â'r UE yn golygu bod rôl yr ASB fel rheoleiddiwr systemau bwyd yn bwysicach, ac mae wedi newid y sbardunau sefydliadol ar gyfer rhai o'n gweithgareddau rhyngwladol.

Mesurau lliniaru:

- Cymryd rhan mewn fforymau sefydledig a bod â sedd mewn cyfarfodydd a gadeirir ar draws Whitehall ar faterion polisi amrywiol.
- Rhoi prosesau ar waith i wella a chryfhau ein gallu i ymgysylltu.
- Parhau i reoli cyfrifoldebau newydd yr ASB o dan Fframwaith Windsor a chyfrannu at drafodaethau â'r UE a'u cefnogi.
- Parhau i reoli mewnbwn yr ASB i'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau a gweithio tuag at gyflwyno'r rheolaethau arfaethedig yn raddol.

Sicrhau a defnyddio ein hadnoddau yn llwyddiannus a chefnogi ein pobl i gyflawni Strategaeth yr ASB, er budd defnyddwyr



Cyd-destun:

Mae pob rhan o'r llywodraeth yn wynebu cyfyngiadau cynyddol ar adnoddau. Mae'r ASB yn parhau i ganolbwytio ar wella ei heffeithiolrwydd a'i heffeithlonrwydd, er mwyn gwneud y mwyaf o'i hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu ei gallu cynllunio, perfformiad, ariannol, risg a blaenoriaethu.

Mesurau lliniaru:

- Datblygu ein Cynllun Pobl sy'n cefnogi ein pobl i gyflawni ein strategaeth, trwy barhau i greu amgylchedd lle mae ein pobl yn hynod alluog, yn cael eu cefnogi'n effeithiol, ac yn dewis gwneud cyfraniadau eithriadol yn gyson i ddiogelu, hysbysu a grymuso defnyddwyr.
- Cyflwyno prosesau newydd i wella rhagolygon ariannol ac adnoddau i sicrhau bod gan yr ASB ddigon o adnoddau drwy gydol yr Adolygiad o Wariant.
- Blaenoriaethu ein hadnodd yn ystod y flwyddyn i alluogi'r ASB i ymateb yn gyflym i bwysau ychwanegol ar adnoddau.
- Datblygu fframwaith sicrhau perfformiad newydd sy'n cefnogi ac yn cyd-fynd â'n strategaeth newydd a'n cynllun busnes tair blynedd.

- Wedi cynllunio ac yn gweithio tuag at gyflawni strategaeth ystadau'r ASB i adeiladu ymhellach ar ein seilwaith digidol sy'n cyd-fynd ag agenda Codi'r Gwastad.
- Datblygu Strategaeth Gyllid, gan gyfuno ein cynlluniau ariannol â'n cynllunio strategol i sicrhau bod ein hadnoddau yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau.

Rydym yn gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol ar draws gwledydd a gweinyddiaethau'r DU, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n dda er gwaethaf gwahaniaethau posib rhwng systemau



Cyd-destun:

Mae'r ASB yn gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio'r DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod cyfundrefn reoleiddio'r DU yn parhau i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu. Yn anochel, mae meysydd lle mae gwahanol flaenoriaethau a safbwytiau ymhliith y pedair gweinyddiaeth. Gallai'r gwahaniaethau hyn effeithio'n negyddol ar berthnasoedd gwaith cydweithredol y pedair gwlad.

Mesurau lliniaru:

- Parhau i ymgysylltu'n weithredol â gweithgorau trawslywodraethol ar Fframweithiau'r DU, drwy ffyrdd o weithio ar y cyd a cheisio consensws ar newidiadau ledled y DU, wrth gydnabod bod angen cysondeb ar fusnesau sy'n masnachu ledled y DU a bod angen lefelau cyson o ddiogelu ar ddefnyddwyr.
- Parhau i feithrin gallu ac effeithiolrwydd ein timau yn y DU ac yn rhyngwladol trwy ddatblygu a gwreiddio ffyrdd newydd o weithio.

Gallu darparu ymateb priodol i ddigwyddiad mawr mewn perthynas â bwyd/bwyd anifeiliaid i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed posib



Cyd-destun:

Mae gan yr ASB drefniadau wrth gefn a gwydnwch sefydledig i ymateb i ddigwyddiad mawr mewn perthynas â diogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid. Mae'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau go iawn, yn ogystal â gweithgarwch Cynllunio ar gyfer y Gaeaf, yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni allu cryfhau ein gwydnwch a gwella ein trefniadau gweithredu safonol o ran ymateb.

Mesurau lliniaru:

- Gwnaethom fabwysiadu dull cynhwysfawr o gryfhau ein gwydnwch a'n parodrwydd ar gyfer argyfngau i gwmpasu pob agwedd ar ein trefniadau ymateb i ddigwyddiadau gan barhau i wella ein galluogrwydd a'n gallu i reoli digwyddiad bwyd mawr.

- Mae ein cynllun rheoli digwyddiadau diweddaredig yn adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i ddysgu; gwneir gwelliannau parhaus i'n trefniadau gweithredu safonol sy'n cyd-fynd â'r cynllun, a defnyddir y cynllun i lywio ein rhaglen ymarfer a hyfforddi flynyddol sy'n cefnogi gwelliannau parhaus yn ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, ein galluogrwydd, a'n gwydnwch sefydliadol.
- Mesurwyd effaith y dull hwn trwy ein galluogrwydd a'n gallu cynyddol i roi ein protocolau ymateb i ddigwyddiadau ac argyfngau ar waith yn effeithlon; darparu ymateb cymesur i ddigwyddiadau bwyd; a galluogi'r sefydliad i ddychwelyd i'n gweithrediadau arferol cyn gynted â phosib. Rydym wedi cryfhau ein galluogrwydd i atal digwyddiadau ac ymchwilio iddynt er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati i reoli digwyddiadau a brigiadau o achosion yn rhagweithiol.
- Wedi parhau i adeiladu capaciti labordai'r DU i sicrhau bod gan yr ASB fynediad at yr ystod lawn o brofion mewn ymateb i ddigwyddiad mawr.

Cefnogi awdurdodau lleol a phorthladdoedd yn effeithiol i gynnal Rheolaethau Swyddogol gan leihau risg diogelwch bwyd posib i ddefnyddwyr a chynnal hyder partneriaid masnachu a defnyddwyr



Cyd-destun:

Mae'r ASB yn dibynnu ar eraill i gynnal llawer o swyddogaethau rheoleiddio ac mae angen i ni weithio'n agos i sicrhau nad yw diogelwch gwasanaethau/defnyddwyr yn cael ei beryglu wrth ddatblygu dulliau newydd. Mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau a heriau cynyddol, ac effeithiodd hyn ar adnoddau ac amlygu'r heriau o ran bodloni disgwyliadau'r ASB wrth gynnal rheolaethau bwyd.

Mesurau lliniaru:

- Trwy'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau, buom yn gweithio tuag at ailddiffinio'r modelau gweithredu hylendid a rheoleiddio. Diben y gwaith hwn oedd anelu at ganolbwytio mwy ar ganlyniadau, cydweithio ag awdurdodau lleol a'r diwydiant i sicrhau bod gwaith rheoleiddio bwyd yn cael ei lywio gan ddata, a bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd lle mae'r risg fwyaf a chreu dyfodol mwy cynaliadwy.
- Parhau i ddatblygu strategaeth cymorth a rheoli perfformiad newydd sy'n ein galluogi i ddeall perfformiad awdurdodau lleol a chynnig arweiniad a chymorth perthnasol.

Gallu cynnal ein swyddogaethau Rheolaethau Swyddogol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cig er mwyn sicrhau diogelwch a hyder defnyddwyr, ynghyd â goblygiadau ehangach fel tarfu ar gyflenwad bwyd, masnach a lles anifeiliaid



Cyd-destun:

Mae'r ASB yn uniongyrchol gyfrifol am arolygu, archwilio a sicrhau busnesau sy'n cynhyrchu cig, gwin a chynnrych llaeth yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cynnal Rheolaethau Swyddogol mewn lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela, ac rydym yn archwilio ac yn arolygu ffatrioedd torri cig, cynhyrchwyr gwin a sefydliadau cynhyrchu llaeth ar ffermydd. Mae'r anawsterau presennol ledled y sector o ran recriwtio a chadw Milfeddygon Swyddogol yn ychwanegu heriau at y gwaith o gynnal Rheolaethau Swyddogol yr ydym yn uniongyrchol gyfrifol amdano.

Mesurau lliniaru:

- Drwy drefniadau rheoli contractau, mae'r ASB yn mynd ati'n barhaus i fonitro gallu a galluogrwydd y Partner Cyflenwi Gwasanaethau i gyflawni ei drefniadau cytundebol a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio a methiannau gwasanaeth (y mae cosbau ariannol ar eu cyfer).
- Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol wedi dod i ben, ac mae'r gwaith ar newid deddfwriaethol ar gyfer cynnal Rheolaethau Swyddogol wedi symud i'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau er mwyn caniatáu iddo gael ei ddatblygu mewn ffordd ystyriol ochr yn ochr â newidiadau polisi a deddfwriaethol ehangach eraill. O ran Gweithrediadau, rydym wedi parhau i ganolbwytio ein hymdrehcion ar foderneiddio o fewn y ddeddfwriaeth bresennol.
- Gweithredu a pharhau i fonitro penderfyniad Coleg Brenhinol y Milfeddygon i ganiatáu ar gyfer cofrestru Milfeddygol Swyddogol Newydd dros dro.
- Gweithredu a monitro Sicrwydd Ansawdd ar gyfer darpariaeth gwasanaeth a monitro effeithiolrwydd y cynllun trwy berfformiad ein darpariaeth gwasanaeth.

Dadansoddiad Perfformiad

Camau gorfodi mewn sefydliadau cig cymeradwy (Cymru, Lloegr)

Yn unol â gofynion Deddf Safonau Bwyd 1999, rydym yn adrodd bob blwyddyn ar gamau gorfodi a gymerir gan yr ASB mewn sefydliadau cig sy'n destun mesurau rheoli milfeddygol (lladd-dai, ffatrioedd torri cig a sefydliadau trin anifeiliaid hela). Gellir cyflwyno hysbysiadau statudol am fethiannau o ran hylendid, materion strwythurol anfoddhaol, i atal defnyddio mathau penodol o offer, i osod amodau ar y broses cynhyrchu cig, i gau'r busnes yn llwyr, neu i atal arfer benodol sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau hylendid y ddeddfwriaeth. Rhaid i hysbysiadau statudol adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio yn gywir, cyfeirio'n gywir at y ddeddfwriaeth berthnasol, a rhaid iddynt fod yn gwbl ddarllenadwy ac yn ddiamwys er mwyn bod yn gyfreithiol ddilys.

Cymru a Lloegr: camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd yn ystod 2022/23

| Camau ffurfiol | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 |
|--|---|---|
| Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion, Hylendid a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013, gan roi diwrnod o rybudd i weithredwr busnes bwyd o'r bwriad i wneud cais i lys ddyfarnu Gorchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a fyddai'n arwain at gau'r busnes ar unwaith | 0 | 0 |
| Hysbysiad Gwella Hylendid a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 | 30 | 32 |
| Hysbysiad Camau Unioni a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 | 45 | 42 |

| Camau anffurfiol | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 |
|---------------------|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 1,489 | 1,417 |

Gogledd Iwerddon: camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy yn ystod 2022/23

Roedd lefel y camau gorfodi yng Ngogledd Iwerddon yn is nag yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod nifer y sefydliadau cig a gymeradwyir gan yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, sef 55, yn gymharol isel. O'r rhain, dim ond 19 (lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela) oedd yn galw am bresenoldeb milfeddygol cyson wrth weithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r lladd-dai yn sefydliadau mawr iawn â thrwybwn uchel sy'n cael eu gyrru gan farchnadoedd allforio, lle mae'r gofynion yn tueddu i fod hyd yn oed yn uwch na gofynion cydymffurfiaeth yr UE. O ran canlyniadau archwilio, nid yw Gogledd Iwerddon wedi cofnodi unrhyw ganlyniadau 'Angen Gwella' neu 'Angen Gwella ar Frys' o Ch1 2019/20 ymlaen (gweler Ffigur 13). Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sy'n gyfrifol am gyflawni gweithrediadau cig ar ran yr ASB yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn monitro perfformiad DAERA fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth, ac mae system o ymwelliadau gwirio ar waith lle mae lefelau gorfodi yn y sefydliad yn cael eu hasesu yn erbyn y sylwadau a wnaed ar y diwrnod; ni fu unrhyw bryderon mewn perthynas â hyn.

| Camau ffurfiol | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006, gan roi diwrnod o rybudd i weithredwr busnes bwyd o'r bwriad i wneud cais i lys ddyfarnu Gorchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a fyddai'n arwain at gau'r busnes ar unwaith | 0 | 0 |
| Hysbysiad Gwella Hylendid a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Camau Unioni a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006 | 0 | 1 |

| Camau anffurfiol | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 |
|---------------------|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 23 | 28 |

Erlyniadau

Ar ôl cael atgyfeiriad a chynnal ymchwiliad troseddol llawn, gall yr awdurdod gorfodi perthnasol erlyn troseddau a gyflawnir ar safle cymeradwy.

Yng Nghymru a Lloegr, yr ASB sy'n erlyn achosion o dorri rheolau hylendid bwyd. Caiff achosion mewn perthynas â honiadau o dorri rheolau lles anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a rhai gofynion o ran enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE) eu herlyn gan Lywodraeth Cymru neu Wasanaeth Erlyn y Goron (sy'n gweithredu ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig). Yn 2022/23, cafodd Cangen Ymchwiliadau Troseddol yr ASB 37 o atgyfeiriadau gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau i ymchwilio iddynt, gyda'r bwriad o erlyn. Mae canlyniad yr ymchwiliadau hyn yn destun profion tystiolaethol a phrofion budd y cyhoedd.

Mae'r amserlenni ar gyfer erlyniadau'n golygu ei bod hi'n anghyffredin i achos symud ymlaen o'r cam atgyfeirio i wrandawriad llys terfynol o fewn yr un flwyddyn adrodd. Felly, mae llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad yn 2022/23 heb eu cwblhau eto.

Yn ystod 2022/23, daeth 11 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr ASB i ben yn y llys, a chafwyd euogfarnau yn erbyn 14 diffynnydd. Mae 8 achos arall yn cael eu herlyn ar hyn o bryd.

Mae canlyniadau neu statws yr atgyfeiriadau hynny fel a ganlyn:

| Canlyniadau/statws cyfredol | Nifer yr atgyfeiriadau |
|--|------------------------|
| Euogfarnau | 7 |
| Llythyrau rhybuddio wedi'u hanfon | 4 |
| Erlyniadau sy'n dal i fynd rhagddynt yn y llys | 4 |
| Rhyddfarnau | 0 |
| Erlyniadau wedi'u tynnu yn ôl | 1 |
| Dim erlyniadau | 20 |

Cwynion gan gynnwys y rhai a wnaed i Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac lechyd

Bydd yr ASB bob amser yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir trwy ei Pholisi Cwynion, a dysgu oddi wrthynt. Ein nod yw datrys pob cwyn yn gyflym ac mor agos â phosib at y pwynt cyflenwi. Am y rheswm hwn, mae cwynion fel arfer yn cael eu trin ar y lefel 'leol' i ddechrau. Pan fo'r achwynnydd yn anfodlon ar y ffordd mae'r ASB wedi ymateb i'w gŵyn, gall drosglwyddo'r mater i lefel 'ganolog' ein proses. I bob pwrrpas, mae'r lefel hon yn cynnig dau gam 'apelio'. Y cyntaf trwy swyddfa'r Cydlynnydd Cwynion, a'r ail trwy swyddfa'r Prif Weithredwr. Er hynny, gall fod achlysuron pan fydd angen i gŵyn gychwyn ar lefel 'ganolog' y broses.

Gellir dod o hyd i fanylion am ein Polisi Cwynion ar-lein: www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/feedback/cwynion-a-sylwadau-am-yr-asiantaeth-safonau-bwyd

84 Adroddiad perfformiad

Pan fydd achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl dilyn proses yr ASB ar y lefelau 'lleol' a 'chanolog', gall gyfeirio ei achos at Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd. Mae rhagor o fanylion am Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd ar gael ar-lein: www.ombudsman.org.uk/

Yn ystod blwyddyn galendr 2022:


- Ymatebwyd i bum achos ar y lefel 'leol'. O'r rhain, ni chadarnhawyd pedwar o'r achosion a chadarnhawyd un yn rhannol.
- Ymatebwyd i bedwar achos ar y lefel 'ganolog' trwy swyddfa'r Cydlynnydd Cwynion. Ni chadarnhawyd yr un o'r pedwar achos.
- Cyfeiriwyd tri achos at swyddfa'r Prif Weithredwr. Ni chadarnhawyd dau o'r achosion a chadarnhawyd un yn rhannol.
- Ni chyfeiriwyd unrhyw achosion at Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd.

Mae hyn yn cymharu â 2021, lle:

- Ymdriniwyd â deg achos ar lefel 'leol'. Ni chadarnhawyd pump o'r achosion, cadarnhawyd tri yn rhannol, a dau yn llawn
- Ymdriniwyd ag un achos ar y lefel 'ganolog' trwy swyddfa'r Cydlynnydd Cwynion, a gadarnhawyd yn rhannol.
- Cafodd un achos ei gyfeirio at swyddfa'r Prif Weithredwr, a gadarnhawyd yn rhannol.

Adolygiad ariannol

Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â'n perfformiad ariannol, gan nodi ein cyllid a manylion ein gwariant, a sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ac yn gyfrifol.



Ariennir yr ASB yn bennaf drwy'r broses Amcangyfrifon Cyflenwad flynyddol a reolir gan Drysorlys Ei Fawrhydi (HMT). Y ffigurau uchod yw'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan Senedd y DU ar gyfer ASB San Steffan (fesul Amcangyfrif Atodol).

Rydym hefyd yn cynhyrchu lefel o incwm o wasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid allanol ac yn y sector cyhoeddus.

Rydym yn atebol i Drysorlys Ei Fawrhydi, y Senedd a'r cyhoedd am y ffordd yr ydym wedi defnyddio arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynnyddol a'n cyfrifon San Steffan wedi'u harchwilio (ARA) i gefnogi atebolrwydd seneddol trwy gymharu gwir wariant ar adnoddau'r ASB â'r amcangyfrifon. Mae'r adran 'Cysoni gwariant net ar adnoddau rhwng amcangyfrifon, cyllidebau a

86 Adroddiad perfformiad


chyfrifon' yn cynnwys mwy o fanylion am alldro (*outturn*) yr ASB o'i gymharu â'i hamcangyfrifon.

Rydym yn cyhoeddi ein perfformiad ariannol yn seiliedig ar Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr sydd i'w gael yn yr adran 'Cyfrifon'.


Cost adnoddau net DEL yr ASB a ariennir gan San Steffan oedd £114.7 miliwn yn erbyn y cyllid o £116.9 miliwn a oedd ar gael hyd at 31 Mawrth 2023. Roedd cyfanswm y gwariant net 9% yn is na'r amcangyfrif o £12.1 miliwn.

Y prif gyfrannwr at y tanwariant hwn yw'r tanwariant o £7.8 miliwn mewn Adnoddau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (RAME).

Ffigur 27: Perfformiad Ariannol yr ASB 2022/23 Gweinyddiaeth £000au



Ffigur 28: Perfformiad Ariannol yr ASB 2022/23 Cyfalaf £000au




Mae tanwariant CDEL (Terfynau Gwariant Adrannol – Cyfalaf) o £2.4 miliwn yn bennaf oherwydd prosiectau a gafodd eu hailflaenoriaethu.

Mae dadansoddiad fesul gweithgaredd sy'n cymharu gwariant 2021/22 â gwariant 2020/21 i'w weld yn Nodyn 2.

Polisi talu cyflenwyr

Mae polisi'r ASB yn pennu y dylid talu pob anfoneb nad oes anghydfod yn ei chylch o fewn pum niwrnod wedi iddi ddod i law. Yn ystod 2022/23, talwyd 67.5% o'r holl anfonebau o fewn y targed hwn. Bydd y polisi yn parhau ar gyfer 2023/24.

Ffigur 29: Dadansoddiad o dueddiadau cyfanswm gwariant adrannol yr ASB (£000au)



Mae cyfanswm gwariant yr ASB wedi cynyddu dros amser wrth baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE a ffurfio'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae mwy o wybodaeth yn y Tablau Craidd a gyhoeddwyd yn www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-a-chyfrifon.

Cynaliadwyedd ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd

Mae strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yr ASB yn diffinio ein blaenoriaethau a'n hymrwymiad i warchod yr amgylchedd, a hynny wrth gyd-fynd ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC) i gefnogi'r nod o gyflawni Sero Net erbyn 2050.

Wrth i ofynion y gwaith gynyddu, roedd yn amlwg bod angen i ni neilltuo adnoddau pwrpasol yn y maes hwn, yn enwedig os oeddem am gyrraedd ein potensial a chael effaith sylweddol. Ar ôl cyflwyno achos llwyddiannus gerbron uwch-dîm rheoli yr ASB y llynedd, sicrhawyd cyllid ac, ym mis Hydref 2023, gwnaethom reciwtio Rheolwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol amser llawn.

Mae'r Rheolwr newydd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd a fydd yn ein galluogi i fodloni targedau ein polisi, gan ddarparu eglurder a chyfeiriad i arweinwyr ar draws y sefydliad i gynnwys cynaliadwyedd yn eu gwaith.

Un maes blaenoriaeth oedd ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol. Cyhoeddodd ein harweinydd o'r uwch-dîm rheoli a'n noddwr ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol erthygl newyddion fewnol ar draws ein llwyfannau i dynnu sylw at ein cynlluniau ar gyfer datblygu ein hagenda werdd. Ochr yn ochr â hyn, er mwyn gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff, lansiwyd tudalen ar ein mewnrwyd. Mae'r dudalen yn sôn yn benodol am gynaliadwyedd amgylcheddol, gan roi mynediad hawdd at wybodaeth i holl staff yr ASB. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys eitemau fel crynodeb o'r argyfwng hinsawdd, nodau Llywodraeth y DU, ISO 14001, ein targedau, perfformiad, awgrymiadau ac adnoddau. Mae bod â phopeth mewn un lle yn llawer mwy hygyrch i staff.

Mae annog hyfforddiant a rhannu gwybodaeth wedi bod o fudd enfawr i staff, ac mae hefyd yn cysylltu ag un o'r camau gweithredu ar gyfer nod 13 o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs) – sef 'gwella addysg a chodi ymwybyddiaeth ar liniaru newid yn yr hinsawdd, addasu, lleihau effaith a rhybuddio cynnar'.

Ym mis Ionawr 2023, ar ôl ychydig o oedi oherwydd adnoddau staff, gwnaethom gynnal archwiliad gwyliadwriaeth annibynnol a gymeradwywyd gan UKAS ar gyfer achrediad Amgylcheddol ISO 14001. Cynhaliwyd yr archwiliad dros dridiau, gan gwmpasu arferion yn ein swyddfeydd yn Llundain a Belfast, ynghyd â gofynion deddfwriaethol ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ganolog. Rydym yn falch iawn o adrodd ein bod wedi llwyddo a chadw ein hachrediad am flwyddyn arall.

Dros yr ychydig fisoeedd nesaf, byddwn yn dod ag aelodau o'n rhwydwaith staff ynghyd, yn hen ac yn newydd, sydd yn ein Grŵp Gweithredu ar yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (CEAG). Gyda'n gilydd, byddwn yn penderfynu pa bwyntiau o'n cyllun gweithredu i'w blaenorriaethu, gan gytuno ar amserlenni a neilltuo adnoddau.


Ôl troed carbon

Teithio busnes

Mae ein sefydliad yn parhau â'r rhaglen 'Ein Ffyrrd o Weithio' (OWOW), a lansiwyd yn 2017, gan foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio. Mae hyn yn dal i gael effaith fawr ar ein hól troed carbon gyda llawer o staff yn dewis gweithio gartref, gan arwain at lai o gymudo a theithio busnes.

Mae gennym raglen newydd i staff ar gyfer trefnu teithiau busnes a llety. Mae'r rhaglen yn gallu nodi faint mae unigolyn yn ei wario, a chyfanswm ei allyriadau dros gyfnod treigl o 6 mis. Mae'r ap yn amlygu cyfanswm yr allyriadau ar gyfer pob rhan o'r daith, gan roi cyfre i ddefnyddwyr ddewis opsiynau sy'n well i'r amgylchedd.

Ffigur 30: Dadansoddiad o CO₂e mewn tunelli yn ôl dulliau teithio



Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Cwmpas 1 (uniongyrchol)

Gwnaethom ragori ar darged Ymrwymiad Fflyd y Llywodraeth, sef bod 25% o geir ar brydles yn gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 2022. Yn wir, gallwn ymfalchïo bod 65.4% o fflyd yr ASB yn gerbydau ULEV a'n bod ar y trywydd i fod â fflyd gyflawn o gerbydau ULEV erbyn 2027.

Ar gyfer GGC, rydym bellach yn gallu adrodd ar ddata ein fflyd brydles yn ôl y math o danwydd, gan roi darlun cywirach o'n hallyriadau. Rydym yn bwriadu gwneud yr un peth ar gyfer defnydd staff o gerbydau ar gyfer busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn ein Cyfrifon Adrodd Blynnyddol ar gyfer 2023/2024.

Ystadau


Oherwydd bod yr ASB yn prydlesu gofod o fewn adeiladau eraill y llywodraeth, mae wedi bod yn anodd gweld effaith wirioneddol gweithio gartref. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod allyriadau'r ASB yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y defnydd o ynni fesul adeilad yn seiliedig ar ganran yr ardal yr ydym yn ei meddiannu.

O ganlyniad i hyn, a chan nad ydym yn defnyddio ein gofodau'n ddigonol, rydym wedi penderfynu ymuno ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) o fis Ebrill 2023, gan ddod â chytundebau prydles presennol i ben ar gyfer ein swyddfeydd yn Birmingham a Llundain. Rydym hefyd yn symud ein swyddfa yng Nghaerdydd i un o adeiladau Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, ac yn haneru maint ein swyddfa yng Nghaerfro. Gobeithiwn y bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i gael darlun cliriach o'n perfformiad, wrth sicrhau gostyngiad sylweddol yn ein defnydd o ynni a lleihau ein hôl troed carbon cyffredinol.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Cwmpas 2 (anuniongyrchol)⁷

Oherwydd bod yr ASB yn prydlesu gofod o fewn adeiladau eraill y llywodraeth, mae wedi bod yn anodd gweld effaith wirioneddol gweithio gartref. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod allyriadau'r ASB yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y defnydd o ynni fesul adeilad yn seiliedig ar ganran yr ardal yr ydym yn ei meddiannu.


Ffigur 31: Defnydd o ynni fesul adeilad



⁷ Mae'r data'n ymwneud ag ASB Cymru, Llundain, Birmingham a Gogledd Iwerddon yn unig. Mae data ar gyfer y swyddfa yng Nghaerfro yn cael ei gyfrif gan Defra.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Cwmpas 3 (anuniongyrchol)⁸

Ffigur 32: CO₂e (Tunelli) yn ôl Cyfanswm Teithiau Busnes a Chyfanswm y Defnydd o Ynni Fesul Adeilad



Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr oedd £1.5 miliwn, gyda £1.3 miliwn ar gyfer teithio busnes a £0.2 miliwn yn ddefnydd ynni.

8 Data ledled y DU.


Gwarchod adnoddau naturiol

Defnydd o ddŵr

Mae cyfanswm y defnydd o ddŵr wedi gostwng yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu cael data defnydd ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham ers mis Gorffennaf 2022 oherwydd problem gyda'r mesurydd.

Mae targed yr ASB o 'leihau'r defnydd o ddŵr o leiaf 8% o waelodlin 2017/18' wedi'i gyflawni, gyda gostyngiad o 46%.

Ffigur 33: Unedau o ddŵr (m³)





Rheoli Gwastraff

Mae'r ASB wedi gwella'n sylweddol o ran gwastraff dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a hynny'n bennaf oherwydd cyflwyno contractau gweithio gartref.

Ein prif darged oedd 'lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir 20% o waelodlin 2017/2018' ac rydym wedi cyflawni hyn eleni.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, nid ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, gan fynd y tu hwnt i'n targed o anfon llai na 5% o'n gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Cynyddodd defnydd papur yr ASB o 105 rîm yn 2021/22 i 402 rîm yn 2022/23.

Ffigur 34: Gwastraff (tunelli)**Ffigur 35: Gwastraff wedi'i ailgylchu ac wedi mynd i safleoedd tirlenwi (tunelli)**

Gan ddefnyddio'r hierarch gwastraff, rydym yn ymdrechu i atal, ailddefnyddio ac ailgylchu lle bynnag y bo modd. O'r herwydd, rydym yn cyflwyno cynllun ailgylchu nwyddau traul argraffyddion yn chwarter un 2023-2024, i'w roi ar waith yn ein ffatrioedd a'n swyddfeydd. Bydd y cynllun hefyd ar gael i'r rheiny sy'n gweithio gartref ac unrhyw un ar gontact aml-leoliad i'w ddefnyddio yn ystod unrhyw ymweliad â'r swyddfa/safle.


Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy

Mae'r ASB yn hyrwyddo meddlw yn gynaliadwy, drwy sicrhau bod ystyriaethau cynaliadwy, gan gynnwys amcanion sero net, manylebau cynnrych amgylcheddol gofynnol ac egwyddorion y rhain, yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar y broses gaffael. Mae hyn wedi'i nodi yn ein polisi caffael cynaliadwy newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 ac mae'n helpu i gefnogi nod 12 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sef 'hyrwyddo arferion caffael cyhoeddus sy'n gynaliadwy, yn unol â pholisiau a blaenoriaethau cenedlaethol'.

Mae caffael cynaliadwy yn golygu ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y cynnrych neu'r gwasanaeth dros ei oes, fel: dyluniad, y defnydd o ddeunydd anadnewyddadwy, dulliau gweithgynhyrchu a chynhyrchu, logisteg, gweithrediad, cynnal a chadw, aildefnyddio, opsiynau ailgylchu a gwaredu; yn ogystal â gallu'r cyflenwyr i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn drwy'r gadwyn gyflenwi.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partner cyflenwadau busnes, sydd, fel yr ASB, yn hynod angerddol am effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ei weithgareddau. Cyflwynodd ein partner ystod o dros 2,000 o eitemau o'r enw 'Cynhyrchion â Phwrpas' (PWP). Mae'r holl eitemau PWP yn sicrhau effaith foesegol, gymdeithasol neu amgylcheddol gadarnhaol ddiriaethol. Mae'r graff isod yn dangos ein bod yn gwneud yn weddol dda, gyda 58% o'r eitemau a brynwyd yn dod o'r ystod PWP. Rydym nawr yn ceisio gwella hyn lle bo modd trwy hyrwyddo PWP ac annog staff i ddewis yr eitemau hyn. Rydym yn bwriadu adolygu ein rhestr graidd gyfredol.

Ffigur 36: Cynhyrchion â Phwrpas (PWP)



Perfformiad gohebiaeth â'r cyhoedd ac Aelodau Seneddol, gan gynnwys Cwestiynau Seneddol

Nid yw'r ASB yn cofnodi'n ganolog yr holl ohebiaeth sy'n dod i law ac sy'n cael ei hanfon, na chyswllt ag aelodau'r cyhoedd. Mae manylion cyswllt meysydd busnes yr ASB ar gael ar wefan yr ASB er mwyn i aelodau'r cyhoedd a busnesau bwyd gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Yn ystod 2022/23, cafodd llinell gymorth ymholaadau cyffredinol yr ASB 4,917 o e-byst a 5,405 o alwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd (yn 2021/22, roedd 5,542 o negeseuon e-bost a 5,347 o alwadau ffôn).

Yn ogystal, rheolodd Swyddfa Breifat yr ASB 145 o eitemau o ohebiaeth, gan gynnwys gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd at Aelodau Seneddol, Cadeirydd yr ASB, Prif Weithredwr yr ASB neu bobl eraill, gan ymateb i 95% o fewn y targed (yn 2021/22, daeth 127 eitem o ohebiaeth i law ac atebwyd 97% o fewn y targed).

Drafftiodd yr ASB atebion ar gyfer 39 o Gwestiynau Seneddol, gan ddychwelyd 87% ar amser i'r Adran lechyd a Gofal Cymdeithasol eu hateb drwy eu gweinidogion.

Gwell rheoleiddio

Mae gwell rheoleiddio yn rhan annatod o'n dull rheoleiddio ac rydym yn cymhwys o egwyddorion rheoleiddio da i'n holl weithgareddau rheoleiddio. Mae'r ASB yn ymdrechu i fabwysiadu dull rheoleiddio clir, cymesur, sy'n seiliedig ar risg i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae rheoliadau gormodol neu aneglur yn gosod beichiau diangen ar fusnesau ac yn rhwystro'r buddion rheoleiddiol arfaethedig i ddefnyddwyr a busnesau.

Rydym yn cefnogi agenda Gwell Rheoleiddio'r Llywodraeth ac uchelgeisiau'r Strategaeth Ddiwydiannol, gan gynnwys ar arloesi, lle rydym yn ymdrechu i ganfod a chael gwared ar rwystrau diangen i dechnoleg newydd a chefnogi datblygiadau yn y diwydiant er budd defnyddwyr. Mae'r holl reoliadau newydd yn destun adolygiadau ôl-weithredu i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni a bod y rheoliadau'n dal i fod yn angenrheidiol.

Adrodd ar Darged Effaith Busnes (BIT)

Ni chyflwynodd yr ASB unrhyw ddarpariaethau rheoleiddiol cymwys o dan y BIT yn y Senedd ddiweddaf. Yn unol â'n gofynion adrodd statudol, cyhoeddodd yr ASB fanylion ei gweithgareddau rheoleiddio ym mis Rhagfyr 2022, yn ogystal â chyfrannu at Adroddiad BIT Diwedd y Senedd y Llywodraeth. Cyhoeddir manylion adroddiadau BIT yr ASB ar ein gwefan yn <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/dull-rheoleiddio#asesiadau-effaith>




Emily Miles

Prif Gyfarwyddwr a Swyddog Cyfrifyddu
26 Ionawr 2024

Mae cyfrifon yr Asiantaeth a manylion perthnasol eraill wedi'u cynnwys isod er gwybodaeth. Fe'u cyflwynir yn Saesneg oherwydd eu natur dechnegol.

Accountability report



Corporate Governance Report

Directors' report

The requirements of the accountability report are based on the matters required to be dealt within a Directors' Report, as set out in Chapter 5 of Part 15 of the Companies Act 2006 and Schedule 7 of SI 2008 No 410, and in a Remuneration Report, as set out in Chapter 6 of the Companies Act 2006 and SI 2013 No. 1981.

The FSA is a non-Ministerial Government Department. Staff are accountable through a Chief Executive to the Board, rather than directly to ministers. The Board consists of a Chair, Deputy Chair and up to 12 members. The Chair and Deputy Chair are appointed by the Secretary of State for Health and Social Care in agreement with health ministers in Wales and Northern Ireland. The Board is mainly appointed by the Secretary of State for Health and Social Care, with one member appointed by the Welsh Health Minister and one by the Northern Ireland Health Minister.

The Board is responsible for the overall strategic direction of the FSA, ensuring that it fulfils its legal obligations so that its decisions or actions take proper account of scientific advice, the interests of consumers and other relevant factors. Day-to-day management of the FSA is delegated to officials through the Chief Executive. In addition to the FSA Board, the FSA has advisory committees, chaired by Board members, in Wales and Northern Ireland. The role of the committee in each country is to advise the Board. The Board is required by statute to take account of their advice in its work.

During 2022/23 the FSA did not formally report any personal data related incidents to the Information Commissioner's Office.

Disclosure of Board members' interests

Board members are appointed to act collectively in the public interest, not to represent specific sectors. Provisions for declaration of interests and withdrawal from meetings are intended to prevent the Chair, Deputy Chair, and members being influenced or appearing to be influenced, by their private interests in the exercise of their collective public duties. All personal or business interests which may, or in the judgement of the member may, be perceived by a reasonable member of the public to influence their judgement, should be declared. Such interests include, but are not limited to, involvement in the agriculture, food, and related industries. The Code of Conduct for Board members includes a guide to the categories of interest that must be declared. Details of Board members, their register of interests, and the Code of Conduct are on our website: <https://www.food.gov.uk/about-us/members-of-the-fsa-board-including-attendances-engagements-and-expenses#current-fsa-board-members>

Details of the Board and Directors

The FSA Board

During the year, the membership of the non-executive FSA Board was:

| Member name | Position |
|--|---|
| Professor Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Hon), FMedSci (Chair) | FSA Chair from July 2021 |
| Dr Ruth Hussey CB OBE DL (deputy Chair) | Interim Chair from February 2021 until June 2021 Deputy Chair from July 2020 |
| Peter Price | Chair of the Welsh Food Advisory Committee from September 2020 |
